Cronfa Loteri Fawr

# Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005











| | |
|---|---|
| | Medi 2005 |
| **Angen rhagor o wybodaeth?** | Y ffordd orau i gael mwy o wybodaeth yw drwy fynd i'n gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk |
| **Côd** | |
| **Hawlfraint** | © Cronfa Loteri Fawr, 2005 |
| **Design** | Graphicsi.com |
| **Print** | |
| **Copïau:** | Ceir rhagor o gopïau trwy ffonio: 0845 4102030 gan ddyfynnu'r cyfeirnodau uchod: Neu anfonwch ebost atom yn ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk neu archebwch ar y we yn www.cronfaloterifawr.org.uk/cyhoeddiadau Ffôn testun 0845 0390204 |
| | Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, ar ddisg mewn print bras, Saesneg ac ieithoedd cymunedol |
| **Rydym yn poeni am yr amgylchedd** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig |
| **Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb |
| | Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd |
| | Ysgrifennwyd y crynodeb yma gan Steve Browning |

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

# Cronfa Cyfleoedd Newydd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005

CYFLWYNWYD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL YN UNOL AG ADRAN 34 (3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON.

PARATOWYD A CHYFLWYNWYD Y CYFRIFON YN UNOL AG ADRAN 43D (4) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL.

GORCHMYNWYD EI ARGRAFFU GAN DŶ'R CYFFREDIN AR 31 MEDI 2005.

CYFLWYNWYD GERBRON SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN AR 31 MEDI 2005.

HC473 SE/2005/201 LLUNDAIN: THE STATIONERY OFFICE. £41.75

SET O DRI: NID I'W GWERTHU ARWAHÂN

# Cronfa Cyfleoedd Newydd
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2004/2005

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad: Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 2 |
| 1. Perfformiad yn erbyn amcanion 2004-05 | 4 |
| 2. Rhaglenni a dyfarniadau grant | 13 |
| 3. Y Gronfa Loteri Fawr – edrych ymlaen | 52 |
| 4. Gofal Cwsmeriaid | 54 |
| 5. Cydraddoldeb | 56 |
| 6. Cofrestr o fuddiannau | 59 |
| 7. Adolygiad Ariannol | 60 |
| 8. Cysylltu â ni | 62 |
| 9. Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor | 63 |
| 10. Cyfrifon Blynyddol | 66 |

# Cyflwyniad

## Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae adroddiad blynyddol 2004-05 yn dathlu'r uno gweinyddol llwyddiannus rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a ddaeth y Gronfa Loteri Fawr ar 1 Mehefin 2004. Cyflawnwyd llawer iawn ers yr uno.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd, sy'n cynnwys Bwrdd cydffiniol, wedi datblygu cenhadaeth a gwerthoedd newydd, wedi cwblhau cymathu'r staff presennol yn y strwythur dros dro, ac wedi gweithredu polisïau a strategaethau cydlynol i alinio ein hadnoddau ymhellach i gefnogi cyflwyno'n busnes newydd. Ym mis Ionawr 2005, cydleolodd Comisiwn y Mileniwm yn yr un safle â'r Gronfa Loteri Fawr yn Llundain, fel cam cyntaf tuag at, yn y pen draw, drosglwyddo ei gyfrifoldebau i ni.

Yn erbyn y cefndir hwn, cadwyd gwaith y sefydliadau etifeddiaeth ar y trywydd iawn drwy gynnal gwasanaethau ansawdd uchel i'n hymgeiswyr, deiliaid grant, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Yn ystod 2004-05, ymrwymwyd cyllid gwerth £749 miliwn gennym trwy raglenni DU-eang amrywiol (£550m o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a £199m o'r Gronfa Gymunedol). Ymhlith y rhaglenni presennol yr adroddir yn eu cylch yn adran dau, lansiwyd y Gronfa Pobl Ifanc ym mis Medi 2004 i hyrwyddo lles a datblygiad personol pobl ifanc ledled y DU.

Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Gronfa Loteri Fawr ddau ymgynghoriad DU-eang pwysig â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach rhwng Mehefin 2004 ac Ionawr 2005. Canolbwyntiodd y cyntaf ar ba fath o noddwr y dylem fod a sut y dylem gynnig nawdd, a chanolbwyntiodd yr ail ar y themâu, y canlyniadau a'r blaenoriaethau a fydd yn llunio ein gwaith yn y dyfodol. O ganlyniad, cyhoeddwyd fframwaith polisi cychwynnol ym mis Mawrth 2005 i gefnogi cyflwyno rhaglenni grant newydd gwerth rhyw £2.3 biliwn yn ystod 2006-09.

Hoffem ddiolch i'r Bwrdd, aelodau'r Pwyllgor a'r staff sydd wedi cyfrannu at y cyflawniadau hyn. Maent wedi gosod sylfaen gadarn i'r Gronfa Loteri Fawr allu datblygu'n ariannwr newydd, gwahanol a gwell, gan ddod â gwelliannau go iawn i gymunedau a bywydau'r bobl hynny sydd ei angen fwyaf.

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr

# Adran un

## Perfformiad yn erbyn amcanion corfforaethol 2004/2005

**Mae Cynllun Corfforaethol 2004-05 y Gronfa Loteri Fawr yn nodi'r amcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig. Ceir crynodeb ohonynt isod, ynghyd â manylion am y lefelau perfformiad a gyflawnwyd.**

### 1 Creu sefydliad cyfun o'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n gweithio i Fwrdd Cydffiniol i greu'r Gronfa Loteri Fawr (yn amodol ar ddeddfwriaeth) drwy:

**a) Sefydlu holl aelodau'r Bwrdd o fewn tri mis ar ôl iddynt ymuno.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu'r Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd newydd a datblygu rhaglen sefydlu. | Sefydlwyd y Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd newydd o fewn tri mis o ymuno drwy raglen/pecynnau sefydlu. |

**b) Paratoi blaengynllun a strwythur llywodraethu i'r Bwrdd erbyn mis Mai 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Integreiddio Byrddau'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn Fwrdd cydffiniol newydd. Paratoi blaengynllun a strwythur llywodraethu'r Bwrdd. | Ffurfiwyd y Bwrdd cydffiniol newydd gyda Blaengynllun y Bwrdd yn cael ei baratoi ym mis Mehefin 2004. Cytunodd y Bwrdd ar strwythur newydd y Pwyllgor, Cadeiryddion y Pwyllgorau a'u haelodaeth ym mis Gorffennaf 2004. |

**c) Paratoi'r ffordd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr drwy uniad gweinyddol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cytuno ar y strwythur a chymathu staff i'r strwythur newydd.<br><br>Creu amserlen cynllun prosiect ar gyfer integreiddio Comisiwn y Mileniwm i'r Gronfa Loteri Fawr dan gytundeb lefel gwasanaeth erbyn Ionawr 2005. | Cwblhawyd uniad gweinyddol y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 1 Mehefin 2004 gyda lansiad y Gronfa Loteri Fawr (yn amodol ar ddeddfwriaeth). Adolygwyd strwythurau'r mwyafrif o gyfarwyddiaethau a chytunwyd ar gymathu staff presennol a recriwtio staff newydd i lenwi'r swyddi gwag. Bydd ailstrwythuro Lloegr a'r Gweithrediadau'n parhau yn ystod 2005/06.<br><br>Ymunodd y Gronfa Loteri Fawr â Chomisiwn y Mileniwm mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth ym mis Ionawr 2005. Symudodd Comisiwn y Mileniwm i safle'r Gronfa Loteri Fawr yn Plough Place. |

**d) Cyflwyno strategaeth gyfathrebu integredig ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu strategaeth gyfathrebu integredig ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. | Cymeradwywyd strategaeth gyfathrebu dros dro gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2004. Caiff y strategaeth gyfathrebu ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2005. |

**e) Datblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chynllun strategol erbyn Ionawr 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chynllun busnes corfforaethol 2005/06. Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer cynhyrchu cynllun strategol. | Datblygwyd gweledigaeth a gwerthoedd y Gronfa a chytunodd y Bwrdd arnynt ym mis Mehefin 2004, gyda diweddariad pellach ym mis Mawrth 2005. Cytunwyd ar fframwaith amlinellol a'r cerrig milltir arfaethedig ar gyfer y broses gynllunio strategol hefyd. Ym mis Mawrth 2005, cymeradwywyd Cynllun Busnes 2005/06 gan y Bwrdd. |

**f) Integreiddio'r gweithdrefnau corfforaethol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu, cyd-drefnu a rheoli timau prosiect newydd sy'n gweithio ar integreiddio gweithdrefnau corfforaethol a datblygu rhaglenni. | Sefydlwyd y Byrddau Rheoli ym Mehefin 2004 i gyd-drefnu a rheoli timau prosiect sy'n gweithio ar integreiddio gweithdrefnau corfforaethol. Mae'r gwaith integreiddio ar y gweill. |

**g) Adolygu'r cynnydd yn erbyn amcanion corfforaethol bob tri mis.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu systemau i sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn adrodd ynghylch eu cynlluniau bob tri mis, a pharatoi adroddiad i'r Uwch Dîm Rheoli. | Cytunwyd ar Gynllun Busnes 2004/05 ym mis Mai 2004, gydag adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd. |
| Cyd-drefnu a pharatoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04 ar gyfer y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. | Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer 2003/04 gerbron y Senedd ym mis Hydref 2004. |

# Adran un

**h) Datblygu a chyflwyno ymgynghoriad a chynllun briffio erbyn mis Hydref 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a chyflwyno ymgynghoriad a chynllun briffio. | Datblygwyd cynllun ymgynghori a briffio yn Ebrill 2004, a chwblhawyd dau ymgynghoriad cyhoeddus mawr erbyn Ionawr 2005. |

**i) Datblygu a chyflwyno Polisi Newid Staff tryloyw erbyn Ebrill 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a chyflwyno Polisi Newid Staff. | Cytunwyd ar y Polisi Newid Staff am y tro cyntaf yn y chwarter cyntaf, ac fe'i diweddarwyd a chytuno ar y diweddariad hwnnw ym mis Mawrth 2005. |

## 2 Cyflawni'r targedau dyfarnu grantiau a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau Polisi a'r targedau o ran ardaloedd blaenoriaeth drwy:

**a) Fodloni'r ymrwymiad targed am bob blaenoriaeth/rhaglen sy'n bodoli eisoes.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r targedau ymrwymiad a gytunwyd a datblygu cynlluniau wrth gefn i sicrhau yr ymrwymir yr holl arian erbyn y dyddiad angenrheidiol. | Bodlonwyd y targedau ymrwymiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

**b) Bodloni'r amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau. | Bodlonwyd yr amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

**c) Gosod a bodloni targedau ar gyfer rheoli grantiau.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r holl dargedau ar gyfer rheoli grantiau. | Bodlonwyd y targedau ar gyfer rheoli grantiau'n rhannol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

## 3 Gwella'n barhaus trwy fod yn ariannwr da a rhannu'r gwersi rydym wedi'u dysgu drwy:

**a) Datblygu fframwaith polisi, sy'n cynnwys cydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy, i gefnogi cyflwyno rhaglenni grant erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu opsiynau rhaglenni/fframwaith i'r Bwrdd, a sicrhau y ceir ymgynghori mewnol ac allanol ynghylch opsiynau rhaglenni. | Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith polisi ym mis Mawrth 2005. Ni chynhwyswyd datblygiad cynaliadwy yn y fframwaith polisi hwn, ond bydd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2005/06. Adroddwyd ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus eisoes ym mesur perfformiad allweddol 1h, uchod. |

**b) Datblygu modelau dosbarthu cyllid ar gyfer holl ddyfarniadau grant yn y dyfodol a nodi'r oblygiadau gweithredol erbyn mis Hydref 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu tîm prosiect i edrych ar ddatblygiad cynnar modelau dosbarthu, a chymryd golwg gynnar ar ofynion gweithdrefnau a systemau. | Cymeradwywyd Prosiect Toolkit ar gyfer Datblygu Rhaglenni gan y Bwrdd Rheoli Grantiau ym mis Ionawr 2005, ac o ganlyniad i hynny sefydlwyd Tîm Prosiect Datblygu Rhaglenni. Bydd y Tîm yn parhau i adolygu a datblygu ystod o fodelau cyflwyno ar gyfer rhaglenni newydd yn ystod 2005/06. |

**c) Parhau i ddatblygu a chyflwyno strategaethau perthynas ôl-ddyfarnu ar gyfer yr holl raglenni grant perthnasol (yn gymwys i raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd).**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Darparu fframwaith o opsiynau dosbarthu a gwerthuso/prisio i'r Bwrdd. | Cwblhawyd y strategaethau rheoli perthynas ôl-ddyfarnu ar gyfer y rhaglenni perthnasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

**d) Cwblhau strategaeth ynghylch cyllido yn ôl canlyniad erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Ystyried modelau cyllido yn ôl canlyniad yng nghyd-destun rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr. | Cafodd y modelau cyllido yn ôl canlyniad eu cynnwys yn yr ystyriaeth ehangach o ddatblygu fframwaith rhaglen ariannu newydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

# Adran un

**e) Cwblhau a gwerthuso cynllun peilot GM04 erbyn Awst 2004 a phenderfynu ar ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cwblhau a gwerthuso cynllun peilot GM04 ac, os yw'n llwyddiannus, gweithredu'r broses ar draws rhaglenni grant agored. | Cwblhawyd gwerthusiad allanol terfynol o gynllun peilot GM04 yn ystod y trydydd chwarter, a chyflwynwyd yr adroddiad i Fwrdd y Prosiect. Caiff canfyddiadau'r adroddiad eu bwydo i fecanweithiau dosbarthu rhaglenni newydd Prosiect Toolkit ar gyfer Datblygu Rhaglenni. |

**f) Cytuno ar strategaeth ymchwilio a gwerthuso integredig, a dechrau ei gweithredu erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cynhyrchu strategaeth ymchwilio a gwerthuso ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. | Cwblhawyd y strategaeth ymchwilio a gwerthuso ddrafft. Mae'n amodol ar gytundeb y Bwrdd ym mis Mai 2005. Caiff ei gweithredu wedi hynny. |

**g) Symud ymlaen â gwaith ar gyd-weithio rhwng dosbarthwyr trwy gyfrwng fforymau perthnasol trwy gydol y flwyddyn.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cynnydd wrth gydweithio â dosbarthwyr eraill y loteri drwy fforymau perthnasol. | Mynychodd y Prif Weithredwr a'r staff perthnasol gyfarfodydd Fforwm y Loteri yn rheolaidd, ym mhob un o'r pedair gwlad, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

## 4 Bod yn atebol ac yn effeithlon yn ariannol drwy:

**a) Gyflawni arbedion effeithlonrwydd o 10 y cant o leiaf dros 2003/04 ar gostau uned busnes corfforaethol (ac eithrio gweithgareddau dyfarnu grant):**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Adolygu adnoddau yn ystod y flwyddyn i gyfrannu at arbedion cyffredinol o 10 y cant o leiaf | Gwnaeth y Gronfa arbedion o 9.6 y cant. |

**b) Lleihau mantolau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) i rhwng £575m a £625m (y Gronfa Cyfleoedd Newydd) a rhwng £50m a £100m (y Gronfa Gymunedol), trwy ddatblygu targedau a strategaethau perthnasol ar gyfer yr holl raglenni:**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Darparu manylion llif arian misol i hysbysu'r Uwch Dîm Rheoli o'r cynnydd yn erbyn targedau'r CDdLG. | Lleihawyd mantolau'r CDdLG i £691m (y Gronfa Cyfleoedd Newydd) a £174m (y Gronfa Gymunedol). (Cyfeiriwch at Adran 7 am fwy o wybodaeth) |

**c) Sicrhau y gweithredir strategaeth risg unigol erbyn Rhagfyr 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cytuno ar strategaeth risg gorfforaethol. | Cynhyrchwyd cofrestr risg gorfforaethol ym mis Medi 2004. Cynhyrchir strategaeth risg unigol yn ystod 2005/06. |

# Adran un

**d) Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau'n atebol, wedi eu seilio ar fframwaith rheoli mewnol a'u bod yn bodloni gofynion cyfreithiol, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu strategaethau ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, sy'n cynnwys holl feysydd perthnasol busnes y Gronfa Loteri Fawr. | Datblygwyd cynllun gweithredu yn ystod y chwarter cyntaf i alluogi'r Gronfa i ymdrin â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Darparwyd hyfforddiant i'r staff trwy gydol 2004/05. Penodwyd Ymgynghorydd Gwybodaeth Gorfforaethol ym mis Ionawr 2005. |
| Gweithredu cydgynllun archwilio fel a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2004. | Gweithredwyd y cydgynllun archwilio, a chynhaliwyd hunan asesiad o'r rheolaethau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |
| Adolygu cynllun yr iaith Gymraeg. | Cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dderbyn y cynllun fel un gwirfoddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |
| Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Adran 75 i'r Comisiwn Cydraddoldeb. | Cynhyrchwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Adran 75 i'r Comisiwn Cydraddoldeb ym mis Awst 2004. |

## 5 Dysgu o'n profiadau a phrofiadau sefydliadau eraill i wneud gwelliannau parhaus i'r modd y mae ein sefydliad yn gweithredu trwy:

**a) Adolygu pob rhan o'r busnes i nodi arferion gorau perthnasol i lywio datblygiad corfforaethol yn y dyfodol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cefnogi'r holl dimau prosiect ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at reoli prosiectau, gan ddarparu'r hyfforddiant, y prosesau, y dogfennau, yr offer a'r technegau angenrheidiol i'r staff. | Timau prosiect wedi eu cefnogi gan Dimau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, fel sy'n ofynnol i ganiatáu cyflwyno o fewn yr amserlenni gofynnol. Cytunodd y Byrddau Rheoli ar Fframwaith Datblygu Rhaglenni newydd, a ddyluniwyd i adlewyrchu arferion da wrth reoli prosiectau, wrth ddatblygu rhaglenni ariannu newydd. Mae'r hyfforddiant ar y gweill. |

**b) Nodi model rheoli perfformiad trefniadaethol priodol a fydd yn bodloni'r anghenion busnes erbyn Medi 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Ymchwilio i fodelau rheoli perfformiad a gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn llywio cynllunio 2005/06. | Cytunwyd mai'r Cerdyn Sgorio Cytbwys fyddai'r model rheoli perfformiad i lywio cynllunio busnes strategol Cynllun Strategol 2006/09. Cytunwyd hefyd y dylid cynnal cynllunio busnes 2005/06 ar sail debyg i 2004/05. |

**c) Datblygu a gweithredu polisi gofal cwsmeriaid erbyn Rhagfyr 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Adolygu'r modd y mae'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn arolygu eu cwsmeriaid, a chytuno ar sut a phryd y dylai'r Gronfa Loteri Fawr gynnal arolygon.<br><br>Safoni siarter cwsmeriaid a system gwyno â'r dosbarthwyr eraill. | Cwblhawyd adolygiad o arolygon a gynhaliwyd gan y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ym mis Medi 2004.<br><br>Cytunwyd ar Siarter a Phroses Gwyno Gyffredin gan yr holl ddosbarthwyr ym mis Mawrth, i'w lansio ar 1 Ebrill 2005. |

# Adran un

## 6 Gwneud gwelliannau parhaus mewn bod yn gyflogwr da (amcan pobl) trwy:

**a) Ddatblygu polisïau Adnoddau Dynol sy'n cyd-fynd â'r anghenion busnes ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a gweithredu set gyson o bolisïau, prosesau, gweithdrefnau, telerau ac amodau Adnoddau Dynol. | Cytunwyd ar set gyson o brosesau, telerau ac amodau Adnoddau Dynol ym mis Mawrth 2005. |

**b) Cynnal arolwg boddhad staff cynhwysfawr erbyn Mawrth 2005, a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion sy'n codi.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cynnal arolwg staff ynghylch yr ystod gyfan o faterion a fydd yn effeithio ar y Gronfa Loteri Fawr, a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi. | Gwnaed penderfyniad i ohirio'r arolwg staff tan ar ôl cyflawni'r Adolygiad Strwythurol. |

**c) Datblygu set gyson o systemau monitro ac ymdrin ag unrhyw faterion o'r cynlluniau gweithredu presennol na ddeliwyd â hwy eto.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu set gyson o systemau monitro ac ymdrin ag unrhyw faterion o'r cynlluniau gweithredu presennol na ddeliwyd â hwy eto. | Cwblhawyd yr adolygiad o ymagwedd y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd at y systemau monitro cydraddoldeb Adnoddau Dynol presennol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Caiff y canfyddiadau eu mabwysiadu yn ystod 2005/06. Caiff materion na ddeliwyd â hwy yn y cynlluniau gweithredu cydraddoldeb presennol eu hadolygu hefyd yn erbyn y canfyddiadau yn 2005/06. |

# Adran dau

## Rhaglenni a dyfarniadau grant

**Yn yr adran hon, adolygir cynnydd pob un o'r rhaglenni a lansiwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ar y cyfan, mae'r rhaglenni'n dod o dan dair thema sy'n cyfateb i'n blaenoriaethau ariannu. Prif ffocws ein rhaglenni addysg yw creu cyfleoedd dysgu yn y gymuned; ac wrth graidd ein cynlluniau iechyd mae dyhead i leihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn olaf anelwn at wella'r amgylchedd lleol ac ansawdd bywyd trwy ein rhaglenni amgylcheddol.**

Rhoddir crynodeb am bob rhaglen yn unol â'r cyfarwyddiadau polisi a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Cynhwysir gweithgarwch monitro ac adroddiad gwerthuso ar gyfer pob rhaglen, yn ogystal â disgrifiad cyffredinol a manylion am y cynnydd a wnaed.

### Ein hymrwymiad i fonitro

Mae'r Gronfa wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli cytundebau grant. Defnyddir y gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud ar amser a bod pob cynllun yn arwain at y budd a amlinellwyd yn y contract grant. Defnyddir dulliau monitro wrth ddesg ar gyfer pob grant. Mae gennym nifer o ddulliau monitro a ddefnyddiwn er mwyn sicrhau bod ein grantiau'n cael eu rheoli'n gywir. Fel arfer, gwneir galwadau ffôn a/neu ymweliadau monitro naill ai bob chwe mis neu'n flynyddol. Hefyd, cynhelir ymweliadau cydymffurfiad manylach er mwyn gwirio bod y cynlluniau'n cydymffurfio â thelerau ac amodau eu contract. Yn ogystal â hynny, mae gennym weithdrefnau monitro cyfalaf cynhwysfawr a ddefnyddir ar gyfer pob grant cyfalaf.

### Ein hymrwymiad i werthuso

Mae'r Gronfa'n rhoi pwysigrwydd mawr ar gynnal gwerthusiadau ac ymchwil er mwyn deall effaith ei raglenni a gwella'r broses o ddosbarthu grantiau. Yr ydym yn comisiynu gwerthusiadau o'n rhaglenni i gefnogi dysgu mewnol o'r math yma. Ond mae gan y gwerthusiadau yma gynulleidfa llawer ehangach na hynny: gallant roi ffocws ar ddarparu enghreifftiau o arfer da a gwersi i ddeilwyr grant ac ymarferwyr presennol; gallant edrych ar gynnwys, canlyniadau ac effaith i ddarparu gwersi i wneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Ein nod yw rhannu darganfyddiadau gwerthuso ac ymchwil yn eang gyda chynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

### Cyfleoedd Dysgu yn y gymuned

Mae cyfleoedd dysgu yn y gymuned yn syrthio i un o ddau gategori.

Yn gyntaf, gwella mynediad i weithgareddau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc oed ysgol. Trwy lansio'r rhaglenni chwaraeon a gweithgareddau yn rhan o'n rhaglenni rownd tri, mae'r gronfa wedi ehangu ei phortffolio addysg weithredol

Yn ail, mae ein hamrywiaeth o raglenni sy'n ymwneud â gwella darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) yn anelu at ddarparu cyfleoedd newydd i gymunedau trwy gynyddu'r mynediad i dechnoleg TGCH.

# Adran dau

## Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol

**Mae £285.4 miliwn wedi bod ar gael tuag at greu 432,500 o leoedd newydd a chynaliadwy ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol ledled y DU erbyn 2003. Yn y rhan fwyaf o achosion, grantiau blwyddyn a gynigiwyd, er bod cyllid cychwynnol wedi ei roi am gyfnod estynedig (hyd at dair blynedd) mewn ardaloedd dan anfantais ac ymhob ardal yn yr Alban yn ystod dwy rownd olaf y rhaglen. Cefnogwyd amrywiaeth helaeth o weithgareddau, yn cynnwys clybiau cyn ac ar ôl ysgol, darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol ac ar benwythnos a gwarchod plant. Caeodd y rhaglen ar gyfer ceisiadau am arian cychwynnol yn 2003, ar ôl creu 555,340 o leoedd gofal plant newydd (Lloegr 468,500; Gogledd Iwerddon 14,494; Yr Alban 48,139; Cymru 24,207). Mae peth arian ychwanegol ar gael ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd cymwys. Nid yw hyn yn gymwys i ymgeiswyr yn yr Alban er hynny.**

Mae'r tîm yn awr yn canolbwyntio ar gynnal lefel uchel o reolaeth dros y dyfarniadau a wnaed a gweithio gyda deiliaid grant er mwyn sicrhau fod prosiectau yn agor ar amser. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ledled y DU er mwyn galluogi deiliaid grant a swyddogion achos i drafod gofynion monitro a rhannu arfer gorau.

Ers i'r rhaglen gael ei lansio gwnaed cannoedd o ymweliadau a galwadau ffôn monitro. Mae'n rhaid i unrhyw gymwysiadau prosiect fydd yn ei olynu gael ei rhoi mewn lle a bod mewn gweithrediad erbyn 1af Mawrth 2006. Erbyn Ebrill 2005, caewyd bron i 2,400 o ffeiliau dyrannu. Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2005 mae'r rheolaeth grant dros brosiectau yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei drosglwyddo i'r swyddfeydd cenedlaethol priodol.

Yn 2002 estynnwyd y cytundeb â 'SQW Ltd', mewn partneriaeth â Prifysgol Brunel, i werthuso'r rhaglen Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol am gyfnod o dair blynedd ychwanegol. Mae'r gwerthusiad yma wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddarparwyr sy'n gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig ac sydd wedi adeiladu ar waith blaenorol o'r dair blynedd gyntaf. Mae wedi canolbwyntio ar y mater o gynaladwyedd ac ar ba raddfa mae arian parhaus yn hyrwyddo darpariaeth gynaliadwy. Mae materion eraill yn cynnwys y ffactorau sy'n effeithio ar gymeryd rhan a defnydd o'r llefydd newydd, yr effaith ar rieni a'u plant ac ansawdd canfyddedig y gwasanaeth.

Dengys canlyniadau cychwynnol y gwerthusiad:

- roedd ychydig dystiolaeth fod anawsterau a brofwyd gan ddarparwyr gofal plant yn fwy difrifol ar gyfer y clybiau sy'n gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig
- doedd dim arwydd fod gan teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig anghenion gofal plant mwy cymhleth ac anodd-eu-cyrraedd. Mae goblygiadau i hyn yn nhermau datblygu gwasanaethau cynaliadwy gan nad yw darpariaeth o'r fath yr un mor rhwydd, rhad na fforddiadwy mewn ardaloedd cyfoethocach
- nodwyd newid positif mewn gweithgaredd cyflogaeth 40 y cant o rieni, y rhai oedd eisoes mewn cyflogaeth yn gallu gweithio oriau hirach (16 y cant) yn gyffredinol
- roedd 85 y cant o rieni yn fodlon iawn a 15 y cant yn fodlon ac ansawdd y gwasanaeth, adroddodd 45 y cant fod llai o angen brysio o'r gwaith ac roedd 55 y cant yn fwy abl i wneud cynlluniau gwaith neu astudio i'r dyfodol
- roedd y mater o ofal seibiant yn fwy difrifol ymysg rhieni mewn ardaloedd difreintiedig (19 y cant).



## Rhaglenni gofal plant trydedd rownd

Yn fras, nod sylfaenol rhaglenni gofal plant y drydedd rownd oedd ariannu prosiectau cyfalaf a fyddai o fudd, yn bennaf, i blant iau nag oed ysgol ac a fyddai'n cyfrannu tuag at greu a datblygu ac at gynaladwyedd hirdymor gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Datblygwyd rhaglenni â'r ffocws yma ym mhob un o'r gwledydd.

## Adeiladu Meithrinfeydd yn y Gymdogaeth (Lloegr)

Roedd £100 miliwn ar gael tuag at gostau datblygu a chostau cyfalaf meithrinfeydd newydd mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd y rhaglen yn ategu Menter Meithrinfeydd Cymdogaeth yr Adran Addysg a Sgiliau, trwy gyfrannu tuag at greu 45,000 o leoedd gofal dydd fforddiadwy ac o ansawdd uchel yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Lloegr. Mae'r rhaglen yn awr wedi dod i ben ar gyfer ceisiadau ac mae £99 miliwn wedi ei neilltuo i 750 o brosiectau a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gronfa wedi cyd-weithio'n agos â'r Adran Addysg a Sgiliau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei gweithredu mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn ymgymryd â gwerthusiad manwl o'r Fenter Meithrinfeydd yn y Gymdogaeth ac felly nid yw'r Gronfa wedi comisiynu unrhyw ymchwil pellach.

## Cyfleoedd Newydd ar gyfer Gofal Plant o Ansawdd (Yr Alban)

Mae £14.5 miliwn wedi ei glustnodi i ddarparu cymorth cyfalaf ar gyfer prosiectau gofal plant, chwarae yn yr awyr agored, datblygu'r gweithlu, prosiectau sy'n cefnogi plant gydag anghenion arbennig, prosiectau sy'n rhoi cefnogaeth i deuluoedd a phrosiectau sy'n cyfuno gofal a dysgu. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo £8.6 million ac wedi dyfarnu153 o grantiau. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr holl geisiadau oedd 30 Mehefin 2005.

# Adran dau

Ym mis Mawrth comisiynwyd 'SQW Ltd' i ymgymryd â gwerthusiad tair blynedd o'r rhaglen. Amcan y gwerthusiad yw rhoi pwyslais ar effeithiau'r rhaglen yn erbyn eu dri canlyniad sef i wella ansawdd darpariaeth gofal plant newydd a phresennol, i gynyddu mynediad at ofal plant i grwpiau dan anfantais ac i arddangos agwedd holistig drwy gynnwys gweithgareddau gwahanol mewn gofal ar ôl ysgol. Bydd 'SQW' yn defnyddio nifer o ddulliau ymchwil gan gynnwys arolwg tros y ffôn o'r holl bartneriaethau gofal plant, arolwg trwy'r post i ddeilwyr grant; ymweliadau astudiaeth achos i 12 prosiect yn cynnwys cyfweld y rheolwyr prosiect, arolwg drwy'r post i rieni ac o bosibl, arsylwad o blant.

## Rhaglen Creu Gofal Plant o Ansawdd (Gogledd Iwerddon)

Mae £6 million wedi bod ar gael ar gyfer costau cyfalaf i adeiladu, estyn, moderneiddio ac adnewyddu cyfleusterau gofal plant.

Mae'r rhaglen dau-gam yma yn awr ar yr ail gam o weithredu. Mae'r rhaglen wedi ymrwymo £5 miliwn ac wedi dyfarnu 84 o grantiau. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr holl geisiadau cyfalaf oedd 1 Tachwedd 2004. Mae'r rhaglen yn awr ar gau i geisiadau newydd, er hynny mae nifer o gynigion yn parhau i gael eu hasesu.

## Rhaglen Canolfannau Plant Integredig (Cymru)

Mae £11 miliwn wedi bod ar gael i gefnogi'r costau cyfalaf o adeiladu canolfan plant integredig ymhob ardal awdurdod lleol. Mae'n rhaid i bob canolfan gynnwys pedwar prif elfen – addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant, chwarae mynediad agored a hyfforddiant/datblygu cymunedol. Mae'r rhaglen yn awr ar gau ac mae wedi ymrwymo £10.3 miliwn a dyfarnu 25 o grantiau.

Mae'r Gronfa'n datblygu blaenoriaethau gwerthuso ar gyfer y rhaglenni yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ac mae'n disgwyl comisiynu ymchwil yn 2006.

## Hwyluswyr ariannu

Yng Nghymru a'r Alban, gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer y rhaglenni er mwyn darparu timau o hwyluswyr ariannu i gynghori a chefnogi darparwyr gofal plant ynglŷn â chynaladwyedd.

Yn Yr Alban gwahoddir ceisiadau ar gyfer y rhaglenni tair blynedd gan y 'Scottish Out Of School Care Network'. Mae'r rhaglen yn ategu at y Rhaglen Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol a'r Rhaglenni Cyfleoedd Newydd ar gyfer Gofal Plant o Ansawdd yn barhaol a daw i ben yn Medi 2005.

Gwahoddir ceisiadau yng Nghymru gan Clybiau Plant Cymru i ddarparu tîm o hwyluswyr ariannu i helpu i ddiogelu - drwy gymorth arbenigol a chyngor-gynaladwyedd hir dymor clybiau gofal plant tu allan i oriau ysgol a ariannwyd o dan y rhaglen Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol. Hyd yn hyn mae'r hwyluswyr wedi codi mwy na £1 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer clybiau yng Nghymru.

## Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol

Rhyddhawyd £205 miliwn, yn cynnwys £25 miliwn ar gyfer ysgolion haf, er mwyn darparu gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol ledled y DU. Mae'r rhaglen yn anelu at ddarparu gweithgareddau sy'n annog ac yn symbylu disgyblion, yn cryfhau eu hunan-barch ac yn eu helpu i gyrraedd safonau cyrhaeddiad uwch.

Lansiwyd y rhaglen yn ystod gwanwyn 1999 a dyfarnwyd grantiau rhwng diwedd 1999 a 2002, gyda rhai prosiectau'n rhedeg hyd 2007.



Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cynyddu'r nifer o ysgolion sy'n darparu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol a gwnaeth yn well na'r targedau a amlinellwyd yn y cyfarwyddiadau polisi ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian yn cyrraedd 35 y cant o'r holl ysgolion cynradd (targed: 25 y cant) a 56 y cant o'r holl ysgolion uwchradd (targed: 50 y cant). Bydd 47 y cant (targed: 50 y cant) o'r holl ysgolion anghenion arbennig yn elwa hefyd.

Cytunodd Bwrdd y Gronfa y dylai'r arian ganolbwyntio ar gyrraedd yr ysgolion mwyaf difreintiedig er mwyn mynd i'r afael ag anfantais a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae mwy na 80 y cant o'r ysgolion a adnabuwyd fel 'ysgolion targed' ar sail data prydau ysgol am ddim bellach wedi cael eu hariannu trwy'r rhaglen.

Nod y £25 miliwn a neilltuwyd ar gyfer ysgolion haf oedd helpu i greu lleoedd mewn ysgolion haf ar gyfer 250,000 yn fwy o ddisgyblion erbyn 2002. Gwnaed yn well na'r targed hwn hefyd.

Ar 31 Mawrth 2005 roedd cyfanswm o 605 o grantiau'n cael ei rheoli ledled y DU. Mae grantiau'r Alban yn awr yn cael ei rheoli yn swyddfa'r Gronfa ac mae grantiau Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael ei trosglwyddo i'r swyddfeydd cenedlaethol priodol. Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005 cynhaliwyd cyfanswm o chwe ymweliad ffurfiol i brosiectau a lefel mentora uchel i fonitro cydymffurfiad prosiectau. Yn ogystal â'r ymweliadau, gwnaed oddeutu 175 o ymweliadau monitro cyffredinol a nifer fawr o alwadau monitro dros y ffôn.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol bellach wedi cwblhau ei werthusiad o'r rhaglen. Ceir adroddiadau am y cynlluniau yn ystod y tymor a'r haf ar dudalennau gwerthuso ac ymchwil gwefan y Gronfa. Lansiwyd y ddogfen etifeddol ar gyfer y rhaglen yma, 'Building the future of learning' mewn cynhadledd proffil uchel Yr Adran Addysg a Sgiliau/Ansawdd Mewn Cefnogaeth Addysgu ar ddyfodol cefnogaeth dysgu yn Nhachwedd 2004.

# Adran dau

## Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol/ Cydlynwyr Chwaraeon Mewn Ysgolion

Cytunwyd ar Gyfarwyddyd Polisi yn 2002, a oedd yn ymestyn y rhaglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol. Golyga hyn fod £25.5 miliwn yn cael ei ymrwymo i brosiectau gweithgaredd corfforol Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol ledled y DU erbyn diwedd 2004. Fel ymatebiad i gais gan yr Adran Addysg a Sgiliau a chyda cymeradwyaeth Bwrdd y Gronfa, ymrwymodd y rhaglen £26.49 miliwn mewn gwirionedd. Derbyniwyd yr arian ychwanegol o £1.29 o grantiau na chafwyd eu defnyddio o brif raglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol yn ystod y tymor Lloegr ac o £200,000 o grantiau na chafwyd eu defnyddio o ragleni yn ystod y tymor ac ysgolion haf Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol Cymru.

Yn Lloegr, Mae'r arian yn cefnogi'r rhaglen Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion a weithredir ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Sgiliau/Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yr oedd wedi ei ymrwymo a'i ddosbarthu erbyn Medi 2004. Gwnaed yn well na'r targed o gael 1000 o glystyrau ysgolion gyda gweithgareddau yn cael eu hariannu mewn 1086 o glystyrau ysgolion Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion. Cytunwyd ar gyfarwyddyd polisi pellach yn Lloegr yn fuan yn 2004 fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc. Darparodd hyn £28.4 miliwn i'w ymrwymo i ehangu prosiectau presennol gweithgaredd corfforol dysgu y tu allan i oriau ysgol ac ar gyfer 93 prosiect newydd. Erbyn diwedd 2004/05 dyrannwyd £12.8 miliwn i ehangiad 81 o brosiectau (249 clwstwr) gyda darpariaeth ar gyfer 93 o brosiectau newydd (429 clwstwr) a £2.2 miliwn wedi ei ymrwymo i'r 33 ehangiad cyntaf.

Yn Yr Alban, dyfarnodd y Gronfa grant i 'Sportscotland' er mwyn rheoli a chydlynu'r rhaglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol/Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion. Mae 'Sportscotland' yn gweithredu'r rhaglen trwy ei rwydwaith presennol o Gydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion wedi'i lleoli mewn ysgolion. Mae ymrwymiad cryf i'r rhaglen yn yr Alban. Mae arian ychwanegol sylweddol ar gael yn uniongyrchol gan y 'Scottish Executive' a chan raglenni ariannu'r hen Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Yng Nghymru, bu'r Gronfa'n parhau i gyflwyno'r rhaglen i ysgolion cynradd ac i ddisgyblion sydd ar fin symud i ysgolion uwchradd drwy'r cydlynwyr cefnogi astudiaeth Awdurdodau Lleol. Mae'r prosiectau i gyd ar waith bellach ac mae'r Gronfa wedi adnabod £200,000 ychwanegol i ehangu'r rhaglen drwy brosiectau presennol. Mae'r prosiectau yn parhau i ategu at Gynllun 'Chwaraeon y Ddraig' Cyngor Chwaraeon Cymru.

Yng Ngogledd Iwerddon, parhawyd i weithredu gweithgareddau drwy'r pum Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd gan dargedu disgyblion na fyddent yn cymeryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon yn arferol a chan roi pwyslais ar ddisgyblion mewn ardaloedd gwledig. Mae'r pum Bwrdd wedi gweithio yn agos â Chyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cynaladwyedd. Fel rhan o'r Flwyddyn Addysg Ewropeaidd drwy Chwaraeon trefnwyd gynhadledd gan y pum Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Belfast a Chyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon. Amcan hyn oedd creu trafodaeth ynglŷn â chydlyniad addysg, iechyd a chwaraeon a fyddai'n arwain yn y pen draw at ehangiad a chynaladwyedd hir dymor chwaraeon i'r ifanc.

Rheoli'r grantiau mewn cydweithrediad â'r cynghorau chwaraeon a sefydliadau partner eraill ymhob un o'r gwledydd.

Mae 'Sport England' wedi penodi'r sefydliad Chwaraeon Ieuenctid i werthuso'r brif raglen Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion yn Lloegr. Mae'r rhaglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol / Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion yn rhan o'r rhaglen gyfan gwbl Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion. Mae'r adroddiad gwerthuso blwyddyn wedi ei gwblhau yn ddiweddar a dengys y darganfyddiadau:

- fod Partneriaethau Chwaraeon mewn Ysgolion, yn y mwyafrif o achosion, yn derbyn cefnogaeth leol gref ac yn creu cryn frwdfrydedd ac ewyllys da i'r rhaglen
- mae Partneriaethau Chwaraeon mewn Ysgolion wedi cael effaith bositif sylweddol ar amrediad ac ansawdd y cyfleoedd i gymryd rhan ar gyfer disgyblion
- drwy eu cefnogaeth i athrawon ysgolion cynradd mae Partneriaethau wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd addysg AG a Chwaraeon mewn ysgolion cynradd.

Mae gwybodaeth bellach am y gwerthusiad ar gael ar y wefan werthuso yn: http://www.lboro.ac.uk/departments/sses/institutes/iys/pages/research3.6.htm

Yn Yr Alban, mae'r rhaglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol / Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion yn cael ei gwerthuso fel rhan o werthusiad 'sportscotland' o raglen 'Active Sports'. Mae Sefydliad Chwaraeon i'r Ifanc yn arwain ar werthusiad y rhaglen. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Sport Scotland yn: www.sportscotland.org.uk.

## Ysgolion Estynedig (CPI)

Mae'r rhaglen ysgolion estynedig yn cefnogi ysgolion sydd am ddarparu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion pobl ifanc, i ddatblygu partneriaethau a'r gymuned ehangach ac sydd ar nod o gyrraedd un neu fwy o'r canlyniadau penodedig yn y papur gwyrdd 'Every Child Matters'.

Mae £14 miliwn ar gael i 78 awdurdod addysg lleol ar draws Lloegr i ddatblygu gweithgareddau ysgolion estynedig, wedi ei seilio ar ymgynghoriad â phobl ifanc. Bu'r rhaglen ariannu yma ar agor i unai AALl ei hunain neu i'w hysgolion wneud cais yn uniongyrchol.

Bwriad y rhaglen oedd ategu Strategaeth Ysgolion Estynedig yr Adran Addysg a Sgiliau ac roedd dyraniadau grantiau wedi'w seilio ar yr AALl a oedd yn derbyn nawdd ar gyfer un ysgol gwasanaeth lawn o fis Mai 2004 ymlaen. Roedd dyraniadau hefyd yn cael ei pwyso yn ôl tueddiadau amddifadedd a niferoedd disgyblion. Lansiwyd y rhaglen yn 2004 a dyfarnwyd 110 o grantiau amodol erbyn diwedd 2004.

Ar ddiwedd 2004 cynhaliwyd meddygfeydd ymgeisio ar gyfer ymgeiswyr. Cynigwyd cefnogaeth i ymgeiswyr hefyd gan eu swyddogion grantiau eu hunain ac fe roddir hwy mewn cysylltiad â 'ContinYou' os ydynt angen cymorth ychwanegol, lle'n briodol.

Nid yw'r rhaglen Ysgolion Estynedig yn cael ei werthuso gan y Gronfa Loteri Fawr. Fodd bynnag, mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn cynnal gwerthusiad dwy flynedd o'u rhaglen Ysgolion Estynedig yn ystod 2004-05. Mae aelod o dîm Ymchwil a Gwerthuso'r Gronfa yn rhan o grŵp llywio'r gwerthusiad yma. Galluoga hyn i ni gyfrannu ar gyfeiriad yr ymchwil a hefyd i adrodd y darganfyddiadau yn ôl i'n deiliaid grant. Bydd darganfyddiadau blwyddyn gyntaf y gwerthusiad ar gael tuag at ddiwedd 2005.

# Adran dau

## Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon

**Mae'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon wedi clustnodi £750.75 miliwn ledled y DU ar gyfer adeiladu a moderneiddio cyfleusterau AG a chwaraeon, yn bennaf mewn ysgolion, ac ar gyfer gweithgareddau sy'n hybu defnydd cymunedol o'r cyfleusterau hyn. Mae'r Gronfa yn bwriadu i'r rhaglen hon ddod â newid yn y ddarpariaeth cyfleusterau chwaraeon ar gyfer pobl ifanc a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cyfleusterau newydd wedi eu datblygu erbyn gwanwyn 2006 yn unol â'r amserlen wreiddiol.**

### Lloegr

Mae 98 y cant o'r grantiau wedi ei dyrannu yn Lloegr. Erbyn 31ain o Fawrth roedd 1,465 o grantiau wedi eu cymeradwyo gan y pwyllgor gan olygu fod cyfanswm o £464 miliwn wedi cael ei ymrywmo o dan y rhaglen yn Lloegr. Mae'r rhaglen ar darged i sicrhau y bydd yr holl gyfleusterau wedi ei cwblhau yn unol â'r amserlen a ddynodwyd yn y gyfarwyddiaeth bolisi.

### 'Space for Sports and Arts'

Mae'r Gronfa wedi cyfrannu £25 miliwn o'r arian a neilltuwyd tuag at y rhaglen 'Space for Sports and Arts' £130m sy'n cael ei chyd-ariannu gan 'Sport England', Cyngor Celfyddydau Lloegr, yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r mwyafrif llethol o'r prosiectau wedi cael eu cwblhau (230 o brosiectau) neu ar safle (31 o brosiectau). Mae 'Sport England' yn rheoli'r rhaglen ar ran y partneriaid ac mae'n gyfrifol am ddatblygiad llawn y prosiectau ac am reoli'r grantiau.

### 'Football Foundation'

Mae £30m o'r arian a neilltuwyd wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â phêl-droed ac mae'n cael ei ddosbarthu trwy'r Sefydliad Pêl-Droed er mwyn cefnogi prosiectau cyfalaf ar gyfer ysgolion a'r gymuned. Mae'r holl arian bellach wedi ei ymrwymo i brosiectau.

### 'Active Places'

Cyfrannwyd £2 miliwn at ddatblygiad a gweithrediad bas data ar-lein o gyfleusterau chwaraeon yn Lloegr sydd a'r bwriad o helpu pobl i fod yn fwy actif. Cyd-ariennir y rhaglen gan y Gronfa Loteri Fawr a Chwaraeon Lloegr.

### Yr Alban

Yn yr Alban, mae bron i £34 miliwn hefyd ar gael ar gyfer rhaglen weithgareddau sy'n darparu ystod helaeth o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol y tu allan i oriau ysgol a phrosiectau'n ymwneud â chwaraeon sy'n atal pobl ifanc rhag troi at droseddu. Mae mwy neu lai yr holl arian a oedd ar gael o dan y rhaglen weithgareddau yn yr alban wedi ei glustnodi.

Hyd yma, mae Pwyllgor Cyfleusterau Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon yr Alban wedi cymeradwyo 72 o brosiectau Cam Dau o dan y Rhaglen Gyfleusterau. Erbyn Mawrth 31 2005 roedd 170 o grantiau wedi eu cymeradwyo ac mewn rheolaeth grant. Cynhaliwyd y pwyllgor penderfynu olaf ar 25 Mai 2005 ac fe ystyriwyd 16 o brosiectau terfynol.

Yn ychwanegol, roedd 33 o grantiau refeniw mewn rheolaeth/monitro o dan y Rhaglen Weithgareddau.

### Cymru

Yng Nghymru, mae £48.75 miliwn wedi bod ar gael o dan y rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon er mwyn gwella cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion a chyfleusterau antur awyr agored.

Erbyn 31 Mawrth 2005, roedd 166 o brosiectau grantiau gwerth £43,840,568 miliwn wedi cael eu dyfarnu. Yn ychwanegol, dyfarnwyd 15 o grantiau datblygu gwerth £1,714,634. Disgwylir y bydd yr holl arian wedi ei neilltuo erbyn diwedd 2005.



## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon mae £33.75 miliwn ar gael o dan y rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon a bydd yn cael ei ddosbarthu erbyn 2005. Nod y rhaglen yw arwain at newid yn y ddarpariaeth a'r defnydd o gyfleusterau AG a chwaraeon ar gyfer pobl ifanc a'r gymuned yn gyffredinol ledled Gogledd Iwerddon

Erbyn 31 Mawrth 2005, roedd 113 o gynigion gwerth £19,029,975 wedi eu dyfarnu, yn cynnwys 5 grant datblygu a 108 o brosiectau wedi derbyn arian. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau cam dau oedd 31 Mawrth 2005. Mae ceisiadau o dan gam dau y rhaglen yn parhau i gael eu hasesu a chynhelir y pwyllgor penderfynu olaf yn Hydref 2005.

## Gwerthuso

Yn Chwefror 2005, cyflwynodd Bartneriaeth Loughborough adroddiad diwedd blwyddyn dau i'r Gronfa. Dengys ddarganfyddiadau'r adroddiad fod:

- yn ystod y chwe mis cyntaf ers i brosiectau trac cyflym agor, mae effaith ddramatig a phositif wedi bod ar ansawdd a'r nifer o oriau o AG a gaiff ei gynnig a chynnydd yn y ddarpariaeth o gyfleoedd allgyrsiol
- mae darganfyddiadau o arolygon llinell sylfaen yn dangos fod 97 y cant o brosiectau mawr ar draws y DU yn gweithio tuag at wella cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a'u cymunedau. 57 y cant o brosiectau llai sydd â'r amcan yma
- mae'r 2 awr y mae disgyblion yn cymeryd rhan mewn AG a Chwaraeon yr wythnos yn cyd-fynd â'r gyfartaledd genedlaethol, ble mae ffigyrau cymhariaethol ar gael
- bydd mentrau eraill megis y rhaglen Cydlynwyr Chwaraeon mewn Ysgolion yn allweddol i lwyddiant rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG & Chwaraeon.

Am wybodaeth bellach am y gwerthusiad ewch i'r wefan: www.nopesevaluation.org.uk

# Adran dau

## Rhaglenni Buddsoddi mewn Chwaraeon Cymunedol

### 'Active England' (Lloegr)

**Cyd-ariennir Active England gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a 'Sport England' a'i nod yw annog agweddau creadigol a fydd yn gwella lefelau gweithgarwch corfforol a'r nifer o bobl sy'n cymeryd rhan mewn chwaraeon yn Lloegr. Yr arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y rhaglen yw £108.5 miliwn. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn darparu £77.5 miliwn ac mae 'Sport England' yn darparu £31 miliwn.**

Nod 'Active England' fydd creu a chefnogi amgylcheddau aml-weithgaredd cynaliadwy ac arloesol ym maes amddifadedd cymdeithasol, chwaraeon ac iechyd yn Lloegr erbyn 2005, a chynyddu nifer y bobl ymhob rhan o gymdeithas sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn arbennig y rheiny sy'n tueddu i gael eu tangynrychioli mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhaglen yn cwmpasu prosiectau cyfalaf a refeniw.

Yn gyfan gwbl cymeradwywyd 247 o brosiectau o dan y rhaglen gyda'r cyfanswm a ymrwymwyd yn £99,209,684 ar 31 Mawrth 2005.

'Sport England' sy'n rheoli'r rhaglen ar ran y Gronfa a pendowyd 'Hall, Aitken a Bearhunt' i werthuso'r rhaglen yn Medi 2004. Mae 'Sport England' a'r Gronfa Loteri Fawr wedi datblygu proses fonitro a gwerthuso gynhwysol, gyda'r ffocws ar y prosiectau unigol yn ganolbwynt i'r broses fonitro a gwerthuso. Yr amcan yw i ddatblygu diwylliant o hunan-werthuso wedi ei gefnogi gan adrodd pwrpasol a phecynnau monitro ac wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad gyda gwerthuswyr a'r prosiectau. Ategir at hyn trwy ddod a data prosiect ynghyd i adeiladu darlun cliriach am effaith y rhaglen ar y cyfan. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar y wefan gwerthuso yn: www.aelz.org

### 'Active Futures' (Yr Alban)

Lansiwyd y rhaglen yma ar 17 Tachwedd 2004 fel rhaglen grant gyntaf y Gronfa Loteri Fawr yn Yr Alban.

Bydd y rhaglen yn darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc anactif rhwng 17 a 24 oed i fod yn fwy actif gan ddarparu cyfanswm o £5.5 miliwn o arian refeniw yn bennaf i bartneriaethau sy'n barod i agor cyfleusterau a gweithgareddau presennol yn arbennig ar y gyfer y grŵp targed yma. Fel arall, gall bartneriaethau dderbyn grant blwyddyn, dwy flynedd neu dair i gyflwyno sesiynau gweithgaredd a rhaglenni newydd i rai o 17-24 oed, sydd ar hyn o bryd yn cael dim ymarfer corff, drwy efallai fynd a'r gweithgareddau a rhaglenni allan i'r bobl ifanc yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Er bod 'Active Futures' yn anelu at bobl ifanc o 17-24 oed yn gyffredinol, mae gan y Gronfa ddiddordeb arbennig mewn derbyn ceisiadau sy'n targedu merched ifanc, pobl ifanc ag anableddau, pobl ifanc o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, a chymunedau cefn gwald o dan anfantais, neu o dan amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Mae 'Active Futures' yn rhaglen grant agored, dau gam a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau cam un yw 29 Ebrill 2005. Y bwriad yw y bydd pob grant wedi ei ddyfarnu erbyn 31 Mai 2006 ac y bydd pob prosiect wedi'w gwblhau erbyn 29 Mai 2009.



## Gogledd Iwerddon

Mae gan y Gronfa £4.5miliwn i'w glustnodi i brosiectau yng Ngogledd Iwerddon sy'n darparu (neu wella), datblygu, gweithredu a hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau neu weithgareddau chwaraeon sy'n cyfrannu tuag at welliant mewn iechyd, addysg neu'r amgylchedd mewn cymunedau lleol.

Mae dwy elfen benodol i'r rhaglen Chwaraeon Cymunedol yng Ngogledd Iwerddon. Y rhain yw:

**Elfen un** – sydd werth £2.4 miliwn yn cael ei chyflwyno trwy Gyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon, er mwyn gwella Rhaglen Chwaraeon Cymunedol bresennol y Cyngor a'i hymestyn i 18 ardal newydd (a allai fod yn ardal ddaearyddol a/neu thematig) trwy ddefnyddio cyllid refeniw dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y strand yma'n gyfrifol am benodiad nifer o Swyddogion Datblygu Chwaraeon a Chydlynwyr Chwaraeon.

**Elfen dau** – sydd werth £2.1 miliwn yn rhaglen grant agored a reolir gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r elfen yma wedi'w henwi'n 'Active Lifestyles' a bydd yn darparu grantiau refeniw dros dair blynedd gan fwyaf. Bydd yn cefnogi prosiectau sydd ar nod o gynyddu ymwneud y boblogaeth eisteddog ym mhob agwedd o weithgaredd corfforol.

Mae 'Active Lifestyles' yn cynnwys grantiau o dri maint: bach (hyd at £1,000), canolig (£6,000-£30,000) a mawr (£30,000-£100,000). Mae'r grantiau bach yn cael eu hasesu a'u rheoli gan staff Arian i Bawb yn swyddfa Belfast. Bydd y grantiau canolig a mawr yn cael ei hasesu a'u rheoli gan staff y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn diwedd Mai 2005 mae £32,482 wedi ei ddyfarnu i 36 grant bach. Mae asesiadau ceisiadau canolig a mawr yn barhaus gyda'r pwyllgor penderfynu cyntaf i'w gynnal yng Ngorffennaf 2005.

## Mentro Allan (Cymru)

Mae £6.5 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer rhaglen Mentro Allan yng Nghymru. Bydd yn cefnogi gweithrediad y blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a hamddena actif sy'n gysylltiedig ag iechyd, addysg a'r amgylchedd a adnabuwyd yn strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, Dringo'n Uwch. Yn bennaf bydd y rhaglen yn gwella mynediad i chwaraeon a gweithgaredd o fewn yr amgylchedd naturiol drwy ddymchwel rhwystrau i gymeryd rhan ymysg grwpiau anodd eu cyrraedd penodol.

Mae'n rhaglen dau gam gyda'r cam cyntaf i sefydlu partneriaeth genedlaethol a fydd yn gweithio â sefydliadau lleol i ddatblygu portffolio o brosiectau ar hyd Cymru. Lansiwyd y rhaglen yn nhymor yr hydref 2004 a chyhoeddir y bartneriaeth genedlaethol lwyddiannus ym Mehefin 2005.

# Adran dau

## Gweithgareddau i Bobl Ifanc

**Mae'r Gronfa wedi neilltuo £55.75 miliwn ar gyfer gweithgareddau i bobl ifanc ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r rhaglen yn weithredol yn yr Alban, er ein bod yn cynnig gweithgareddau tebyg o dan Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon.**

Yn Lloegr, nod y rhaglen yw ail-danio ddiddordeb ymhlith pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol o ran addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant trwy gynnig rhaglen o weithgareddau heriol iddynt, ynghyd â gwybodaeth ac arweiniad proffesiynol. Nodai'r Cyfarwyddiadau Polisi'n benodol y dylai'r Gronfa weithio'n agos ag Uned Gwasanaeth Cenedlaethol 'Connexions' er mwyn sicrhau bod ymgynghorwyr personol yr uned honno'n chwarae rhan mewn darparu cyngor ac arweiniad o safon uchel. Clustnodwyd arian – ar sail poblogaeth ac amddifadedd – i bob partneriaeth gweithgareddau haf i gynnal prosiectau yn ystod haf 2002/2004. Erbyn 31 Mawrth 2005 roedd cyfanswm o £34,755,962 wedi ei ddyfarnu.

Yng Nghymru, nod y rhaglen yw ail-danio diddordeb ymhlith pobl ifanc anystywallt rhwng 14 a 18 mlwydd oed ym maes addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n adlewyrchu'r canllawiau a nodwyd yn Ymestyn Hawliau, a oedd yn gyfrifol am sefydlu Partneriaethau Pobl Ifanc. Mae'r rhain yn gweithio gyda phobl ifanc i gynllunio a chyflwyno ystod gydlynol o weithgareddau i'r holl bobl ifanc o fewn pob ardal awdurdod lleol. Estynnodd y Gronfa wahoddiad i bob Partneriaeth ddatblygu prosiect peilot sy'n cwrdd ag anghenion pobl ifanc ac sy'n darparu rhaglen amrywiol a strwythuredig o weithgareddau heriol. Mae'r Gronfa wedi cyflogi cwmni ymgynghorol 'Arad' i roi cymorth i bob prosiect wneud hunan werthusiad. Cynhaliwyd seminar hyfforddi ym mis Chwefror 2005 i roi cymorth i'r broses yma. Mae dau brosiect eisoes wedi eu cwblhau ond mae gan y mwyafrif o brosiectau flwyddyn ar ôl i redeg. Erbyn 31 Mawrth 2005 mae cyfanswm o £3,087,500 wedi ei ddyfarnu.

Yng Ngogledd Iwerddon, nod y rhaglen yw lleihau'r nifer o bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu heithrio, drwy eu cynnwys mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a gwaith a hynny mewn modd sy'n seiliedig ar bartneriaeth effeithiol. Mae'n canolbwyntio ar adnabod anniddigrwydd yn fuan ac felly mae'n ymwneud yn bennaf â'r ystod oed 11 i 16 mlwydd oed. Mae'r rhaglen yn cynnig cefnogaeth ar gyfer un cynllun grant sy'n cynnwys nifer fechan o brosiectau arloesol yn ardal pob un o'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd. Mae'r cynllun yn gysylltiedig â'r polisi Targedu Angen Cymdeithasol ac mae'n ategu'r rhaglen Addysg Amgen yr Adran Addysg. Erbyn 31 Mawrth 2005 mae cyfanswm o £2,850,000 wedi'w ddyfarnu.

Mae newidiadau i gyfarwyddiadau polisi'r fenter wedi galluogi'r Gronfa i gynyddu'r arian i £2.85 miliwn yng Ngogledd Iwerddon. Cyflwynwyd gais gan bob un o'r 5 Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd ym Mehefin 2005 gyda'r arian yn wreiddiol i ddarparu gweithgareddau yn 2003, 2004 a 2005. Rhoddwyd estyniad o chwe mis i mewn i 2006 i'r 5 grant. Erbyn diwedd Mawrth 2005 roedd £1,254,659 eisoes wedi'w wario ar y rhaglen.

Mae'r gwerthusiad wedi adrodd fod y rhaglenni wedi bod yn boblogaidd gyda'r defnyddwyr a'u bod yn bennaf wedi bod o gymorth wrth eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ym mhob un o'r gwledydd. Yn Lloegr, mae sialensiau wedi codi wrth recriwtio a chadw'r bobl ifanc mewn mwyaf o angen, ond gwnaeth yr agwedd wahaniaethau positif i'r rhai oedd yn cael trafferth penderfynu dros eu dewisiadau. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhaglen wedi ategu at ddarpariaeth bresennol ac mae prosiectau yn awyddus iawn i rwydweithio a rhannu arfer da. Yng Nghymru, datblygwyd y prosiectau ar amseriad da yn natblygiad polisïau ehangach ar ddarpariaeth ieuenctid ac mae'r prosiectau "arddangosol" a ariannwyd o dan y rhaglen wedi ymateb yn llwyddianus i anghenion a blaenoriaethau lleol.

## Gweithgareddau positif ar Gyfer Pobl Ifanc

Yn 2004, gwnaed £12.5 miliwn ychwanegol ar gael i dargedu pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a chael eu heithrio drwy ddarparu amrediad eang o weithgareddau hamddena datblygol ac adeiladol dros gyfnodau'r gwyliau. Mae'r rhaglen bellach wedi cwblhau ei ail flwyddyn, gyda blwyddyn o ariannu gan y Loteri yn weddill. Mewn cydweithrediad â'r Gronfa Loteri Fawr, mae'r rhaglen yn cael ei chyd reoli drwy'r Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a Sgiliau, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Erbyn 31 Mawrth roedd cyfanswm o £36,999,691 wedi'w ddyfarnu.

Yng Nghymru dyfarnwyd £1.4 miliwn yn y Bwrdd Cyfiawnder i'r Ifanc i ddarparu amrediad o weithgareddau cynllun haf ac ymyrraeth ieuenctid trwy dimau troseddu'r ifanc gyda'r amcan o ddargyfeirio pobl ifanc oddiwrth ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throsedd.

Comisiynwyd y gwerthusiad gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac mae'n cael ei weithredu gan 'CRG Research'. Amlygodd ail flwyddyn y gwerthusiad nifer o faterion:

- Heb fod cronfa bresennol o Weithwyr Allweddol a hyfforddiant i ddewis ohonynt, profwyd beth oedi wrth recriwtio. Hefyd, yn wreiddiol roedd peth ansicrwydd ynglŷn â beth oedd rôl y Gweithiwr Allweddol. Fodd bynnag, lleihawyd hyn drwy ymdrechion codi ymwybyddiaeth a anelwyd at bartneriaid a budd-ddeiliad eraill.
- Mae'r rhaglen yn adeiladu ar nifer o gyd-raglenni a ddatblygwyd yn unigol gan bob un o'r adrannau noddedig ond a oedd mewn gwirionedd yn targedu grwpiau o bobl ifanc tebyg. Mae hyn wedi arwain at beth anhrefn cynnar ymysg asiantau cyflwyno arweiniol ynglŷn ag amcanion cynradd y Gweithgareddau positif ar gyfer pobl ifanc.
- Mae'r rhaglen wedi caniatáu ymreolaeth ranbarthol gan nad oedd yr adrannau noddedig eisiau pennu agwedd "un maint i bawb" ac adnabuwyd yr angen i ranbarthau drefnu eu hunain ac addasu i anghenion lleol. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd yma wedi dangos amrywiaeth sylweddol yn y modd y cyflwynwyd y rhaglen. Y mae tystiolaeth fod ymarferion gweithredu'n newid gan fod cyflwynwyr ar y lefel leol yn dysgu a rhannu arfer da ac yn lliflinio prosesau a gweithdrefnau.
- Wedi problemau cychwynnol sylweddol gyda'r System Fonitro Gwybodaeth, mae system well yn gweithredu bellach ac mae prosiectau lleol yn mewngofnodi data'n fwy systemataidd a chyda gwell cysondeb nag yn wreiddiol.

## 'Do it 4 Real'

'Do it 4 Real' (a elwid yn wreiddiol yn 'Get Real') yw'r ehangiad cenedlaethol o'r rhaglen ac mae'n adeiladu ar y peilot o 'Get REAL' yn 2003 a 2004. Bydd 'Do it 4 Real' yn rhedeg yn ystod haf 2005 a 2006.

Clustnodwyd £1 miliwn i ehangu rhediad cyntaf y rhaglen beilot yn 2003. Cymerodd dros 1,900 o bobl ifanc ar draws y wlad ran mewn cyrsiau preswyl wythnos yn 2004 a oedd yn cynnig gweithgareddau 'n amrywio o chwaraeon i weithgareddau awyr agored i gelf, y cyfryngau a rhaglenni diwylliannol.

Yn 2004, penodwyd 'EKOS Consulting' gan y Gronfa Loteri Fawr i ymgymryd â gwerthusiad tair blynedd o'r rhaglen. Prif amcanion y gwerthusiad ar raglen haf 2004 oedd mynd i'r afael a:

- i ba raddau y llwyddwyd i gael cymysgedd gymunedol lawn o bobl ifanc
- effaith y rhaglen ar ddatblygiad sgil a phrofiadau pobl ifanc
- lefelau'r ffioedd yr oedd rhieni yn barod i'w talu er mwyn galluogi ei plentyn i gymryd rhan.

# Adran dau

## TGCh ar Gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol

**Rhyddhaodd y rhaglen TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol £231 miliwn. Nod y rhaglen yw codi safonau cyrhaeddiad disgyblion trwy wella arbenigedd athrawon ym maes TGCh ar gyfer addysgu eu pynciau, a thrwy wella gallu a hyder llyfrgellwyr ysgol wrth ddefnyddio TG. Dyrannwyd yr arian ar gyfer y rhaglen hon i awdurdodau addysg lleol yn ystod 1998-1999. Cyhoeddwyd diwygiad i Gyfarwyddiadau Polisi'r Gronfa ym mis Tachwedd 2001, gan ddarparu £1 miliwn yn ychwanegol i ariannu hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon y gwasanaeth dysgu yn y cartref ac mewn ysbytai. Ymgorfforwyd hyfforddiant y staff hyn yn llwyr yn y rhaglen gyfredol.**

Cwblhawyd yr holl hyfforddiant a gyflwynwyd trwy'r cynllun hwn erbyn diwedd Rhagfyr 2003. Erbyn hynny, roedd 487,000 o athrawon a llyfrgellwyr ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ac roedd 444,000 o'r rhain wedi cwblhau eu hyfforddiant. Mae'r lefel gofrestru wedi bod yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y Cyfarwyddiadau Polisi ar gyfer y rhaglen.

Y Comisiwn Archwilio yn Lloegr ac yng Nghymru, 'Audit Scotland' a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon sy'n monitro'r rhaglen hon. Rhaid i bob awdurdod ddychwelyd ffurflenni wedi eu hardystio gan eu harchwilwyr allanol erbyn 31 Rhagfyr.

Pan oedd y rhaglen yn cael ei datblygu, ymrwymodd 'Ofsted' yn Lloegr, Estyn yng Nghymru ac Arolygiaeth Addysg EM yn yr Alban i werthuso effaith TGCh mewn ysgolion. Rhagwelwyd y byddai gwerthuso'r rhaglen Hyfforddiant TGCh yn rhan ganolog o'r holl adolygiadau hyn. Penderfynwyd felly na fyddai'r Gronfa'n dyblygu'r gwaith hwn trwy ddatblygu rhaglen werthuso ar wahân.



### Hyfforddiant TGCh ar Gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus

Rhyddhawyd £20 miliwn ar gyfer hyfforddi oddeutu 40,000 o staff llyfrgelloedd cyhoeddus i ddefnyddio TGCh. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell y DU bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant. Dyrannwyd yr arian ar gyfer y rhaglen i wasanaethau llyfrgell yn ystod 2000/2001.

Ar 31 Mawrth 2005, roedd cyfanswm o 55 o grantiau'n cael ei rheoli. Rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005, cynhaliwyd cyfanswm o 8 ymweliad monitro cydymffurfiad, yn ogystal â nifer fawr o alwadau monitro dros y ffôn. Ar y cyfan, roedd y rhai a gafodd ymweliad yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grantiau. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am yr arfer gorau gyda llyfrgelloedd a gwasanaethau llyfrgell ar sail yr hyn a welwyd yn ystod yr ymweliadau monitro. Mae'r rhaglen yn ei gam cau terfynol ar hyn o bryd ac mae'r 55 grant sy'n weddill ar fin dod i ben.



Gwerthuswyd y rhaglen yma ynghŷd â rhaglen Rhwydwaith y Bobl. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng Ebrill 2002 a Hydref 2004. Dengys y canlyniadau fod:

- maint yr ymestyniad yn nodedig ac fe'i cyflawnwyd o fewn yr amserlen a chyllideb
- defnydd helaeth o gyfleusterau rhwydwaith y bobl: dengys arolwg MORI diweddar fod 16 y cant o'r cyhoedd sydd dros 16 oed wedi defnyddio'r we mewn llyfrgell gyhoeddus
- mae rhwydwaith y bobl wedi bod yn llwyddiannus wrth ehangu defnyddwyr llyfrgelloedd: mae pobl ifanc a phobl ifanc yn eu harddegau yn grŵp sy'n ei defnyddio'n aml
- mae hygrededd y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'w godi gan roi cymorth i lyfrgelloedd ail sefydlu eu hunain wrth galon y gymuned leol
- mae defnyddwyr yn bositif dros ben ynglŷn â TGCh mewn llyfrgelloedd, yn enwedig mynediad am ddim i'r we, cyflymder y cysylltiad â'r dechnoleg ddiweddara
- yn ychwanegol i ddatblygu cymhwysedd a hyder defnyddwyr mewn TGCh, mae rhwydwaith y bobl yn galluogi gwasanaethau i ychwanegu at werth megis porth i ffynonellau gwybodaeth dilys a mentrau datblygu darllen rhwydweithiol
- mae staff yn derbyn buddion positif ar ôl cwblhau hyfforddiant TGCh ond mae hefyd nifer o gyfyngiadau ynghlwm ag ef, megis nad yw wedi ei gysylltu'n gryf â rolau a gweithgareddau yn y gwaith
- y sialens fwyaf sy'n wynebu datblygiad pellach o rwydwaith y bobl yw'r angen am gynhwysedd sefydliadol i arwain ymlaen y weledigaeth dros gael TGCh o fewn y llyfrgell gyhoeddus fodern.

## Digido

Rhyddhawyd £50 miliwn ar gyfer digido deunyddiau dysgu. Mae'r deunyddiau a ddigidwyd trwy'r rhaglen hon ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim trwy www.EnrichUK.net. Roedd gan yr holl brosiectau a ariannwyd trwy'r rhaglen ddeunyddiau ar gael ar-lein erbyn 1 Ebrill 2003.

Caeodd y mwyafrif o grantiau ar y rhaglen digido yn ystod 2004-2005. Ar 31 Mawrth 2005 roedd tri grant mewn rheolaeth. Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005, cynhaliwyd 5 ymweliad monitro cydymffurfiad yn ogystal â rhai galwadau ffôn monitro. Yn gyffredinol roedd y mwyafrif o brosiectau yn cydymffurfio â thermau ac amodau'r grant, mae cydymffurfiad technegol er hynny yn fater parhaus tan fydd y prosiectau wedi'i chwblhau.

# Adran dau

Yn Ionawr 2004, penodwyd 'Education for Change' i wneud gwerthusiad dwy flynedd, sydd hefyd yn cwmpasu'r gridiau cymunedol ar gyfer dysgu sydd wedi eu hariannu trwy'r rhaglen Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes. Mae'r gwerthusiad yn pwysleisio ar effaith cynnwys y we ar ddysgu gydol oes a mynediad cymunedol i TGCh, yn ogystal â'r effeithiau sefydliadol ar y rhaglen. Dengys darganfyddiadau rhagarweiniol blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, sydd wedi'i seilio ar arolygon o reolwyr prosiect:

- Ymddengys fod prosiectau wedi profi shifftiau positif sylweddol mewn agwedd tuag y defnydd o wasanaethau TGCh a'r we; etifeddiaeth o sgiliau staff a datblygiad technegol; proffiliau uchel ar gyfer y sefydliadau prosiect; sialensiau sylweddol wrth gynnal y datblygiadau a chyrraedd disgwyliadau newydd eu defnyddwyr.
- Profodd nifer o brosiectau mewn consortia oedi wrth weithredu; cynnydd mewn biwrocratiaeth; amser staff a phwysau gweinyddol; a phenderfyniadau cyfaddawd yn arwain at ganlyniadau anfoddhaol; fodd bynnag, mae'r brwdfrydedd dros weithio mewn partneriaeth yn parhau yn gryf.
- Roedd targedu'r defnyddwyr yn eang iawn ac yn aml yn targedu "oedolion" yn bennaf; roedd targedu yn aml yn cael ei gyrru gan gynnwys yn hytrach na chan y defnyddwyr.
- Ar y cyfan crëwyd lefelau isel o gynnwys dysgu strwythuredig, yn hytrach na thestun cyd-destunol ffeithiol ac eang.

## Mynediad cymunedol i ddysgu gydol oes – Rhwydwaith y Bobl

Mae rhaglen Rhwydwaith y Bobl wedi rhyddhau £100 miliwn er mwyn darparu cyfrifiaduron gyda chysylltiad â'r rhyngrwyd i 4000 o lyfrgelloedd cyhoeddus y DU. Ar 31 Mawrth 2005, roedd 100 y cant o wasanaethau llyfrgell y DU wedi derbyn offer Rhwydwaith y Bobl.

Roedd 3 grant yn cael eu rheoli ar 31 Mawrth 2005. Caeodd y mwyafrif helaeth o grantiau yn ystod 2004-2005 a bydd y tri grant sy'n weddill yn cau yn fuan.

Mae rhaglen Rhwydwaith y Bobl yn cael ei gwerthuso ynghyd â'r rhaglen Hyfforddiant TGCh ar gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus. Ceir manylion am y gwerthusiad hwn yn yr adran ar y rhaglen TGCh ar gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus.

## Mynediad cymunedol i ddysgu gydol oes

Mae'r rhaglen Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes wedi rhyddhau £100 miliwn er mwyn ariannu gweithgareddau mewn canolfannau dysgu TGCh a datblygu gridiau cymunedol ar gyfer dysgu (sy'n darparu deunyddiau dysgu a chyfleoedd i gymunedau trwy gyfrwng y rhyngrwyd). Erbyn 1 Ebrill 2003, roedd cyllideb y rhaglen wedi ei chlustnodi'n gyfan gwbl i fwy na 1,000 o brosiectau sy'n rhedeg gweithgareddau mewn mwy na 2,500 o ganolfannau dysgu TGCh.

Roedd cyfanswm o 559 o grantiau cael ei rheoli ar 31 Mawrth 2005. Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005, cynhaliwyd11 ymweliad monitro cydymffurfiad, ynghyd â nifer o alwadau monitro dros y ffôn ac ymweliadau monitro safonol.





## Mae canolfannau dysgu TGCh a gridiau cymunedol ar gyfer dysgu yn cael eu gwerthuso ar wahân.

Mae'r Gwerthusiad o Ganolfannau Dysgu TGCh yn canolbwyntio ar asesu'r effeithiau ar fynediad i gyfleoedd dysgu gydol oes a'r nifer o bobl sy'n manteisio arnynt, a'r effaith a gaiff mynediad ar ddefnyddwyr. Ym mis Gorffennaf 2002, penodwyd 'Hall Aitken Associates' i gynnal y gwerthusiad tair blynedd. Cafwyd canlyniadau positif o'r ail flwyddyn, oedd wedi ei seilio yn y lle cyntaf ar arolygon cychwynnol a dilynol defnyddwyr:

- mae'r canolfannau'n denu amrediad eang o ddefnyddwyr ond maent yn fwy effeithiol wrth gyrraedd pobl sy'n dychwelyd at ddysgu
- mae'r canolfannau'n cynnig cymysgfa ddefnyddiol o fynediad i'r we a chyfleoedd dysgu, agweddau dysgu hyblyg ac ymatebol, ac awyrgylch anffurfiol gyda mynediad galw-i-mewn mewn lleoliadau cymunedol
- mae'r staff yn gyfeillgar a chymorthgar, yn annog a rhoi cymorth i ddefnyddwyr ac yn aml yn gwneud gwaith estyn allan
- mae'r canolfannau'n darparu'r defnyddwyr â'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd na fyddent yn eu derbyn fel arall, cyrsiau a dilyniant i gyrsiau TGCh uwch, a'r modd i helpu i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd i'r rhai sy'n cael cryn anhawster
- mae'r canolfannau'n cyfrannu at fudd cymdeithasol ehangach, yn cynnwys modd o helpu pobl i fod yn fwy ymglymedig yn eu cymdeithas a rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gyfarfod pobl eraill. Efallai yn bwysicach, mae defnyddwyr yn teimlo'n gyffyrddus a'u bod yn cael cymorth yn y canolfannau gan gyfrannu at gynnydd sylweddol mewn hyder, yn enwedig i'r rhai sy'n parhau i ddefnyddio'r canolfannau'n rheolaidd.

Wynebodd y rhaglen sialensiau mewn rhai meysydd:

- ni all nifer o brosiectau ddod o hyd i arian i gyrraedd y galw parhaus a sbardunodd y rhaglen; mae hyn yn peri pryder gan fod y canolfannau'n ymweld i fod yn cynnig gwasanaeth gwahanol sydd yn well gan ddefnyddwyr na'r opsiynau prif lif eraill
- roedd rhai canolfannau wedi ei tan ddatblygu ac yn cynnig nifer cyfyngedig o gyrsiau a chefnogaeth dysgu rhan amser yn unig
- roedd anhawster parhaus wrth gyrraedd rhai grwpiau targed.

Mae'r rhaglen gridiau cymunedol ar gyfer dysgu yn cael ei werthuso ynghŷd â'r rhaglen Digido gan 'Education for Change'. Mae darganfyddiadau o'r flwyddyn gyntaf o waith maes yn cynnwys:

- mae prosiectau gridiau cymunedol ar gyfer dysgu yn ffocws ar y defnyddwyr yn eu datblygiad ac yn aml yn arddangos ymrwymiad effeithiol a'u cymunedau
- adnabuwyd amrediad eang o ganlyniadau dysgu ac roedd cryn hyder ac arbenigedd mewn datblygiad dysgu ymhlith timau prosiect
- roedd ymglymiad ymarferol Becta fel cynghorydd technegol a dysgu yn effeithiol a gwerthfawr. Hefyd, mae'r mwyafrif o brosiectau wedi cael rheolwyr prosiect â sgiliau dysgu technoleg da a phrofiad
- roedd y gridiau cymunedol ar gyfer dysgu wedi'w dilyn, cynllunio, newid a chynnal yn wirfoddol, ac er gwaethaf rhai materion yn ymwneud â newid partner, ymddengys fod y broses barterniaeth wedi bod yn brofiad positif i'r mwyafrif o brosiectau.

# Adran dau
## Aduno Cyn-filwyr

**Lansiodd y Gronfa ei rhaglen Aduno Cyn-Filwyr yn gynnar yn 2004; mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn darparu £35.2 miliwn i gefnogi'r rhaglen (yn ychwanegol, mae'r Gronfa Gymunedol yn darparu £1miliwn a Cronfa Treftadaeth y Loteri yn cyfrannu £1.1 miliwn pellach). Mae'r rhaglen yn cefnogi prosiectau a gweithgareddau sy'n coffáu ac yn cofio am ddigwyddiadau'r Ail Ryfel Byd, ac yn cynnig cyfleoedd i genedlaethau newydd ddysgu o brofiadau'r cyn-filwyr.**

Mae'r rhaglen yn cynnwys tri chynllun. Mae'r cynllun Eu Gorffennol, Eich Dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau addysgiadol, yn bennaf ar gyfer pobl ifanc ac ysgolion. Mae'r cynllun Arwyr Yn Ôl yn darparu arian ar gyfer cyn-filwyr, eu gŵyr a'u gwragedd a'u gofalwyr presennol i ddychwelyd i'r ardaloedd ble buont yn gwasanaethu dramor. Mae'r trydydd cynllun, Ffrynt Cartref Yn Ôl yn darparu arian ar gyfer prosiectau a gweithgareddau coffaol a gynhelir yn y DU.

Yn ystod 2004/05, dyrannwyd 8,885 o grantiau Arwyr Yn Ôl gyda chyfanswm o £10,079,664. Galluogodd y grantiau yma i 12,710 o gyn-filwyr, 6,088 o ŵyr a gwragedd, 935 o weddwon a 7,063 o ofalwyr deithio i fannau tramor ble bu'r cyn-filwyr yn gwasanaethu yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ychwanegol , mae 3 grant strategol led y DU wedi eu gwobrwyo gyda chyfanswm o £230,000.

Erbyn 31 Mawrth 2005, dyrannwyd 834 o grantiau Ffrynt Cartref Yn Ôl gyda chyfanswm o £5,769,397. Yn ychwanegol, mae 3 grant strategol led led y DU wedi ei gwobrwyo gyda chyfanswm o £400,000.

Erbyn diwedd y flwyddyn Mawrth 2005, dyrannwyd 1 grant uniongyrchol a 4 ymbarél gyda chyfanswm o £7.2 miliwn o dan y rhaglen Eu Gorffennol, Eich Dyfodol (led led y DU £4.2 miliwn; Lloegr £2mil; Yr Alban £500,000; Cymru £300,000; Gogledd Iwerddon; £200,000). Mae 141 o grantiau gyda chyfanswm o £1,625,128 wedi'w dyrannu i Awdurdodau Addysg Lleol allan o gyllideb o £2,300,102.

Mae'n ofynnol i bob deilydd grant (gan eithrio grantiau Arwyr Yn Ôl ar gyfer teithio) lenwi ffurflen monitro ddiwedd grant ar y diwedd a bydd pob grant strategol yn cael ymweliadau monitro yn ystod 2005/2006. Bydd o leiaf 3 y cant o'r holl brosiectau awdurdodau lleol Eu Gorffennol, Eich Dyfodol yn derbyn ymweliadau monitro. Dewisir 10 y cant o holl ddeilwyr grant Arwyr Yn Ôl i gyflwyno tystiolaeth (derbynebau ac anfonebau) o'u costau teithio. Yn y flwyddyn sy'n diweddu Mawrth 2005 ni dderbynwyd unrhyw adroddiadau diwedd grant.

Mewn partneriaeth ag Archif Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd (MLA) a'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol (IWM), mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cytuno ar werthusiad blwyddyn o'r rhaglen Aduno Cyn-Filwyr. Prif ffocws y gwerthusiad yw ystyried yr effaith ar unigolion sy'n cymeryd rhan mewn mwy nag un o'r rhaglenni a gweithgareddau. Ail ffocws y gwerthusiad yw'r effaith mae cymryd rhan yn y rhaglen wedi ei gael ar sefydliadau. Yn Ebrill 2005, penodwyd 'Morris Hargreaves McIntyre', ymgynghorwyr sy'n arbenigo yn y sector celf greadigol ym Manceinion, ac mae cyfarfodydd cychwynnol â budd-ddeiliaid allweddol wedi cymryd lle. Disgwylir y bydd adroddiad interim ar gael yn yr Hydref, gydag adroddiad terfynol ar gael ym mis Mai 2006.



# Adran dau

## Cronfa Pobl Ifanc (CPI)



**Laniwyd y CPI yn Lloegr ar 23 Medi 2004. Mae cyfanswm o £200 miliwn wedi ei glustnodi i'r CPI ar hyd y DU. Yn seiliedig ar amddifadaeth a maint poblogaeth mae £157.5 miliwn o'r arian yma wedi ei glustnodi i Loegr, £20.1 miliwn i'r Alban, £13.2 miliwn i Gymru ac £9.1 miliwn i Ogledd Iwerddon.**

### Lloegr

Yn Lloegr, dywed y cyfarwyddyd polisi y dylai CPI gefnogi prosiectau sy'n cynnwys pobl ifanc o'r dechrau i'r diwedd, yn bennaf gan ddarparu cyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn ystod cyfnodau ôl ysgol a gwyliau, a'u bod yn gweithio tuag at gyrraedd y canlyniadau sydd yn y papur gwyrdd 'Every Child Matters'.

Mae saith elfen i waith y Gronfa Pobl Ifanc yn Lloegr. Dyrannwyd gyfanswm o £77.6 miliwn i dair rhaglen sydd yn agored i dderbyn ceisiadau, a £79.9 miliwn pellach i ariannu 4 rhaglen genedlaethol sydd yn ategu at bolisïau'r Llywodraeth ac yn cefnogi'r fframwaith ar gyfer CPI.

### Y Rhaglenni Agored

Yn dilyn ymgynghori a phobl ifanc, budd-ddeiliaid allweddol yn y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus a chyda adrannau'r Llywodraeth, penderfynom y byddai elfen Agored y CPI yn cael eu weithredu yn y ffordd ganlynol:

### Grantiau i sefydliadau

Clustnodwyd £40 miliwn ar gyfer y rhaglen yma a lansiwyd ym Medi 2004. Mae'r rhaglen sydd wedi'w arwain gan angen yn dosbarthu grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n lawn gynnwys pobl ifanc (11-18 oed) ac sy'n cyrraedd dau neu fwy o ganlyniadau'r papur gwyrdd. Ystyriwyd tri chais gan bwyllgor yn Lloegr ar 28 Chwefror 2005 ac ar 31 Mawrth 2005 dyranwyd dau grant gyda chyfanswm o £225,986.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys tri person ifanc a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a statudol yn y rhanbarth. Penodwyd 'YouthBank UK', sefydliad a gaiff ei redeg gan ac ar gyfer pobl ifanc ac sy'n arbenigo mewn ymbweru drwy ddyrannu grantiau, gan y Gronfa yn Ionawr 2005 i hwyluso holl bwyllgorau a diogelu ymwneud y bobl ifanc.



## Grantiau cenedlaethol

Clustnodwyd £27.6 miliwn ar gyfer dyrannu grantiau i elusennau cofrestredig ar gyfer prosiectau sydd o arwyddocâd cenedlaethol ac sy'n arddangos ffyrdd diddorol ac arloesol o gyrraedd canlyniadau'r papur gwyrdd. Dylai'r prosiectau fod ar gyfer pobl rhwng 11-25 mlwydd oed.

Cytunwyd ar broses dau gam ar gyfer y rhaglen. Caeodd rownd gyntaf ceisiadau'r rhaglen yma yn Rhagfyr 2004. Gwahoddwyd cyfanswm o 14 o sefydliadau ymgeisio i gyflwyno cais cam dau. Mae pob un o'r sefydliadau hyn wedi cael cynnig grantiau datblygu o hyd at £30,000 i'w helpu i baratoi ei ceisiadau cam dau. Bydd gan ymgeiswyr bedwar mis i ddod yn ôl at y Gronfa gyda cheisiadau llawn a gaiff eu hasesu gan swyddogion y Gronfa cyn y gwneir penderfyniad terfynol arnynt gan Gadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cenedlaethol.

Disgwylir i'r ail rownd o ariannu, a fydd ar hyn o bryd yn rhannu bron i £13 miliwn, gael ei gynnal tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannu yma. Rydym yn disgwyl diddordeb mawr yn y rownd yma ac rydym yn rhagweld y bydd y nifer ac ansawdd y ceisiadau yn uwch nag yn rownd un.

## Grantiau i unigolion

Rydym yn clustnodi £10 miliwn yn uniongyrchol i bobl ifanc a grwpiau bychan o bobl ifanc i ariannu gweithgareddau cymunedol fydd yn helpu i gyrraedd canlyniadau'r papur gwyrdd. Gall pobl ifanc rhwng 11-25 mlwydd oed ymgeisio am grantiau o rwng £250 a £5,000.

Bydd 'UnLtd' (Y Sefydliad dros Entreprenerwyr Cymdeithasol) a'u partneriaid yn dosbarthu'r arian yma ar ein rhan. Fe'u dewiswyd i weithredu'r rhaglen yma oherwydd bod ganddynt brofiad o ddosbarthu grantiau a chefnogi pobl ifanc wrth gynnal prosiectau.

## Y Rhaglenni Cenedlaethol

Y 4 rhaglen genedlaethol a gefnogir gan y Gronfa Pobl Ifanc yw:

- Dysgu y tu allan i oriau ysgol: cydlynwyr chwaraeon mewn ysgolion – £28.4 miliwn
- Gweithgareddau positif ar gyfer pobl ifanc – £25 miliwn
- Ysgolion – £14 miliwn
- 'Do it for Real' (a elwid ynghynt yn 'Get Real') – £12.5 miliwn.

## Cymru

Amcan y Gronfa Pobl Ifanc yng Nghymru yw helpu pobl ifanc i:

- fwynhau bywyd a chyflawni potensial
- datblygu sgiliau a chyfrannu tuag at gymunedau
- dewis gweithgareddau cadarnhaol fydd yn rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae £13.2 miliwn ar gael i'w ymrwymo rhwng 2005 a 2009. Yn ystod y cyfnod yma bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 10 ac 19 mlwydd oed ac mae tair elfen i'r rhaglen:

- Dyma dy gyfle – £1 miliwn ar gyfer grantiau bach ar gyfer prosiectau a gaiff eu datblygu a'r rhedeg gan bobl ifanc (agorwyd 31 Ionawr)
- Pontio – £6.2 miliwn ar gyfer gwasanaethau estyn allan a chefnogi ar gyfer y pobl ifanc mwyaf datgyweddog ac anfodlon (agorwyd 14 Mawrth)
- Help Llaw – £6.2 miliwn ar gyfer prosiectau datblygu sy'n cwrdd â bwlch clir mewn gwasanaethau lleol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddatgyweddog neu anfodlon (agorwyd 25 Ebrill).

Y mae'n ofynnol o dan pob elfen fod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y cynlluniad, troglwyddiad a gweithrediad y prosiect.

# Adran dau

## Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd




**Bellach, mae ein rhaglenni iechyd yn pontio'r holl agweddau ar atal, diagnosis, triniaeth a gofal, gan ganolbwyntio'n arbennig ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd. Maent yn cyfrannu at flaenoriaethau ariannu strategol y Gronfa trwy:**

- gryfhau cydweithio
- ategu ac ychwanegu gwerth at bolisïau a rhaglenni prif ffrwd
- targedu ardaloedd sydd â'r angen mwyaf
- cefnogi arloesedd
- gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau.

### Canolfannau Byw'n Iach

Rhyddhaodd y rhaglen hon £300 miliwn er mwyn hyrwyddo iechyd yn ei ystyr ehangaf, lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd a gwella iechyd y bobl sydd fwyaf dan anfantais trwy sefydlu canolfannau byw'n iach.

Daeth proses ddyfarnu'r Gronfa ar gyfer y rhaglen yma i ben ym Medi 2002 ac fe gychwynnwyd ar y cylch rheoli grant, Roedd cyfanswm o 344 o grantiau'n cael ei rheoli ar 31 Mawrth 2005, a chwblhawyd tri yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2004/2005 cynhaliwyd 35 ymweliad monitro ffurfiol ynghyd a nifer fawr o alwadau monitro dros y ffôn ac adroddiadau monitro blynyddol. Erbyn diwedd Mawrth 2005 roedd 52.1 y cant o arian a ymrwymwyd wedi ei dalu i'r deilwyr grant.

Ym Mawrth 2003, cyhoeddodd y Gronfa ei bwriad i sefydlu rhaglen gefnogi a datblygu ar gyfer canolfannau byw'n iach ledled y DU. Bydd y rhaglen yn ymateb i anghenion unigol a chyffredinol canolfannau byw'n iach ac yn cyflwyno gweithgareddau a fydd yn cefnogi canolfannau byw'n iach ac yn eu helpu i rwydweithio ac i ddod yn gynaliadwy. Mae'r rhaglen gefnogi wedi cwblhau'r flwyddyn gyntaf o weithgareddau yn Lloegr. Mae cytundebau'r gwledydd eraill yn gweithio i amserlenni hwyrach ond maent oll wedi cwblhau'r ymarferion rhychwantu er mwyn teilwra'r gefnogaeth i anghenion a blaenoriaethau'r wlad.

Yn ystod 2003/2004, canolbwyntiodd y gwerthuswyr, 'The Bridge Consortium', ar weithrediad parhaus y System Monitro Iechyd a'r don gyntaf, ynghyd â'r ail a'r drydedd don, o ymweliadau astudiaeth achos (i ugain canolfan byw'n iach). Mae gwerthusiad y Gronfa o'r rhaglen Canolfannau Byw'n Iach wed ei estynu a bydd yn awr yn rhedeg tan Ragfyr 2006 yn hytrach na'r dyddiad diweddu blaenorol o Fawrth 2005. Bydd hyn yn caniatáu asesiad mwy cadarn o effaith y Canolfannau Byw'n Iach ar iechyd a lles eu defnyddwyr a'u cymunedau, ar eu hamgylcheddoedd ariannu lleol a gwaith partneriaeth, ar wrthwynebu anghydraddoldebau iechyd ac ar y sector iechyd lleol a chenedlaethol (fel prosiectau unigol ac fel rhaglen genedlaethol).

Mae Adroddiadau Blynyddol y gwerthusywr a'r crynodeb o werthusiad Blwyddyn Un a Blwyddyn Dau oll ar gael o'r adran gwerthuso ac ymchwil ar wefan y Gronfa.

## Byw Gyda Chanser

Nod y rhaglen hon yw lleihau'r anghydraddoldeb o ran darpariaeth gwasanaethau canser, a'r mynediad atynt, trwy ddarparu gofal yn y cartref, cefnogaeth i ofalwyr, gwybodaeth am ganser a gwasanaethau canser. Roedd £23.25 miliwn ar gael yn Lloegr. Dangosodd ein hymgynghoriad bod nifer o grwpiau nad ydynt yn derbyn gofal neu wybodaeth ddigonol am ganser ond bod hyn yn arbennig o wir yn achos pobl dduon a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol ac o'r herwydd mae'r rhaglen hon wedi ei thargedu'n benodol at y grwpiau hynny. Mae'r rhaglen hon yn ariannu prosiectau sy'n gwella dulliau atal canser, helpu i ddarganfod canser, gwella diagnosis a thriniaeth canser a gwella gofal canser.

Ar 31 Mawrth 2004, roedd grantiau wedi eu dyfarnu i 91 o wasanaethau sy'n gweithredu ledled Lloegr. Cynhelir ymweliadau i brosiectau risg uchel fel rhan o'r broses arolwg monitro blynyddol. Dyfarnwyd grantiau am uchafswm o dair blynedd, felly disgwyliwn i'r mwyafrif o brosiectau fod wedi eu cwblhau erbyn 2006. Ar 31 Mawrth 2005 mae cyfanswm o 41 o brosiectau wedi cau er ein bod yn gwybod bellach y bydd y mwyafrif helaeth o brosiectau yn parhau mewn rhyw ffurf.

Cyflwynodd y gwerthuswyr, sy'n bartneriaeth rhwng 'City University' (Llundain) a'r 'University of Warwick', eu hail adroddiad yng Ngorffennaf 2004. Dogfennir ddarganfyddiadau o ail flwyddyn y gwerthusiad mewn crynodeb a gyhoeddwyd gan y Gronfa yn Nhachwedd 2004. Mae'r adroddiad yn dogfennu'r trawsnewidiad wrth i'r prosiectau symud o'r cam dechreuol cyntaf i'r cam o gyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r estyniad ar y gwerthusiad wedi ei gytuno a golyga y bydd yr holl gynlluniau grant du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu dadansoddi'n fanwl.

# Adran dau

## Gofal canser Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru

Mae cyfanswm o 23 o grantiau ymbarel (16 yn Yr Alban a 7 yng Ngogledd Iwerddon) a 50 o grantiau uniongyrchol (Cymru) wedi cael eu hariannu. Cynhelir ymweliadau'n rhan o'r rhaglen monitro cydymffurfiad a lle bynnag y codir pryderon yn ystod gweithdrefnau rheoli grantiau neu anghydfod. Disgwylir i'r rhaglen ddod i ben erbyn Rhagfyr 2006 ac ers 31 Mawrth 2005 mae 16 o gynlluniau (cyfalaf) wedi cau.

## Offer Canser (Lloegr)

Mae ein buddsoddiad ychwanegol o £92 miliwn mewn offer canser hefyd yn galluogi cleifion i gael sylw'n gynharach, sy'n golygu y cânt ddiagnosis yn gynharach, ac yn helpu pobl i gael y driniaeth orau bosibl. Mae 611 darn o offer wedi cael ei ariannu. Ar 31 Mawrth 2005 roedd pob un grant heblaw tri wedi derbyn eu tâl llawn.

## Gofal Lliniarol ar Gyfer Oedolion a phlant (Lloegr)

Rhyddhawyd cyfanswm o £70 miliwn ar gyfer y rhaglen hon a chlustnodwyd £48 miliwn o'r swm hwnnw ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol i blant a £22 miliwn ar gyfer darpariaeth gofal lliniarol i oedolion. Rhoddwyd grantiau am uchafswm o 36 mis gyda chyfnod rhagarweiniol dewisol o bedwar mis, felly disgwylir i'r rhan fwyaf o gynlluniau weithredu tan 2006/2007.

## Gofal Lliniarol ar Gyfer Oedolion

Nod y rhaglen hon yw gwella ansawdd bywyd oedolion sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu neu'n bygwth eu bywydau. Fe'i targedwyd tuag at rannau o'r wlad lle mae'r angen mwyaf am ofal lliniarol. Dyfarnwyd grantiau i dimau amlbroffesiwn er mwyn eu galluogi i ofalu am bobl yn eu cartrefi. Bydd y timau hyn yn cynnig cefnogaeth therapiwtig, gofal nyrsio a chefnogaeth emosiynol a bydd nifer ohonynt hefyd yn defnyddio therapïau cyflenwol. Bydd nifer o'r rhain hefyd yn cynnig gofal am gyfnodau hwy o'r diwrnod.

Rheolwyd 56 o grantiau ar 31 Mawrth 2005. Cynhelir ymweliadau'n rhan o'r rhaglen monitro cydymffurfiad a lle bynnag y codir pryderon yn ystod gweithdrefnau rheoli grantiau neu anghydfod. Mae'r rhan fwyaf o grantiau yn dal i fod ar eu blwyddyn gyntaf ac nid yw'r ymweliadau cydymffurfiad ffurfiol wedi cychwyn eto.

## Gofal Lliniarol ar Gyfer Plant

Nod y rhaglen hon yw gwella ansawdd bywyd plant sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu neu'n bygwth eu bywydau, a'u teuluoedd. Ar 31 Mawrth 2005 roedd 135 o grantiau'n cael eu rheoli. Dosberthir grantiau yn ôl tair ffrwd wahanol: darpariaeth hosbis: 25 grant; gofal yn y cartref: 70 grant a gwasanaethau profedigaeth: 40 grant. Mae'r rhan fwyaf o grantiau wedi cwblhau ei blwyddyn gyntaf ac meant oll yn cydymffurfio. Mae tanwariant wedi bod yn dueddiad cyffredinol yn ystod y flwyddyn gyntaf oherwydd problemau recriwtio.

Bydd y timau gofal lliniarol yn y cartref yn darparu ystod o wasanaethau er mwyn i blant fedru derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Gall y timau amlbroffesiwn gynnwys nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, a therapyddion chwarae, celf neu gerddoriaeth, yn ogystal â rhywfaint o amser ymgynghorwyr. Mewn rhai achosion bydd y timau hyn hefyd yn darparu gwasanaethau gofal seibiant er mwyn i rieni a gofalwyr eraill nad ydynt yn derbyn tâl gael cyfle i ymlacio. Gallai hyn hefyd gynnwys gofalu am frodyr/chwiorydd a chwarae gyda hwy er mwyn i rieni fedru treulio mwy o amser gyda'u plentyn sydd ag afiechyd.

Bydd y timau profedigaeth yn darparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd wedi colli plentyn neu a fydd yn gorfod wynebu colli plentyn ar ôl cyfnod o ofal lliniarol. Bydd y timau'n cynnwys cynghorwyr neu therapyddion yn ogystal â chydgysylltydd er mwyn sicrhau bod teuluoedd sydd angen cefnogaeth o'r fath yn ei dderbyn ar yr adeg gywir.

Cyflwynodd y gwerthuswyr, sy'n bartneriaeth rhwng Prifysgolion Warwick a City (Llundain) eu hadroddiad cyntaf yng Ngorffennaf 2004. Cyhoeddwyd diweddariad yn Ebrill 2005 gan y Gronfa i ledaenu darganfyddiadau'r flwyddyn gyntaf y gwerthusiad. Canolbwyntiodd y flwyddyn gyntaf ar fapio lleoliadau'r prosiectau yn erbyn dangosyddion angen am wasanaethau gofal lliniarol a daethpwyd i'r casgliad fod y mwyafrif o'r prosiectau wedi ei lleoli mewn ardaloedd oedd fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau o'r fath. Disgwylir yr ail adroddiad ar ddiwedd Mai 2005.

## Gofal lliniarol ar Gyfer Oedolion a Phlant (Yr Alban)

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi cynlluniau sy'n datblygu strategaethau presennol er mwyn darparu gofal lliniarol, ynghyd â gwasanaethau cefnogaeth a gwybodaeth cysylltiedig, ehangach a mwy effeithlon ar gyfer plant ac oedolion yn yr Alban sy'n dioddef o ganser a chyflyrau eraill sy'n bygwth eu bywydau. Yn ystod 2004/2005 mae'r 19 cynllun grant yma wedi bod mewn rheolaeth/monitro grant. Bydd deilwyr grant yn cyflwyno adroddiad monitro chwarterol i'r Gronfa ac fe gânt ymweliad bob chwe mis gan eu Swyddog Grantiau. Mae'r ymweliadau monitro yn darparu cyfle gwych i'r Swyddogion Grantiau gyfarfod â phrosiectau trydydd parti.

Yn gynnar yn 2005, cytunodd Cadeirydd y Gronfa ar roi amrywiaethau grant i rai o ddeilwyr grant sector gwirfoddol y rhaglen a oedd mewn angen arian ychwanegol i dalu am gynyddiadau a ddaeth o ganlyniad i newidiadau i system budd-dal GIG. Gan fod y Rhaglen Gofal Lliniarol eisoes yn or wario, tynnwyd yr arian o'r elfen ganser o'r Rhaglen Clefyd Coronaidd y Galon,
Strôc a Chanser.

# Adran dau

## Gofal Lliniarol (Gogledd Iwerddon)

Rhyddhawyd £4.1 miliwn er mwyn cynyddu a gwella gofal lliniarol i blant ac oedolion sy'n dioddef o ganser a chyflyrau eraill sy'n bygwth neu'n cyfyngu eu bywydau. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth i deuluoedd cleifion yn ogystal â'r cleifion eu hunain. Ym Medi 2003, cymeradwyodd y Gronfa 25 o brosiectau o dan bedwar cynllun ymbarél ledled Gogledd Iwerddon. Lansiwyd pob prosiect yn llwyddianus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac maent bellach wedi symud ymlaen i'r cam rheolaeth grant. Mae'r Gronfa'n gweithio gyda'r pedwar Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno'r rhaglen hon ac ateb anghenion lleol drwy gyfarfodydd rhwydweithio chwarterol.

## Gofal Lliniarol (Cymru)

Bydd y 10 cynllun a ariannwyd o dan y rhaglen yma yn dod a budd i gleifion, ymwelwyr a staff trwy ystod eang o ddatblygiadau amgylcheddol, yn amrywio o welliannau esthetig ac ystafell aros ar gyfer cleifion i adeiladu adeilad newydd. Mae'r cynlluniau adeiladu yn dod yn eu blaen yn dda.

## Cyfleoedd Newydd ar Gyfer Iechyd: Clefyd Coronaidd y Galon, Strôc a Chanser

Mae'r Cyfarwyddiadau Polisi'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gronfa glustnodi £16.5 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chlefyd coronaidd y galon, strôc a chanser yn Lloegr erbyn 2004. Daw'r rhaglenni hyn o dan y teitl Cyfleoedd Newydd ar gyfer Iechyd ac maent yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

## Prosiectau cymunedol pump bob dydd (Lloegr yn unig)

Nod y rhaglen hon yw cefnogi mentrau cymunedol er mwyn annog pobl i fwyta ffrwythau a llysiau. Bydd y mentrau hyn yn sicrhau bod ffrwythau a llysiau ar gael yn haws ac yn fwy derbyniol yng ngolwg pobl gan ei gwneud yn haws i bobl fwyta mwy ohonynt.

Rhyddhawyd cyfanswm o £10 miliwn ar gyfer y rhaglen pump bob dydd, a lansiwyd ym Mai 2002. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd Medi 2002 ac mae 66 o Ymddiriedolaethau Gofal Primaidd (PCR) wedi derbyn arian o hyd at uchafswm o £150,000 dros ddwy flynedd.

Mae prosiectau sydd wedi derbyn arian yn cynnwys gweithgareddau yn yr ysgol megis dyddiau 'smoothies' a chynlluniau tyfu; gwasanaethau bwyd cymunedol megis gwasanaeth gludo ar gyfer y rhai mwyaf anghenus; cynlluniau yn y gweithle; cynlluniau alotiad a sesiynau coginio a bwyta.

Cwblhaodd y Gronfa y broses ddyfarnu ar gyfer y rhaglen yma yn Rhagfyr 2003 ac ar hyn o bryd mae 65 o gynlluniau mewn rheolaeth grant gydag un wedi ei gwblhau ym Mawrth 2005. Cynhaliwyd dau ymweliad cydymffurfio yn ystod 2005 lle darganfuwyd fod y cynlluniau yn rhannol gydymffurfio â thermau ac amodau'r grant gyda rhai materion bychan yn cael ei codi gan y Tîm Risg a Chydymffurfiad sydd yn cael eu datrys. Mae nifer o ymweliadau wedi eu cynnal i sicrhau fod y cynlluniau yn derbyn y gefnogaeth maent ei angen i weithredu eu gweithgareddau a chyrraedd eu canlyniadau. Cytunwyd ar estyniadau o 3-6 mis gyda phum cynllun oedd â phroblemau mawr wrth recriwtio cydlynwyr a chychwyn eu gweithgareddau. Bydd y cynllun olaf yn dod i ben ym Medi 2006.

Mae'r gwerthuswr, 'TNS', wedi cwblhau arolwg cynnydd ar y cynlluniau pump bob dydd sy'n cymryd lle yn y 66 ardal Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd (YGC) yn Lloegr yn ogystal ag astudiaethau achos o 14 o'r ardaloedd YGC. Mae'r arolwg yn edrych ar weithgareddau sydd wedi cymryd lle yn yr ardaloedd YGC, y sialensiau a wynebwyd a'r gwersi a ddysgwyd. Mae'r arolwg ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr. Bydd adroddiad ar y gwaith astudiaeth achos ar gael yng Ngorffennaf 2005.



Cam olaf y gwerthusiad yw gyrru allan y teclyn gwerthuso a defnydd pump bob dydd (holiadur FACET) i'r rhai a ymatebodd i'r holiadur cyntaf a yrrwyd allan ddwy flynedd yn ôl. Bydd y rhain yn cael eu dadansoddi a'u cymharu gyda'r holiadur cyntaf gan edrych ar sut mae agweddau i a'r nifer o bobl sy'n bwyta ffrwythau a llysiau wedi newid.

## Rhaglen beilot ffrwythau mewn ysgolion (Lloegr yn unig)

Nod y rhaglen hon yw helpu i wella diet plant a lleihau eu risg o gael clefyd y galon a chanser yn nes ymlaen mewn bywyd. Er bod y rhaglen ar gael i bob plentyn, mae o fudd arbennig i blant o gartrefi sydd ar incwm isel na fyddent fel arall, yn ôl yr hyn a awgrymir gan ganlyniadau arolygon, yn bwyta unrhyw ffrwythau ffres. Gyda chefnogaeth y Gronfa ymestynnwyd y rhaglen yma i bum rhanbarth, gan gymeryd lle grantiau bach lle'r oeddynt yn bodoli. Ymestynnwyd y rhaglen fel a ganlyn: Canolbarth Lloegr (cychwynnodd Ebrill 2002), Llundain (Hydref 2002), Gogledd Orllewin Lloegr (Mawrth 2003), Dwyrain Canolbarth Lloegr (Mai 2003) a Gogledd Ddwyrain Lloegr (Mawrth 2004). Yn Lloegr, derbyniodd mwy na 1.1 miliwn o blant rhwng 4 a 6 oed ffrwythau'n rhad ac am ddim bob diwrnod ysgol.

Mae'r Adran Iechyd yn awr yn ariannu'r rhaglen genedlaethol a chwblhawyd y cynllun olaf a ariannwyd gan y Gronfa yn Ebrill 2005. Er mwyn sicrhau cysondeb y rhaglen, mae'r Gronfa wedi cytuno i barhau i ariannu'r cynlluniau tan dymor yr Hydref 2004 pryd gall yr Adran Iechyd estynu'r cynllun o'r ysgolion yn ein peilot ni i bob ysgol sy'n gymwys yn y rhanbarth.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol a Phrifysgol Leeds wedi cwblhau'r gwerthusiad o Gynllun Ffrwythau a Llysiau mewn Ysgolion Cenedlaethol. Mae'r adroddiad terfynol yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a bydd y darganfyddiadau ar gael yn Awst. Mae Adroddiadau wedi ei seilio ar ddarganfyddiadau cam un a cham dau ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Gronfa Loteri Fawr.

Pwrpas y gwerthusiad yw edrych ar effaith peilot y Gronfa o Gynllun Ffrwythau a llysiau mewn Ysgolion Cenedlaethol ar blant ac ysgolion. Defnyddiwyd ddyddiadur bwyd a holiadur darluniol disgybl yn ystod tri cham yr ymchwil, yn ogystal ag astudiaethau achos yn ystod gam dau. Dengys ddarganfyddiadau o gamau un a dau:

- adroddodd 35 y cant o ddisgyblion eu bod yn bwyta o leiaf pump porswin o ffrwythau a llysiau yn ystod cyfnod o 24-awr o'u cymharu â 27 y cant yn ystod cam un
- roedd merched yn llawer mwy tebygol o fod wedi bwyta pump bob dydd
- wrth i ddisgyblion fynd yn hyn yr oedd yn llai tebygol yu byddent yn bwyta pump bob dydd
- roedd ysgolion oedd â niferoedd uwch o ddisgyblion ble'r oedd Saesneg yn iaith ychwanegol yn llawer mwy tebygol o fwyta pump bob dydd
- arhosodd y nifer o fyrbrydau a fwytawyd yn gyson
- dengys astudiaethau achos fod y cynllun yn boblogaidd ymysg staff a disgyblion.

# Adran dau

## Offer (Lloegr)

Nod y rhaglen hon yw mynd i'r afael â'r baich a ddaw yn sgil clefyd y galon, strôc a chanser trwy ei gwneud yn haws i gleifion ddefnyddio gwasanaethau. Mae'n anelu at leihau anghydraddoldeb rhwng gwahanol grwpiau mewn gwahanol rannau o'r wlad o ran defnydd o wasanaethau. Mae'n darparu offer MRI ac angiograffeg cardiaidd ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG, a monitorau calon symudol a diffibrilwyr ar gyfer Ymddiriedolaethau Ambiwlans, er mwyn galluogi'r holl wasanaethau ambiwlans a gwasanaeth cardiaidd mewn ysbytai i gyrraedd safonau derbyniol ar draws y wlad. Roedd cyfanswm o £89.5 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen hon.

Mae'r Gronfa wedi cwblhau asesiad o'r angen am offer ambiwlans ar sail arolwg o wasanaethau Ymddiriedolaethau Ambiwlans a wnaed gan yr Adran Iechyd yn 2001. Fel rhan o'r asesiad anghenion, gofynnwyd i bob Ymddiriedolaeth Ambiwlans gyflwyno gwybodaeth am eu darpariaeth bresennol a'u hanghenion. Arolygwyd y canlyniadau gan aelodau Timau Clefyd Coronaidd y Galon a Gwasanaethau Brys y Gaeaf yn yr Adran Iechyd. Llwyddodd yr asesiad anghenion hefyd i gasglu gwybodaeth am faint Ymddiriedolaethau Ambiwlans, y posibilrwydd o uwchraddio'r offer presennol a'r gost o wneud hynny, dyraniadau a gynllunir trwy unrhyw raglen gyfalaf neu gyllideb arall ac anawsterau lleol penodol.

Hysbyswyd y 53 Ymddiriedolaeth GIG gyntaf am yr arian a ddyfarnwyd iddynt ym mis Tachwedd 2001. Bydd ymddiriedolaethau'n gweithio gydag Asiantaeth Bwrcasu a Chyflenwadau'r GIG er mwyn trefnu i'r offer gael ei gludo ar yr amser mwyaf cyfleus i'r Ymddiriedolaeth. Yn aml iawn, mae comisiynu a gosod offer yn digwydd dros nifer o fisoedd.





Mae'r Gronfa wedi dyfranu 146 o grantiau i Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiridolaethau Gwasnaeth Ambiwlans GIG yn Lloegr. O dan y rhaglen hon, caiff cydymffufiad ei fonitro drwy systemau papur yn hytrach na thrwy ymweliadau.

Mae'r peiriannau cyntaf wedi bod yn gweithredu ers ail hanner 2002. Hyd yn hyn, mae 62 o'r peririannau wedi ei talu amdanynt yn llawn ac maent yn weithredol.

## Rhaglenni calon gyda sefydliad prydeinig y galon fel partner dyfarnu

Mae'r Gronfa wedi ymuno â Sefydliad Prydeinig y Galon er mwyn rheoli tair rhaglen ar gyfer y galon sy'n ategu'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer Iechyd. Dewiswyd Sefydliad Prydeinig y Galon fel partner dyfarnu oherwydd ei arbenigedd yn y maes, ei gysylltiadau cryf gyda budd-ddeiliaid, a'i lwyddiant yn y gorffennol o redeg rhaglenni grant tebyg. Sefydliad Prydeinig y Galon oedd yn gyfrifol am gynllunio'r rhaglenni'n fanwl, asesu ceisiadau a dyfarnu grantiau o dan y rhaglen.

## Rhwydweithiau cefnogi methiant y galon (Lloegr yn unig)

Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o gleifion sydd gyda mynediad at dîm cefnogi methiant y galon arbenigol er mwyn eu galluogi i dderbyn gofal yn eu cartref. Gall gofal yn y cartref ddarparu gwell rheolaeth ar gyfer y clefyd, gan helpu cleifion i fedru symud a bod yn annibynnol am fwy o amser. Gall nyrsys arbenigol helpu i reoli'r symptomau a lleihau'r poen meddwl a achosir gan broblemau anadlu, er enghraifft. Bydd y rhaglen £10m newydd hon yn cynyddu'r nifer o raglenni rheoli cymunedol a arweinir gan nyrsys ar gyfer pobl sy'n dioddef yn sgil methiant y galon.

Bydd y rhwydweithiau nyrsys hyn yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a gofal i gleifion a'u gofalwyr yn ogystal â meithrin cysylltiadau cryfach â gwasanaethau gofal sylfaenol a chynlluniau gofal lliniarol cyfredol. Bydd eu cefnogaeth arbenigol yn galluogi pobl i fwynhau gwell ansawdd bywyd, aros gartref am yn hwy, a lleihau'r nifer o achosion brys mewn ysbytai. Bydd y prosiectau a gefnogir o fudd arbennig i bobl hŷn ac i bobl sy'n byw mewn cymunedau hynod wledig yn ogystal â phoblogaethau risg mawr, megis cymunedau De Asiaidd.

Lansiwyd y rhaglen Rhwydweithiau Cefnogi Methiant y Galon ym Mehefin 2003. Ar 31 Mawrth 2005 roedd y 26 o grantiau a ddyfarnwyd yn cael eu rheoli. Cychwynnodd yr ymweliadau monitro chwarterol â Sefydliad Prydeinig y Galon yn Ionawr 2004.

Hyd yn hyn, mae 75 allan o'r 76 swyddi nyrsys wedi ei llenwi ac maent wedi cychwyn y gwaith ar y prosiectau a gweld cleifion. Mae'r Gronfa'n gweithio'n agos â Sefydliad Prydeinig y Galon i sicrhau fod y rhaglen yn cwrdd â'u ganlyniadau. Cynhaliwyd ymweliad cyntaf y flwyddyn gyntaf yn Hydref 2004 a darganfu fod y grant yn cydymffurfio'n llawn ac fod rhai argymhellion mân ar gyfer gwelliant.

Rheolir y gwerthusiad gan Sefydliad Prydeinig y Galon, a gomisiynodd Prifysgol York i ymgymryd â'r prosiect. Cynhyrchwyd crynodeb byr o gynnydd y flwyddyn gyntaf yn Ebrill 2004 gan y gwerthuswyr oedd yn dogfennu'r broses hir o gael cymeradwyaeth moesol a recrwitio nyrsys. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o swyddi nyrsys wedi'w llenwi ac mae cleifion yn cael eu recriwtio i'r astudiaeth.

# Adran dau

## Rhaglen Diffibrilwyr Genedlaethol (Lloegr yn unig)

Bydd £6 miliwn o arian y Gronfa ar gyfer y rhaglen newydd hon yn cefnogi pryniant a gwaith cynnal a chadw oddeutu 2,300 o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd er mwyn cynyddu'r nifer o bobl sy'n byw ar ôl i'w calon beidio â churo am gyfnod, a bydd yn cynyddu'r nifer o bobl sydd â sgiliau cefnogi bywyd sylfaenol ac sy'n gallu defnyddio diffibrilwyr allanol awtomataidd.

Mae'r Gronfa wedi gweithio gyda'r Adran Iechyd a Sefydliad Prydeinig y Galon er mwyn adnabod sut y bydd y rhaglen yn dod â budd i gymunedau dan anfantais. Nod y rhaglen yw i gynyddu mynediad i ddiffrilbwyr yn gynnar ar gyfer pobl sy'n cael ataliad y galon y tu allan i ysbyty yn Lloegr drwy ddarparu ddiffrbilwyr allanol awtomataidd mewn mwy o lefydd a gwella graddfeydd goroesi ar gyfer ataliad y galon drwy gynyddu'r nifer o bobl a hyfforddir mewn cefnogaeth bywyd sylfaenol a defnyddio ddiffribilwr. Mae lleoliadau ddiffibilwyr wedi eu dewis fel eu bod yn gwasanaethu mannau a ddefnyddir gan grwpiau dan anfantais sy'n wynebu risg mawr.

Penodwyd Sefydliad Prydeinig y Galon fel partner dyfarnu ar gyfer y Rhaglen Diffibrilwyr Genedlaethol yn Medi 2003 a lansiwyd y rhaglen yn Hydref 2003. Agorwyd y broses ymgeisio yn Ebrill 2004 a derbyniodd Sefydliad Prydeinig y Galon 32 o geisiadau gan Ymddirielodaethau Ambiwlans. Yn dilyn asesiad manwl gan Sefydliad Prydeinig y Galon, gwnaed ddyfarniadau trydydd parti i 31 Ymddiredolaeth Ambwlans ym Mehefin 2004.

Cwblhawyd y broses gaffaeliad ar gyfer y diffibrilwyr allanol awtomataidd ym Medi 2004. Mae'r holl Ymddiriedolaethau Ambiwlans bellach wedi derbyn y diffibilwyr allanol awtomataidd a glustnodwyd iddynt ac maent ar hyn o bryd yn gweithio ar eu sefydlu.

Mae 28 allan o 31 o'r Ymddiriedolaethau Ambiwlans wedi penodi Swyddogion Diffibilwyr Cymunedol gyda'r 3 penodiad olaf ar fin digwydd. Caiff y rhaglen ei werthuso drwy gyfarfodydd monitro chwarterol rhwng y Gronfa, Sefydliad Prydeinig y Galon a'r Adran Iechyd.


## Adsefydlu Cleifion Cardiaidd

Mae gwasanaethau adsefydlu cleifion cardiaidd yn helpu pobl sy'n gwella ar ôl trawiad ar y galon neu lawdriniaeth ar y galon i newid eu ffordd o fyw a fydd yn lleihau eu risg o gael mwy o salwch, a gwella eu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol er mwyn iddynt fedru byw bywyd mor llawn â phosibl. Mae gwasanaethau adsefydlu cleifion cardiaidd yn amrywio ar hyd a lled y wlad o ran ansawdd a maint ac mae angen eu gwella a'u moderneiddio mewn nifer o ardaloedd. Nid yw gwasanaethau bob amser yn cael eu cyflwyno mewn modd cyfleus neu mewn modd sy'n rhoi i gleifion yr hyn y credant sydd arnynt ei angen. Mae'r Gronfa wedi clustnodi £4.7 miliwn ar gyfer y rhaglen hon.

Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i symud y ffocws oddi ar y cleifion a chanolbwyntio ar 'bobl', trwy gefnogi rhaglenni adsefydlu cleifion cardiaidd mewn lleoliadau cyfleus gan gynnig pecyn o wasanaethau sydd wedi ei deilwra. Bydd yn talu am ddeunyddiau dysgu o ansawdd da ar gyfer defnyddwyr, ac am rai gwelliannau i gyfleusterau er mwyn creu amgylcheddau diogel a chartrefol (er nad ydym yn bwriadu ariannu prosiectau cyfalaf ar gyfer adeiladau newydd). Ein gobaith yw y bydd mwy o ddewis ar gael o ran pa wasanaethau a geir, a phryd. Yn benodol, gobeithiwn weld gwasanaethau'n cael eu teilwra i ateb anghenion grwpiau a chymunedau nad yw'r gwasanaethau presennol yn ateb eu hanghenion.

Gwnaed Sefydliad Prydeinig y Galon yn Bartner Dyfarnu ar gyfer y rhaglen yma yn Nhachwedd 2003. Lansiwyd y rhaglen yn Mawrth 2004 a gyrwyd ceisiadau ariannu a nodiadau arweiniad i'r holl Ymddiriedolaethau Gofal Cynradd yng Lloegr. Derbyniodd Sefydliad Prydeinig y Galon 94 cais a dyfarnwyd grantiau i 36 Ymddiriedolaeth yn Hydref 2004 yn dilyn proses asesu fanwl. Mae'r rhaglen yn cael ei monitro drwy gyfarfodydd monitro chwarterol. Cynhaliwyd ymweliad cydymffurfiad y flwyddyn gyntaf yn Hydref 2004 gyda'r grant yn cydymffurfio gyda rhai mân argymhelion ar sut gellid gwella.

Mae dau werthusiad sy'n berthnasol i'r rhaglen yma. Mae Sefydliad Prydeinig y Galon yn ariannu a rheoli gwerthusiad meintiol a gaiff ei gynnal gan Brifysgol York. Mae'r Gronfa a Sefydliad Prydeinig y Galon yn cyfrannu tuag at gost y gwerthusiad ansoddol, a gaiff ei reoli gan y Gronfa a'i gynnal gan yr un contractwr. Mae'r gwerthusiad meintiol yn cychwyn yn awr a disgwylir i'r gwerthusiad ansoddol gychwyn yng Ngorffennaf 2005




## Clefyd Coroniadd y Galon, Strôc a Chanser (Yr Alban)

Mae'r rhaglen hon yn anelu at leihau'r perygl y bydd pobl yn yr Alban yn dioddef yr afiechydon hyn trwy ddarparu rhaglenni atal effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gwella mynediad i wasanaethau a chyfleusterau o safon uchel ar gyfer diagnosis a thriniaeth trwy fynd i'r afael yn benodol ag anghydraddoldeb o ran darpariaeth.

Yn ystod 2003/2004, roedd cyfanswm o £13.7 miliwn wedi ei ddyfarnu i'r 110 o gynlluniau grant trydydd parti a reolir gan y 15 Bwrdd GIG yn yr Alban a dyfarnwyd £1.2 miliwn i ddau gynllun grant o arwyddocâd cenedlaethol sy'n gwasnaethu'r Alban gyfan mewn perthynas â clefyd coronaidd y galon a stroc. Mae bron i £8 miliwn wedi ei ddyfranu i'r 75 cynllun grant trydydd parti a gyflwynwyd gan dri Grwp Ymgynghorol Canser Rhanbarthol yr Alban a rhannwyd £1.4 miliwn rhwng bedwar o gynlluniau grant oedd o arwyddocâd cenedlaethol mewn perthynas i ganser.

Yn ystod 2004/2005 dyranwyd dau grant pellach a chyfanswm o £250,000 mewn perthynas i glefyd coronaidd y galon a stroc. Dyfarnwyd un o'r grantiau i'r 'Scottish Community Development Centre' sydd wedi bod yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddeilwyr grant ymbarél fel y gallant gynllunio a gweithredu gwerthusiad eu cynlluniau drwy ddefnyddio offeryn cynllunio a gwerthuso'r Ganolfan, yr 'LEAP for Health'. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant dau ddiwrnod yng Nghaeredin a Glasgow yn ystod Medi a Hydref 2004, ac fe'i mynychwyd gan 13 allan o 15 o Fyrddau GIG Yr Alban.

Mae'r holl grantiau yn awr yn cael eu rheoli ac maent yn darparu adroddiadau chwarterol i'r Gronfa yn ogystal a chael eu hymweld bob chwe mis.

# Adran dau



## Clefyd Coronaidd y Galon, Strôc a Chanser (Cymru)

Nod y rhaglen £15 miliwn hon yng Nghymru yw lleihau'r perygl y bydd pobl yn datblygu clefyd coronaidd y galon a chanser trwy weithgareddau atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynyddu argaeledd a gwella ansawdd gwasanaethau adsefydlu clefyd coronaidd y galon a chanser. Fe'i rhannwyd yn dair elfen benodol sy'n cynnwys:

- £0.5 miliwn tuag at ddatblygu rhwydweithiau cefnogi strôc
- £5 miliwn tuag at offer angiograffeg mewn ysbytai ledled Cymru
- £9.5 miliwn tuag at brosiectau atal ac adsefydlu ar gyfer clefyd coronaidd y galon a chanser.

Dyfarnwyd grant i Gymdeithas Strôc Cymru er mwyn datblygu amrywiaeth o gynlluniau strôc cymunedol ledled Cymru yn cynnwys gwasanaethau cynghori a chefnogi gofal dydd, gwasanaethau adsefydlu therapiwtig a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae'r elfen angiograffeg yn darparu peiriannau ar chwe safle ledled Cymru. Bydd yr offer hwn yn cyfrannu tuag at wella gwasanaethau cardiaidd yng Nghymru ac yn galluogi diagnosis cyflymach, a fydd yn arwain at driniaeth gynt a gwell canlyniadau o ran iechyd y cleifion. Buom yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar gyfer costau cyfalaf adeiladau a chostau refeniw a bod modd cymeradwyo'r chwe safle ym Mawrth 2004. Mae amryw o'r Ymddiriedolaethau eto i gwblhau'r elfen adeiladu cyflaf angenrheidiol ac felly bydd yn rhai misoedd eto tan y gallant archebu'r offer. Disgwylir i'r holl beiriannau fod mewn lle erbyn Awst 2006.

Dyfarnwyd tri deg pump o grantiau yn Hydref 2003 o dan yr elfen atal ac adsefydlu clefyd coronaidd y galon/canser. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys nifer o ymyriadau megis atal ysmygu, hyrwyddo diet iach, gwasanaethau draenio lymffodema cymunedol a rhaglenni ymarfer adsefydlu cardiaidd. Mae'r cynlluniau'n datblygu'n dda.

## Clefyd Coronaidd y Galon, Strôc a Chanser (Gogledd Iwerddon)

Roedd £9.4 miliwn ar gael yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer y rhaglen clefyd coronaidd y galon, strôc a chanser. Yn Awst 2003, cyhoeddwyd 4 o grantiau ymbarél er mwyn ariannu 51 o brosiectau ledled Gogledd Iwerddon. Lansiwyd pob prosiect yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac maent bellach yn y cam rheolaeth grant. Mae'r Gronfa'n gweithio gyda'r pedwar Bwrdd Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno'r rhaglen hon a chyrraedd anghenion lleol drwy gyfarfodydd rhwydweithio chwarterol.

Mae'r prosiectau a ariannwyd yn canolbwyntio ar fesurau atal cymunedol, yn cynnwys annog pobl i stopio ysmygu, i fwyta'n iach, i ymarfer ac i fod yn ofalus yn yr haul.



Rhoddwyd y contract dros werthuso'r rhaglen yma i bartneriaewth a'i arweinir gan 'Secta' yn Chwefror 2005. Mae'r gwerthusiad yn cymeryd lle yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y gwerthuswyr yn ceisio am gymeradwyaeth moesol, yn cynhyrchu papur cefndir a fydd yn manylu ar y cynnwys polisi ymhob gwlad ac yn dewis prosiectau fel astudiaethau achos, gyda'r bwriad o gychwyn yr ymweliadau cyn diwedd 2005.

## 'Better Off' (Yr Alban)

Prif nod y rhaglen yw i roi cefnogaeth i bobl sy'n camddefnyddio neu sydd wedi camddefnyddio cyffuriau ac sy'n ceisio newid eu ffordd o fyw a'u hamgylchiadau er mwyn troi ymaith oddiwrth gamddefnyddio cyffuriau. Mae'r rhaglen yn cynnig cefnogaeth holistig sydd wedi'w deilwra i anghenion y defnyddwyr unigol, gyda'r bwriad o gael mwy o bobl i geisio â parhau ar raglenni adferiad. Mae 'Better Off' yn ategu strategaeth gyffuriau genedlaethol yr Alban, 'Tackling Drugs in Scotland: Action in Partnership' trwy ariannu cynlluniau lleol a ddatblygwyd yn benodol i fynd i'r afael â phroblemau lleol. Gwnaed dyraniadau dangosol i'r 22 o Dimau Gweithredu Cyffuriau yn yr Alban, ac mae'r Gronfa wedi cyd-weithio'n agos â Thimau Gweithredu Cyffuriau i gyflwyno'r rhaglen drwy'r cam ymgeisio a darparu cefnogaeth ar ôl derbyniad y grant.

Nid yw 'Better Off' yn derbyn unrhyw geisiadau yn awr ac mae'r holl gynlluniau grant yn cael eu rheoli. Yn ystod dwy rownd ymgeisio y rhaglen yma, dyranwyd gyfanswm o 63 o gynlluniau grant gwerth £9.4 miliwn ac fe'u taenwyd ar draws pob Tim Gweithredu Cyffuriau yn Yr Alban. Mae cyfanswm y cynlluniau grant wedi disgyn i 59 yn awr, gan fod nifer o brosiectau wedi uno ac bu'n rhaid i un deilydd grant o adral Tim Gweithredu Cyffuriau Greater Glasgow dynnu eu cais yn ôl yn sgil eu anallu i sicrhau ariannu cyfatebol digonol i gynnal y prosiect. Y bwriad yw y bydd yr arian a ddyranwyd i'r sefydliad yn cael ei ddosbarthu i brosiectau eraill yn ardal Greater Glasgow a all arddangos angen priodol o fewn nodau gwreiddiol y rhaglen.

Mae'r Gronfa wedi cynnal neu fynychu nifer o ddigwyddiadau i dderbynwyr grant gan roi gwybodaeth ac arweiniad ar ofynion monitro ar gyfer eu grant ac ar wneud hunan werthusiad, darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhannu arfer da, a'u galluogi i fwydo mewn i werthusiad allanol y rhaglen.

Derbyniom adroddiad blynyddol cyntaf ar 'Better Off' gan y gwerthuswyr. Tra mae'r gwerthusiad yn parhau i fod ar gam cynnar yn unig, mae wedi darganfod fod prosiectau yn croesawu agwedd gyffedinol y Gronfa wrth ymsefydlu'r rhaglen, yn arbennig y rhyddid a roir i ymgeiswyr adnabod ac ymateb i anghenion penodol. Ar yr un pryd, mae'r ffocws ar bartneriaethau yn y rhaglen wedi eu helpu i feddwl am y posibilrwydd o integreiddio eu gwasnaethau yn ystod camau cychwynol y prosiect.

# Adran dau

## Gwella'r amgylchedd lleol/ansawdd bywyd

Nod rhaglenni a ariennir o dan ansawdd bywyd yw cefnogi cymunedau i wella eu hamgylchedd. Mae amrywiaeth helaeth o fentrau, o alluogi cymunedau yn yr Alban i reoli tir i ehangu'r sector ailgylchu cymunedol, yn dod o dan yr elfen hon. Yn ogystal, cynlluniwyd y fenter cyfran deg a lansiwyd ym Mehefin 2003 er mwyn targedu ardaloedd dan anfantais nad ydynt hyd yma wedi derbyn eu cyfran o arian Loteri.

### Meysydd Glas a Chymunedau cynaliadwy

Y rhaglen meysydd glas a chymunedau cynaliadwy, sydd werth £130 miliwn, oedd rhaglen Gyntaf y Gronfa a gynigiai adnoddau wedi eu clustnodi'n arbennig ar gyfer yr amgylchedd, a'r rhaglen gyntaf i ddirprwyo awdurdod i bartneriaid dyfarnu ddosbarthu grantiau. Bydd yn rhedeg tan 2007.

Nod y rhaglen yw helpu cymunedau trefol a gwledig ledled y DU i ddeall, gwella neu ofalu am eu hamgylchedd naturiol.

Mae saith o'r 11 cynllun partner dyfarnu yn Lloegr, dau ohonynt yn yr Alban, un yng Nghymru ac un yng Ngogledd Iwerddon. Mae nifer y rowndiau ariannu'n amrywio rhwng partneriaid dyfarnu, fel y mae lefel y grantiau a ddyfernir a'r modd y tynnir arian i lawr.

Mae cyfanswm o 3,625 o brosiectau wedi eu hariannu (2,918 yn Lloegr, 129 yng Ngogledd Iwerddon, 257 Yr Alban, 321 Cymru). Daw hyn a'r cyfanswm a ymrwymwyd gan ein partneriaid dyfarnu i £99 miliwn. Cynhelir cyfarfod panel olaf Enfys yng Ngorffennaf 2005, gan olygu mai Cronfa Dir yr Alban yw'r unig gynllun grant fydd yn parhau i fod yn agored. Bydd holl grantiau Cronfa Dir yr Alban wedi eu hymrywmo erbyn Mawrth 2006.

Mae poblogrwydd y rhaglen yn amlwg yn y ffaith bod yr arian wedi ei ddyrannu mor gynnar gan sawl un o'r partneriaid dyfarnu.

### Cronfa Dir Yr Alban

Mae Cronfa Dir yr Alban yn gynllun grant llwyddianus iawn sydd wedi ei hen sefydlu ac fe'i cysylltir ef yn gryf ag adfywiad gwledig. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £11.6 miliwn wedi ei ddyfarnu i 135 o brosiectau, yn cynnwys, grant proffil uchel i'r 'Assynt Foundation' i alluogi'r gymuned i ddilyn ei dyhead i gael Ystad Assynt ym Mawrth 2005. Os yn llwyddianus, hwn fyddai'r pryniad tir cymunedol mwyaf yn yr Alban.

Mae'r Ddeddf Trawsnewid Tir (Yr Alban) 2004 yn awr mewn gweithrediad, yn cynnwys darpariaethau hawl i brynu ar gyfer cymunedau pan ddaw i'w werthu. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu tir cofrestredig hawl i brynu a fydd yn cyfrannu at ddatblyiad cynaliadwy a budd y gymuned leol. Unwaith y cofrestir diddordeb, ni all y tir gael ei werthu heb fod budd y gymuned wedi cael ei gymryd i ystyriaeth. Mae Cronfa Dir yr Alban wedi derbyn ei gais ariannu cyntaf 'hawl i brynu'.

Yn ychwanegol, yn unol â'r diffiniad diwygiedig o dir gwledig yn y Ddeddf Trawsnewid Tir (Yr Alban) 2004 : Rhan 2: Hawl i Brynu'r Gymuned, cytunodd y Gronfa i godi'r trothwy boblogaeth ar gyfer cymunedau gwledig o 3,000 i 10,000, gan wneud 117 o anheiddiaid yn gymwys i wneud cais am gymorth Cronfa Dir yr Alban.

Yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad rhaglen pedair blynedd, ymwelodd y gwerthuswyr â 71 o brosiectau astudiaeth achos gan barhau i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y partneriaid dyfarnu. Awgryma'r canlyniadau interim fod prosiectau, ar y cyfan, o safon uchel iawn ac fod y rhaglen yn llwyddiannus o ran cyrraedd y cymunedau sydd fwyaf mewn angen. Cyhoeddir crynodeb o ganlyniadau'r ail flwyddyn o waith yn ystod haf 2005.

## Trawsnewid Gwastraff

Yn 2001, derbyniodd y Gronfa gyfarwyddiadau polisi i drawsnewid gwastraff fel rhan o'r fenter trawsnewid cymunedau ehangach. Manylai'r Cyfarwyddiadau y dylai'r Gronfa gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at ymdrechion yn y sector cymunedol i ailddefnyddio, ailgylchu a defnyddio gwastraff i wneud compost. Mae'r sector gwneud compost yn cael ei dan gynrychioli ledled y DU. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i gael y balans yn eu ôl drwy dargedu'r sector yn Lloegr, ble mae arian yn parhau i fod ar gael i'w ymrywmo.

Rhannwyd y £49.5 miliwn a oedd ar gael rhwng y pedair gwlad, a phenodwyd partner dyfarnu ymhob gwlad. Erbyn Ebrill 2005, roedd £34.8.3 miliwn o arian wedi ei ddyrannu gan ein partneriaid dyfarnu i 225 o brosiectau.

Yn Lloegr, ar ôl cychwyn arafach i'r rhaglen Ailgylchu Cymunedol a Datblygu Economaidd nag a ragwelwyd, ymestynnwyd contract y Gymdeithas frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt gyda'r Gronfa am flwyddyn arall hyd Fawrth 2008. Ers cychwyn 2004 mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n sylweddol ac hyd yn hyn mae £26 miliwn wedi ei ddyfarnu i 148 o brosiectau. Yn Lloegr, disgwylir y bydd yr holl arian wedi eu ddyfarnu erbyn Rhagfyr 2005 yn y tri cyfarfod panel sy'n weddill. Bydd cymdeithas frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn cyhoeddi dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr newydd ar 11 Mai 2005 a bydd yn rhaid i'r holl geisiadau ddod i law erbyn 1 Awst 2005.

Yn yr Alban cefnogwyd 47 o brosiectau gyda'r grantiau'n werth cyfanswm o £4.46 miliwn. Mae'r holl arian yn yr Alban yn awr wedi ei ddyranu.

Yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliwyd un rownd ymgeisio bellach gyda'r pendefyniadau'n ddisgwyliedig ym Mehefin 2005. Mae 9 prosiect wedi eu cefnogi hyd yn hyn gyda grantiau gwerth £1.43 miliwn.

Mae'r rhaglen wedi bod yn hynod o boblogaidd yng Nghymru gyda'r mwyafrif o'r arian yn cael ei ddyranu yn ystod dau gyfarfod cyntaf y panel. Mae 21 o brosiectau wedi eu cefnogi gyda grantiau gwerth £1.43 miliwn.

Ym mis Tachwedd 2003, penodwyd 'Environmental Resources Management & Eunomia Research and Consulting' i werthuso'r rhaglen hon. Bydd y gwerthusiad hwn, a fydd yn rhedeg hyd 2006, yn canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol, effeithiolrwydd ac effaith cyfranogiad cymunedol ac effeithiau hirdymor cynaliadwyedd prosiectau. Bydd y gwerthusywr yn defnyddio amrediad o ddulliau gan gynnwys ymweliadau astudiaethau achos i 30 o brosiectau ac asesiad o allbynnau'r rhaglen.

Dengys ddarganfyddiadau cychwynnol o'r gwerthusiad:

- mae cyfran fwy o'r prosiectau wedi ei lleoli mewn ardaloedd sydd â pherfformiad is o ailgylchu/gwneud compost. Mae 33 y cant o brosiectau wedi eu lleoli yn yr awdurdodau lleol sy'n perfformio waethaf ac mae15 y cant ymysg y perfformwyr gorau
- mae cyfran fwy o'r prosiectau wedi eu lleoli mewn ardaloedd sydd â lefelau o amddifadedd difrifol. Mae 37 y cant o brosiectau wedi ei lleoli yn yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig a dim ond 8 y cant wedi ei lleoli yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

# Adran dau

## Ynni Adnewyddol

Fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Cymunedau, rhyddhawyd £50 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy ledled y DU. Dywedodd y Llywodraeth fod rhaid rhannu'r arian hwn rhwng tair prif flaenoriaeth, gan nodi'r isafswm ar gyfer pob blaenoriaeth:

- o leiaf £33 miliwn i ariannu prosiectau cynhyrchu trydan ar raddfa fawr gan ddefnyddio cnydau ynni
- o leiaf £10 miliwn i ddatblygu prosiectau gwynt allan yn y môr ac
- o leiaf £3 miliwn ar gyfer cynlluniau gwresogi bio-màs ar raddfa fach.

Mae'r arian a ddyrannwyd i'r Gronfa yn rhan o becyn ariannu strategol cyffredinol sy'n targedu'r sectorau penodol hyn o'r diwydiant ynni adnewyddadwy. Yr Adran Fasnach a Diwydiant sy'n rhoi gweddill yr arian ar gyfer y pecyn hwn.

Cynigwyd saith grant o dan yr elfen gwresogi bio-mas ar raddfa fach ac mae'r cyfan yn awr wedi eu derbyn. Erbyn Ebrill 2005 mae 46 o sefydliadau wedi ei cwblhau. Mae un prosiect bio-mas mawr wedi derbyn ei gynnig grant o £10.4 miliwn. Diogelwyd gymeradwyaeth y Bwrdd er mwyn cynnig grant bio-mas mawr arall o £18 miliwn.

Yn sgil un cynnig sylweddol yn cael ei wrthod mae £4.9 miliwn yn parhau i fod ar gael i'w ddyrannu i brosiectau. Mae'r opsiynau dros y defnydd a wneir o'r arian yma wedi ei ddiogelu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Mae'n anodd iawn diffinio buddiolwyr y prosiectau a gefnogir gan y rhaglen ynni adnewyddadwy. O'r herwydd, penderfynodd y Gronfa beidio â gwerthuso'r rhaglen hon.



## Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

Mae'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg yn gynllun gwariant gwaddol gwerth £50 miliwn sy'n dyrannu arian sicr i gymunedau mewn 69 o ardaloedd ledled y DU. Mae'n rhan o'r cynllun cyfran deg ledled y Du, a sefydlwyd ar y cyd rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol a gynlluniwyd er mwyn targedu arian y loteri at gymunedau difreintiedig nad ydynt wedi derbyn eu cyfran deg o arian y Loteri hyd yn hyn. Ei fwriad yw adeiladu cynhwysedd a chynaladwyedd mewn cymunedau, datblygu cyfalaf cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd.



Lansiwyd y rhaglen yn swyddogol ym Mehefin 2003 pan drosglwyddwyd y gwaddol £50 miliwn i'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol a'r rhwydweithiau cysylltiedig ym mhob gwlad. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwr Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol yw dosbarthu arian drwy ei rwydwaith o asiantau lleol. Ym mhob ardal, mae panel o bobl leol â chyfrifoldeb dros benderfynu ar flaenoriaethau ardal, datblygu strategaeth ariannu (a amlinellir mewn dogfen flaenoriaeth) a gwneud argymhellion ar grantiau i'r asiant lleol.

Erbyn 30 Mawrth 2005, cymeradwywyd 44 dogfen flaenoriaeth gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol ac roedd £2.8 miliwn wedi ei ddyrannu i ddatblygiad rhaglen a phrosiectau gan asiantau lleol.

Comisiynwyd gwerthusiad pum mlynedd o'r cynllun Cyfran Deg gan bartneriaeth rhwng 'Baker Associates', 'Alison Millward Associates' ac 'InterAct'. Cychwynnodd y gwaith yn ystod haf 2003. Bydd y gwerthusiad yn asesu llwyddiant y cynllun o ran cyflawni ein nodau cyffredin. Bydd y gwerthusiad yn archwilio capasiti a chynaliadwyedd y sectorau gwirfoddol a chymunedol o fewn ardaloedd Cyfran Deg ar amrywiol gamau o'r cynllun. Bydd hefyd yn astudio pa mor effeithiol yw'r cynllun o ran cynnwys unigolion yn y gwaith o weithredu a rheoli prosiectau a ariennir, yn ogystal â'r broses ariannu ei hun. Yn rhan o hyn, bydd y gwerthusiad yn tynnu sylw at arfer da a amlygir. Rydym wedi cytuno ar 10 o ardaloedd astudiaeth achos gyda'r gwerthuswyr; cychwynnodd y gwaith maes yn ystod gwanwyn 2004.

# Adran dau

## Trawsnewid Eich Gofod

Prif nod y rhaglen £49.5 miliwn hon yw rhoi cyfle i gymunedau ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol, a'i wneud yn fwy diogel, yn lasach, yn lanach, ac yn fwy dymunol i'w ddefnyddio a sicrhau bod pawb yn gallu ei fwynhau.

Yn Lloegr, penderfynodd y Gronfa ategu'r rhaglen Cyfran Deg trwy neilltuo arian trawsnewid eich gofod ar gyfer y 51 o ardaloedd cyfran deg. Derbyniodd pob ardal rhwng £200,000 a £2.2 miliwn ac arweiniodd awdurdodau lleol geisiadau strategol am gyllid. Mae 50 allan o'r 51 cytundeb wedi derbyn eu tâl cyntaf erbyn hyn. Mae un cytundeb wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.

Yng Nghymru, rhoddwyd dyraniad dynodol i bob Partneriaeth Strategaeth Gymunedol i ddatblygu prosiect a oedd yn seiliedig ar ddatblygiad cynaliadwy. Cymeradwywyd ddau deg dau o brosiectau (un ymhob ardal awdurdod lleol) yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mis Gorffennaf a mis Medi 2003. Mae un cynnig grant wedi methu ac felly tynnwyd ef yn ôl, gyda chaniatâd yr ymgeisydd. Mae cynigion prosiect i adleoli'r arian wedi eu cyflwyno ac maent yn cael eu hystyried gan swyddogion.

Yn yr Alban, mae'r bartneriaeth 'Fresh Futures' yn rhedeg rhaglen ymgeisio agored, sy'n hynod boblogaidd. Yn yr wyth allan o naw cyfarfod panel dyrannu cyntaf a drefnwyd, derbyniodd partneriaeth 'Fresh Futures' 398 o geisiadau yn gofyn am gymorth gwerth £26.7 miliwn yn erbyn y gyllideb oedd ar gael o £4.54 miliwn. Mae 78 cais pellach i fynd i gyfarfod cyntaf y panel. Hyd yn hyn, mae arian wedi ei ddyrannu i 78 o brosiectau yn yr Alban ac mae taliadau o £2.35 miliwn wedi ei wneud i bartneriaeth 'Fresh Futures'. Mae pedwar prosiect wedi tynnu eu cais yn ôl o'r rhaglen. Mae'r partner dyfarnu yn parhau ar darged i ddyfarnu'r holl arian erbyn Mai 2005 pryd cynhelir y pwyllgor panel olaf.

Yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliodd y Gronfa raglen ymgeisio agored, a ddaeth i ben ar gyfer ceisiadau yn Chwefror 2003. Mae cyfanswm o £2.1 miliwn wedi ei ddyrannu i 14 o brosiectau. Mae 13 o'r 14 prosiect wedi derbyn tâl cyntaf ac mae disgwyl i'r prosiect olaf dynnu ei tâl cyntaf i lawr yn ystod y misoedd nesaf.

Adroddodd blwyddyn gyntaf y gwerthusiad gan 'SQW' frwdfrydedd mawr dros y rhaglen ledled y DU. Roedd cymunedau lleol wedi eu cynnwys wrth adnabod blaenoriaethau ac wrth weithio ag eraill i ddatblygu a rhedeg prosiectau, gan felly helpu i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol yn ogystal â gwella'r amgylchedd. Mae gan brosiectau ddiddordeb mewn rhwydweithio a rhannu arfer da, a bydd y Gronfa a'r gwerthuswyr yn gweithio i'w cefnogi yn hyn o beth.



## Arian i Bawb

Roedd £60 miliwn ar gael gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd rhwng 2001 a 2005 ar gyfer cynlluniau grant graddfa fach ymhob gwlad yn y DU, gan ddyrannu grantiau o hyd at £5,000 i brosiectau sy'n cynnwys pobl yn y gymuned leol mewn gweithgareddau iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Mae trefniadau, ar y cyd â'r Dyrannwyr Loteri eraill, wedi eu gwneud yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon mai Gronfa Gymunedol fydd yn gweinyddu'r arian sydd ar gael drwy Arian i Bawb. Yn 2004-05, roedd gwerth yr arian Cronfa Cyfleoedd Newydd a ddyrannwyd gan bob un o gynlluniau Arian i Bawb fel a ganlyn: Cymru – £1,094,897, Yr Alban – £1,955,940, Gogledd Iwerddon – £776,630.

Yn Lloegr, mae Arian i Bawb yn gynllun a gaiff ei weithredu ar y cyd rhwng Dyrannwyr arian y Loteri ac fe'i sefydlwyd gan Orchymyn Statudol. Yn 2004-05, dyrannodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd £10,640,439 o arian drwy gynllun Arian i Bawb Lloegr.

# Adran tri

## Cronfa Loteri Fawr – Edrych ymlaen

**Yn yr adran hon rydym yn edrych ymlaen at nifer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar ein cyllid a'r modd rydym wedi ein trefnu i'w ddosbarthu.**

Ym mis Mehefin 2004 a mis Ionawr 2005, cynhaliodd y Gronfa Loteri Fawr ddau ymgynghoriad DU-eang mawr â'i rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach. Ers Mawrth 2005, mae'r Bwrdd wedi bod yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i raglenni grant yn y dyfodol.

Roedd y cyhoeddiad ym mis Mawrth yn Lloegr yn cynnwys y canlynol:

- ▶ £155 miliwn i ddatblygu a gwella cyfleusterau a gweithgareddau chwarae.
- ▶ £354 miliwn i wella amgylcheddau gwledig a threfol y mae cymunedau'n gallu cael mynediad gwell iddynt a'u mwynhau, gan gynnwys £90 miliwn i ariannu parciau.
- ▶ £163 miliwn i brosiectau sy'n hyrwyddo lles, gan gynnwys ymdrin â materion iechyd meddwl, gwella gweithgarwch corfforol ac atal camddefnydd alcohol (mae'r swm hwn yn cynnwys £45 miliwn i brosiectau sy'n hyrwyddo bwyta'n iach i blant a'u cymunedau).
- ▶ £155 miliwn i helpu i ddatblygu'r sector gwirfoddol trwy ddarparu gweithwyr i roi cyngor am gyllid, canolfannau adnoddau a chymorth i ardaloedd a chanddynt ychydig iawn o allu sector gwirfoddol neu sector cymunedol, neu ddim o gwbl. Hefyd, bydd yr arian yn helpu sefydliadau i rannu dysg a chymryd rhan mewn partneriaethau a strategaethau lleol a fydd yn hyrwyddo trefn lywodraethol dda yn y sector.
- ▶ £160 miliwn i Arian i Bawb.
- ▶ £140 miliwn i raglen grantiau Trawsnewid sy'n cefnogi prosiectau cyfalaf mawr ledled y DU gyfan.
- ▶ £60 miliwn i brosiectau sy'n helpu pobl dramor mewn angen, fel rhaglen DU-eang unwaith eto.

Rydym yn gweithio ar y rhaglenni newydd cyntaf, a disgwylir y byddant yn agor i geisiadau yn gynnar yn 2006. Byddwn yn parhau i ymgynghori a chydweithio â sefydliadau a phartneriaid allweddol wrth i'r rhaglenni gael eu datblygu. Y nod yw bod yn ariannwr deallus, gan fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau dosbarthu gwahanol, a sicrhau bod hygyrchedd a chymorth i ymgeiswyr a derbynwyr wrth galon ein hymagwedd.

Gwneir penderfyniadau tebyg yn ddiweddarach yn 2005, a fydd yn nodi'r rhaglenni grant newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyfres o fesurau a fydd yn helpu cymunedau i gael mynediad i gyllid. Byddwn yn:

- mabwysiadu ymagwedd portffolio gymysg tuag at ariannu, gyda dim llai na thraean o'r incwm yn cael ei ddosbarthu drwy ffrwd ariannu hygyrch, nad yw'n rhy orchmynnol ac a lywir gan y galw, gan gynnwys y cynllun Arian i Bawb estynedig
- cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran hyd y cyfnod ariannu
- mabwysiadu'r egwyddor adennill costau'n llawn trwy ganiatáu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol adennill yr holl gostau cyffredinol dilys
- sicrhau bod 60 – 70 y cant o'n cyllid yn mynd i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol

- cryfhau ein swyddfeydd rhanbarthol i gynyddu'r pwyslais ar ddatblygu polisïau, allgymorth, partneriaethau a chysylltiadau allanol
- sefydlu dwy ganolfan weithredu dros Loegr, yn Newcastle a Birmingham, i'w gwneud yn haws cael mynediad i gyllid ac i sicrhau polisi ariannu cryf ac unedig
- gwneud arbedion effeithlonrwydd o 10-20 y cant ar gostau cynnal, i'w hail-fuddsoddi mewn ariannu prosiectau.

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn ddatblygiad pwysig i ni, ac rydym yn rhoi prawf ar ddulliau newydd i gynnwys pobl wrth benderfynu ble y dylai arian ar gyfer achosion da fynd. O dan y Gronfa Pobl Ifanc, rydym wedi recriwtio pobl ifanc i eistedd ar Bwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i wneud penderfyniadau ariannu. Rydym wedi cynnal ymgynghoriad helaeth ar raglenni newydd, gan gynnwys comisiynu ymchwil ynghylch sut mae pobl sy'n chwarae'r Loteri'n meddwl y dylid gwario arian y Loteri. Rydym hefyd yn archwilio sut y gallwn annog ymglymiad y cyhoedd ar raddfa eang wrth benderfynu pa brosiectau fydd yn cael eu hariannu o dan ein rhaglen grantiau Trawsnewid.

Rydym wedi ymrwymo i werthuso a dysgu, rhannu arferion da a dylanwadu ar bolisïau'n genedlaethol ac yn lleol.

Lle bo'n briodol, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydategu blaenoriaethau a rhaglenni'r Llywodraeth i gael yr effaith fwyaf. Ail-gadarnhawyd ein hymroddiad i helpu pobl a chymunedau mewn angen. Cydnabyddwn y bydd hyn yn parhau i olygu gwneud dewisiadau anodd i gefnogi prosiectau sy'n gwella bywydau pobl mewn angen, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ariannu prosiectau sy'n amhoblogaidd ymhlith rhai. Ar yr un pryd, byddwn yn cefnogi achosion poblogaidd ac yn falch o wneud hynny.

Yn bwysicaf oll, nid y Gronfa Gymunedol na'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fydd y Gronfa Loteri Fawr. Bydd yn ariannwr newydd a gwahanol sy'n pryderu nid am i bwy rydym yn rhoi'r arian (p'un ai'n sectorau neu'n sefydliadau penodol) ond beth rydym yn ei ariannu a phwy sy'n cael budd ohono.

# Adran pedwar

## Gofal Cwsmer

**Yn ystod 2004/2005, datblygwyd Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd gan y Gronfa Loteri Fawr. Datblygwyd hwn ar y cyd â saith mudiad arall sy'n dosbarthu arian y Loteri i roi mwy o gysondeb i'r ffordd y mae dosbarthwyr y Loteri'n gweithio. Gallwch gwyno os methwn â chyrraedd y safonau a nodir yn y siarter.**

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu dulliau o fonitro ac adrodd ar ein llwyddiant wrth fodloni'r safonau hyn. Caiff arolwg newydd i fonitro safon perfformiad y Gronfa Loteri Fawr, yn eich barn chi, ei ddatblygu ar gyfer 2005/06.

Eleni, dechreuodd naw aelod o staff ar gwrs saith mis i ennill cymhwyster BTEC mewn Gofal Cwsmeriaid. Bydd yr aelodau staff hyn yn ymddwyn fel pleidwyr gofal cwsmeriaid, gan ledaenu arferion da ar draws y sefydliad.

I ategu cyfeiriad e-bost presennol y gwasanaeth cwsmeriaid, sefydlwyd llinell ffôn gwasanaeth cwsmeriaid bwrpasol i dderbyn eich cwynion a'ch sylwadau am ein gwasanaeth.

## Cwynion

Mae tri cam i'n trefn gwynion: Yng ngham un byddwn yn gwahodd y cwsmer i gysylltu â'r unigolyn neu adran y maent yn anhapus ag ef. Ceisiwn ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl yn y modd yma.

Os yw'r cwsmer yn parhau i fod yn anhapus gallant yna barhau i gam dau, ble bydd y cynghorydd gofal cwsmer ag ansawdd yn trefnu i'r Prif Weithredwr ymateb.

Cam tri – Os yw'r cwsmer yn parhau i fod yn anhapus yna gallant gyfeirio eu cwyn i'n Adolygydd Cwynion Annibynnol. Nid yw'r ACA yn rhan o'n sefydliad ac mae eu ymchwiliadau a'u hargymhellion yn ddiduedd.

### Cwynion Cam Un

Yn ystod 2004/2005, cofnododd y Gronfa Loteri Fawr 44 o gwynion cam un, er bod nifer o'r rhain, ar ôl eu harchwilio'n fanylach, yn geisiadau am eglurhad pellach neu'n gwynion ynghylch sefydliadau rydym wedi'u hariannu yn unig, yn hytrach nac am y gwasanaeth y mae'r Gronfa Loteri Fawr ei hun wedi'i ddarparu.

Credwn fod llawer o gwynion heb eu cofnodi o hyd, am eu bod yn cael eu datrys yn gyflym ar y ffôn neu fel rhan annatod o'r broses asesu. Rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn cofnodi'r wybodaeth hon i ddarparu gwybodaeth fwy cywir yn y dyfodol.

### Cwynion Cam Dau

Yn ystod 2004/2005, derbyniodd y Gronfa Loteri Fawr 15 o gwynion cam dau, h.y. nad oedd wedi cael eu datrys yn foddhaol ar lefel swyddog ac a adolygwyd gan y Prif Weithredwr o ganlyniad i hynny.

Cwynion Cam Dau

| Cyfanswm | Cadarnhawyd | Cadarnhawyd yn Rhannol | Heb eu Cadarnhau |
|---|---|---|---|
| 15 | 3 | 3 | 9 |

**Cadarnhawyd:**

Rhoddwyd gwybodaeth anghywir am ganlyniad cais, a nodwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod y wybodaeth ar-y-sgrîn a oedd ar gael i'r aelod o staff a oedd yn ymdrin â'r alwad wedi'i osod yn wael. Rhoddwyd gweithdrefn wirio ar waith i atal hyn rhag digwydd eto.

Cafwyd dwy gŵyn am gau rhaglen yn sydyn. Ymddiheuriom am hyn ac esbonio'r amgylchiadau.

**Cadarnhawyd yn Rhannol:**

Ymddiheuriom am beidio ag ymateb i lythyr, ond nid oeddem yn derbyn ein bod heb roi gwybod i'r sefydliad am newidiadau i'r rhaglen.

Mewn achos arall, ymddiheurwyd am gyfathrebu gwael a diffyg darparu gofal cwsmeriaid derbyniol, ond nid oeddem yn derbyn bod hyn wedi effeithio ar ganlyniad yr asesiad.

Yn yr achos olaf, ymddiheurwyd am sylweddoli'n hwyr nad oedd sefydliad yn gymwys i wneud cais am arian, gan arwain at wastraff gwaith ar ran yr ymgeisydd. Gwnawn ein gorau i osgoi'r fath gamgymeriadau ond, yn anffodus, maent yn digwydd o bryd i'w gilydd. Erbyn hyn, tynhawyd y gweithdrefnau i geisio ei atal rhag digwydd eto.

**Heb eu Cadarnhau:**

Ar y cyfan, daeth y rhain oddi wrth ymgeiswyr siomedig a deimlai ein bod wedi methu ag asesu eu ceisiadau'n gywir. Roedd y rhain naill ai'n honiadau nas profwyd, neu am fod ymgeisydd wedi camddeall y broses ymgeisio. Yn yr achosion hyn, cynigiwyd eglurhad pellach am y rhesymau dros eu gwrthod.

Mewn un achos, honnwyd ein bod wedi dosbarthu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y wybodaeth berthnasol gennym erioed, felly ni chadarnhawyd y gŵyn.

## Adolygydd Cwynion Annibynnol – adroddiad blynyddol

Ni dderbyniais unrhyw gwynion i'w hadolygu gan y Gronfa eleni.

Yn ystod y flwyddyn, cefais fy ngwahodd gan y Gronfa Loteri Fawr i helpu wrth adolygu ei gweithdrefnau cwyno a'r modd roedd yn ymdrin â chwynion wrth baratoi ar gyfer mabwysiadu gweithdrefnau cyffredinol ar draws holl Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, a oedd yn cael eu datblygu ar y pryd gan Fforwm y Loteri. Roeddwn hefyd yn falch iawn o gael fy mhenodi gan y Fforwm, ynghyd â Syr David Yardley, i fod yn Adolygwyr Cwynion Annibynnol ar ran holl Ddosbarthwyr y Loteri o ddechrau 2005/06.

**Clive Wilson**, Adolygydd Cwynion Annibynnol

## Rhyddid Gwybodaeth

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym ar 1 Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i unigolion ofyn am unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Gronfa Loteri Fawr, yn amodol ar eithriadau. Rhaid darparu'r wybodaeth hon o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rhwng 1 Ionawr 2005 a 31 Mawrth 2005, cafodd y Gronfa Loteri Fawr 45 cais, gan ymateb mewn ychydig dros naw diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Cafodd ychydig o'r wybodaeth ei heithrio rhag cael ei rhyddhau, ac ni chafwyd unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau.

Daeth y ceisiadau o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys newyddiadurwyr, ymgeiswyr am grantiau ac aelodau'r cyhoedd â chanddynt ddiddordeb mewn prosiectau.

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw ac annog cyhoeddi ei chofnodion drwy ei Chynlluniau Cyhoeddi.

# Adran pump
## Cydraddoldeb

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb wrth galon ein busnes, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr DU-eang. Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'n gwaith yn cynnwys nifer sy'n amlygu'r ymagwedd hon. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnwys Tegwch, Hygyrchedd a Chynnwys pobl. Ein nod yw creu diwylliant lle caiff y gwerthoedd hyn eu gwireddu. Rydym hefyd wedi cytuno ar set o egwyddorion i'n helpu i ddeall sut y gallwn roi cydraddoldeb ar waith. Yr egwyddorion hyn yw hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth cymunedau, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol a chyfrannu at leihau anfantais ac allgáu.**

Mae anghenion pobl anabl wedi bod yn ffocws i ni fel cyflogwr. I'r perwyl hwn, rydym yn ceisio ennill nod ansawdd y Symbol Anabledd. Bydd ennill y nod hwn yn dangos bod gennym ymagwedd gadarnhaol at anabledd. Bydd yn arwydd gweladwy ein bod yn cymryd camau i gyflogi a datblygu pobl anabl.

Credwn ei bod yn bwysig gwrando ar farn pobl o'r tu allan i'r sefydliad wrth ffurfio ein busnes. Mae ein Fforwm Cydraddoldeb yn cynnwys ymgynghorwyr arbenigol sy'n cynrychioli ystod eang o faterion cydraddoldeb. Credwn hefyd fod arweinyddiaeth gref yn hanfodol. Am y rheswm hwn, mae ein Fforwm yn cynnwys aelodau o'n Bwrdd ni hefyd.


Rydym wedi gweithio'n ddiwyd i gynnwys materion cydraddoldeb yn ein holl raglenni a pholisïau newydd. Gelwir y broses hon yn brif-ffrydio. Rydym yn cydnabod mai proses hirdymor yw hon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'n staff ystyried pa effaith y gallai ein polisïau a'n rhaglenni eu cael ar bobl o gefndiroedd gwahanol.
Yna, rhaid i'n staff ystyried a yw'r effeithiau hynny'n deg ac yn gyfiawn. Os nad ydynt, yna rhaid iddynt ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i gael gwared arnynt neu eu lleihau. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio barn a phrofiadau'r rheiny yr effeithir arnynt gan ein busnes i lywio'n safbwynt ni.

Rydym wedi sefydlu tîm prosiect ymroddedig i yrru ein gwaith o brif-ffrydio cydraddoldeb yn ei flaen. Rhoddwyd y dasg i'r tîm hwn o ddatblygu systemau a chymorth i ganiatáu i'n staff wneud prif-ffrydio cydraddoldeb yn realiti bob dydd. I gefnogi eu hymdrechion, cafodd cydraddoldeb ei integreiddio i'n trefniadau cynllunio busnes ac adrodd. Rydym hefyd wedi cytuno ar ymagwedd tuag at fesur ein perfformiad o ran cydraddoldeb yn y dyfodol. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys y gofyniad bod yr holl staff yn cynhyrchu amcanion cydraddoldeb personol sy'n gysylltiedig â'u swyddi ac â'n amcanion strategol. Caiff eu perfformiad wrth fodloni'r amcanion hyn eu mesur fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.


Mae ein gwaith o brif-ffrydio cydraddoldeb hefyd yn ein galluogi i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (gweler yr adroddiad ar waith Swyddfa Gogledd Iwerddon). Rydym hefyd wedi parhau i wella wrth fodloni'r gofynion o dan y Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000. Caiff y darganfyddiadau allweddol a'r camau a gynlluniwyd o'r data cyflogaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol eu cyflwyno dros y dudalen.

Byddwn yn parhau i fonitro ystadegau cydraddoldeb perthnasol a datblygu polisïau a rhaglenni a fydd yn lledu mynediad i'n cronfeydd ac ymdrin ag anghydraddoldebau yn ein harferion.

## Ystadegau Cydraddoldeb




*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*



# Adran pump

Cyfansoddiad y staff yn ôl Rhyw

| | Cronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|---|
| Staff Gwrywaidd | 32.3% | 47.7% | 56.1% |
| Staff Benywaidd | 67.7% | 52.3% | 43.9% |

*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*

Cyfansoddiad y staff yn ôl Anabledd

| | Cronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|---|
| Staff ag anabledd | 2.5% | 3.6% | 12.2% |
| Staff heb anabledd | 97.5% | 96.4% | 87.8% |

*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*

## Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg wedi ei gyhoeddi a'u gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n manylu ar sut yr ydym yn darparu gwasanaeth deg i'r boblogaeth Saesneg a Chymraeg. Mae'r Gronfa'n adnabod fod galluogi pobl i gysylltu â'r sefydliad drwy eu dewis iaith yn fater o gyfle cyfartal ac arfer da.

Cyfrifoldeb staff swyddfa Cymru yw monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a bydd Cyfarwyddwr Cymru yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein perfformiad yn erbyn y targedau a gyhoeddwyd.

Y cyraeddiadau nodedig yn ystod 2004/05 oedd:

- Lansiwyd gwefan y Gronfa Loteri Fawr yn y Saesneg a'r Gymraeg ar Fehefin 1 2004.

Mae staff y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi bod yn cydweithio'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn ac ar ôl yr uniad i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr ar y broses o ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr ar sail cryfderau a phrofiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

# Adran chwech

## Cofrestr o fuddiannau

O dan ein Cod Ymarfer, mae'n ofynnol i holl aelodau Bwrdd a phwyllgorau ac aelodau staff y Gronfa Loteri Fawr ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol. Cedwir datganiadau buddiannau Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Pwyllgorau gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd drwy ysgrifennu at Brif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr.

### Tryloywedd ac atebolrwydd

Rydym yn dod o dan weithdrefnau'r Ombwdsmon Seneddol. Rydym hefyd yn gweithredu Cod y Llywodraeth ynghylch Mynediad i Wybodaeth.

# Adran saith

## Adolygiad ariannol

**Nodir canlyniadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd am y flwyddyn tan 31 Mawrth 2005 a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn y cyfrifon blynyddol ar dudalennau Adran deg.**

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn 33.3 y cant o'r arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer yr achosion da. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd £452 miliwn mewn incwm Loteri a £25 miliwn mewn incwm buddsoddiad. Caiff hwn ei fuddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Yn ystod ei hoes, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi derbyn £2.9 biliwn gan y Loteri. Nid yw Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn rheoli buddsoddi'r Arian; yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am hynny. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 12 i'r cyfrifon blynyddol. Mae nodyn 20 i'r cyfrifon blynyddol yn nodi'r rheswm y mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i unrhyw risgiau sylweddol o du cyfraddau llog.

Yn ystod 2004/05, cynigiodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd gyfanswm o £550 miliwm mewn grantiau newydd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ymrwymiadau caled gwerth £1,130 miliwn ar gyfer cynigion a dderbyniwyd ac a oedd yn ymaros taliad, gydag ymrwymiadau meddal gwerth £64 miliwn pellach o ran dyfarniadau sy'n ymaros cael eu derbyn. Yn ystod ei hoes, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi dyfarnu grantiau gwerth £3 biliwn. Ceir manylion llawn rhaglenni grantiau a dyfarniadau a wnaed mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Talwyd cyfanswm o £491 miliwn i dderbynwyr grantiau yn ystod 2004/05. Gwneir taliadau i dderbynwyr grantiau ar sail ceisiadau gan dderbynwyr a thystiolaeth o wariant yn y gorffennol neu wariant sydd ar ddigwydd.

Yn unol â'i pholisi mae mantol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi parhau i leihau o £737 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £691 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i dalu grantiau o £1,194 miliwn o'u cymharu â'r fantol hon yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sefyllfa sy'n cynrychioli gor-ymrwymiad o £503 sef rhyw 14 mis o'r incwm a ragwelir.

Mantol darged hirdymor y Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yw £240 miliwn (gweler nodyn 1.3). Y fantol darged a adroddwyd yng nghyfrifon blynyddol y llynedd ar gyfer 31 Mawrth 2005 oedd £580 miliwn. Ni chyrhaeddwyd y targed hwn oherwydd

- derbyn £47 miliwn mwy o incwm nag a ragwelwyd
- £9 miliwn yn llai o wariant ar gostau gweithredu na'r rhagolygon
- £70 miliwn yn llai o daliadau grant na'r disgwyl
- cynnydd o £19 miliwn mewn mantolau banc a gedwir yn lleol.

Cafwyd y diffyg mewn taliadau grant bron yn gyfan gwbl yn y rhaglen chwaraeon ac AG mewn ysgolion, ac yn sgil oedi o ran derbynwyr grantiau'n cychwyn ar brosiectau oherwydd, er enghraifft, oediadau wrth dderbyn caniatâd cynllunio; prinderau mewn contractwyr adeiladu a thrwy optimistiaeth gan y Gronfa yn y cyflymder y byddai prosiectau adeiladu'n cael eu cyflawni.

Yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw, costau gweithredu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd oedd £35 miliwn. Mae nodyn 8 i'r cyfrifon blynyddol yn adrodd y dangosydd perfformiad ariannol. Dyma gynnydd o £2.8 miliwn ar wariant y llynedd, sy'n adlewyrchu costau unigryw sy'n gysylltiedig â'r uniad gweinyddol gyda'r Gronfa Gymunedol a'r costau o weithredu'r rhaglenni cyn-filwyr a Cronfa Pobl Ifanc.

Oherwydd ei pholisi o or-ymrwymo, mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddiffyg ariannol o £53 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Ychwanegir y diffyg ariannol hwn at y diffyg ariannol cronnus o flynyddoedd blaenorol, ac erbyn hyn mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddiffyg ariannol o £407 miliwn ar gronfeydd dargadwedig. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan Fwrdd y Gronfa Gymunedol a'i hardystio gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl cymryd i ystyriaeth gofyniad llif arian dyfarniadau grant, y mae nifer ohonynt i ariannu prosiectau rhwng tair a phum mlynedd. Nodir y rhagamcanion llif arian yn Nodyn 20 i'r cyfrifon.

# Adran wyth

## Cysylltu â ni

**Swyddfa gorfforaethol**
1 Plough Place
London
EC4A 1DE

Ffôn: 020 7211 1800

**Gogledd Iwerddon**
1 Cromac Quay
Cromac Wood
Ormeau Road
Belfast
BT7 2JD

Ffôn: 028 9055 1455

**Yr Alban**
1 Atlantic Quay
1 Robertson Street
Glasgow
G2 8JB

Ffôn: 0141 242 1400

**Cymru Caerdydd**
6ed Llawr
1 Kingsway
Caerdydd
CF10 3JN

Ffôn: 029 2067 8200

**Cymru Y Drenewydd**
2il Lawr
Tŷ Ladywell
Y Drenewydd
Powys
SY16 1JB

Ffôn: 01686 611700

**East Midlands**
Chiltern House
St. Nicholas Court
25-27 Castle Gate
Nottingham
NG1 7AR

Ffôn: 0115 934 2993

**Dwyrain Lloegr**
Elizabeth House
2nd Floor
1 High Street
Chesterton
Cambridge
CB4 1YW

Ffôn: 01223 449000

**Swyddfa Ranbarthol Llundain**
1 Plough Place
London
EC4A 1DE

Ffôn: 020 7842 4000

**Gogledd-ddwyrain Lloegr**
6th Floor
Baron House
4 Neville Street
Newcastle upon Tyne
NE1 5NL

Ffôn: 0191 255 1100

**Gogledd-orllewin Lloegr**
Ground Floor
Dallam Court
Dallam Lane
Warrington
WA2 7LU

Ffôn: 01925 626827

**De-ddwyrain Lloegr**
3rd Floor
Dominion House
Woodbridge Road
Guildford
GU1 4BN

Ffôn: 01483 462900

**De-orllewin Lloegr**
Beaufort House
51 New North Road
Exeter
Devon
EX4 4EQ

Ffôn: 01392 849700

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Edmund House
8th Floor
12-22 Newhall Street
Birmingham
B3 3NL

Ffôn: 0121 200 3500

**Yorkshire & Humber**
2nd Floor
Carlton House
34 St. Pauls Street
Leeds
West Yorkshire
LS1 2AT

Ffôn: 0113 290 2902

# Adran naw

## Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor

**Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu rhaglen grantiau'r Gronfa yng nghyd-destun y Cyfarwyddiadau Polisi; am gyflawni'r targedau a bennwyd ar gyfer mentrau yn y cyfarwyddiadau hynny; am sicrhau, gyda chyngor y Prif Weithredwr, y glynir at y safonau uchaf o atebolrwydd cyhoeddus, ac am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau.**

Gwasanaethodd yr aelodau canlynol o Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mai 2004 tan i Fwrdd cydffiniol y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gael ei ffurfio ar 1 Mehefin 2004.

**Y Farwnes Jill Pitkeathley OBE**
Cadeirydd

**Yr Athro Eric Bolton CB**
Is-gadeirydd
Cadeirydd Ysgolion a Grŵp Llywio Gwerthuso

**Jill Barrow**
Aelod Lloegr
Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon a 'Sport England'

**David Campbell CBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer Cyfleusterau AG a Chwaraeon yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Dir yr Alban

**Tom Davies**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru Gweithgareddau i Bobl Ifanc
Cadeirydd Pwyllgor Cymru y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd Pwyllgor Cymru Trawsnewid Eich Lle

**Yr Athro Breidge Gadd CBE**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Gogledd Iwerddon
Cadeirydd y Grŵp Llywio Gwerthuso Gofal Plant

**David Carrington**
Aelod Cyffredinol

**Professor Siân Griffiths OBE**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd y Grŵp Llywio Gwerthuso Iechyd

**Polly Hudson**
Aelod Cyffredinol

**Dugald Mackie**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd y Grŵp Llywio Cymunedau'n Manteisio ar Ddysgu Gydol Oes a Gwerthuso

# Adran naw

## Aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr o 1 Mehefin 2004



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd
Cyd-gadeirydd Pwyllgor y Fforwm Loteri Fawr/Comisiwn y Mileniwm
Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogau



**Tom Davies**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon



**Y Fonesig Valerie Strachan DCB**
Is-gadeirydd
Cadeirydd Pwyllgor y Grantiau Strategol




**Roland Doven MBE**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd y Fforwm Cydraddoldeb



**Dr Samuel Burnside**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Ffyrdd Actif o Fyw



**Yr Athro Breidge Gadd CBE**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd y Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol, Pwyllgor Gogledd Iwerddon



**David Campbell CBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Dir Yr Alban




**John Gartside OBE**
Aelod Lloegr



**Paul Cavanagh**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Cronfa Pobl Ifanc



**Douglas Graham**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor 'Active Futures' Yr Alban
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



**Taha Idris**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru Mentro Allan



**Dugald Mackie**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd Pwyllgor Lloegr Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau



**John Naylor OBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Cymunedau yr Alban
Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Gwerthuso a Dysgu Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc yr Alban



**Esther O'Callaghan**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd Pwyllgor Lloegr Cronfa Pobl Ifanc



**Anna Southall**
Aelod Cyffredinol



**Huw Vaughan Thomas**
Aelod Cymru
Cadeirydd y Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol, Pwyllgor Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru y Gronfa Pobl Ifanc



**Diana Whitworth**
Aelod Cyffredinol

# Adran deg

## Cyfrifon Blynyddol y Gronfa Cyfleoedd Newydd am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005

## Rhagair i'r Cyfrifon

**Sefydlwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddyfarnu grantiau'r Loteri Genedlaethol i brosiectau addysg, iechyd a'r amgylchedd o dan fentrau a bennwyd gan y Llywodraeth. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gorff cyhoeddus anadrannol DU-eang, a reoleiddir yn unol â'r Datganiad Rheoli, y Cyfarwyddiadau Ariannol a'r Cyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.**

Ym mis Chwefror 2003, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol (enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol) a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddod at ei gilydd i greu corff newydd i ddosbarthu arian y Loteri, gan fanteisio ar gryfderau'r ddau gorff presennol. Ym mis Tachwedd 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr y ddau gorff a dechreuodd ffurfio tîm rheoli ar y cyd i arwain y corff dosbarthu newydd. Mae'r cyfuniad gweinyddol hwn wedi parhau yn ystod 2004/05, ac ar 1 Mehefin 2004 lansiwyd y Gronfa Loteri Fawr â chadeirydd a Bwrdd newydd. Y Gronfa Loteri Fawr yw enw gweithredu'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar y cyd; mae'r ddau gorff yn parhau fel endidau statudol gwahanol hyd nes cymeradwya'r Senedd ddeddfwriaeth newydd.

Cyn 1 Mehefin 2004 roedd Bwrdd Llywodraethu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cynnwys 12 aelod a'r Cadeirydd, y penodwyd pob un ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mai 2004 ymddiswyddodd pob aelod o'r Bwrdd Llywodraethu. Penodwyd Cadeirydd a Bwrdd cydffiniol newydd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr ar 1 Mehefin 2004 (fel Bwrdd y ddau sefydliad etifeddiaeth). Ceir enwau holl aelodau'r Bwrdd mewn man arall yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir cofrestr o fuddiannau aelodau'r bwrdd ac mae ar agor i'r cyhoedd. Ceir mynediad i'r gofrestr drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr.

### Canlyniadau am y flwyddyn

Cafwyd diffyg o £53 miliwn ar gyfer y flwyddyn gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ychwanegir hyn at y diffyg net cronnus o'r blynyddoedd blaenorol ac erbyn hyn mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddiffyg o £407 miliwn ar gronfeydd wrth gefn argadwedig. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'i hardystio gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ystyried gofyniad llif arian dyfarniadau grant, y mae nifer ohonynt i gyllido prosiectau tair i bum mlynedd. Nodir rhagamcaniadau llif arian yn Nodyn 20 y cyfrifon.

Cynhwysir adolygiad ariannol llawn am y flwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad o weithgareddau a datblygiadau'r dyfodol

Prif weithgarwch y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw dosbarthu grantiau, a hynny'n bennaf i helpu i fodloni anghenion y rheiny sydd o dan anfantais ledled y DU. Yn ystod 2004/2005 parhaodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd i wneud dyfarniadau, i dalu grantiau ac i fonitro cydymffurfiad derbynwyr grantiau â thelerau ac amodau'r grant. Mae'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i'r mwyafrif o raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi mynd heibio erbyn hyn, ac mae llawer o'r rhaglenni wedi ymrwymo'n llawn. Nodir manylion llawn am y rhaglenni hyn yn Adran 3 o'r Adroddiad Blynyddol. Eleni, derbyniodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd Gyfarwyddiadau Polisi yn darparu cyllid ar gyfer y Gronfa Pobl Ifanc a'r Grantiau Trawsnewid. Lansiwyd sawl rhaglen o dan fenter y Gronfa Pobl Ifanc, a gwnaed dyfarniadau.

Lle bo'n bosibl, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud y defnydd gorau o'r cyrff priodol i ddosbarthu'r gwasanaethau penodol drwy ddefnyddio ei phwerau dirprwyo, a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. Dirprwyir nifer o raglenni grant i Bartneriaid Dyfarnu, a rhestrir y cynlluniau hyn ar Dudalen 71 o'r cyfrifon hyn.

Yn 2004/05 cwblhawyd y broses o gymathu swyddogaethau corfforaethol a Swyddfeydd Gwlad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Datblygwyd cynlluniau ar gyfer cymathu'r gweithgareddau dyfarnu grantiau a chânt eu gweithredu yn ystod 2005/06. Yn ogystal, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ystyried ei gofynion o ran adeiladau yn y dyfodol, a rhesymolir nifer y safleoedd y bydd yn eu defnyddio yn ystod y tair neu bedair blynedd nesaf.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr, yn parhau i gyflwyno mentrau presennol y Gronfa ac i gyflwyno rhaglenni newydd yng nghyd-destun y Cyfarwyddiadau Polisi diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nodir datblygiadau ar gyfer dyfodol y Gronfa Loteri Fawr yn rhagair y Cadeirydd i'r adroddiad blynyddol.

## Asedau sefydlog

Nodir symudiadau asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 10 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn, daeth yr ychwanegiadau at asedau sefydlog i £0.3 miliwn (2003/04 £0.5 miliwn) sy'n gysylltiedig ag ailwampio'r swyddfeydd yn Llundain.

## Digwyddiadau ôl fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau o bwys a gafodd effaith ariannol ar y cyfrifon blynyddol hyn rhwng 31 Mawrth 2005 a llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.

## Gweithwyr, cyfleoedd cyfartal ac ymgynghori

Fel cyflogwr, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd cyfartal. Disgrifir hyn yn fanylach yn yr Adroddiad Blynyddol.

Seiliwyd y trefniadau ar gyfer tâl ac amodau ar arfer gorau yn y sector cyhoeddus, ac mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi sefydlu ystod o bolisïau cyflogi sy'n dangos ei hymrwymiad i fod yn gyflogwr teg. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad staff, a sefydlwyd trefniadau cynhwysfawr hefyd. Mae'r holl drefniadau a'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ochr yn ochr â rhai'r Gronfa Gymunedol, er mwyn sefydlu telerau ac amodau cyffredin i holl staff y Gronfa Loteri Fawr. I annog cyfathrebu a pherthynas dda rhwng y Bwrdd, y rheolwyr a'r staff ar bob lefel, cydnabuwyd yr undeb llafur 'Prospect'.

# Adran deg

Golyga natur gweithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fod nifer o staff yn gweithio'n agos â thîm yr uwch reolwyr a'r Bwrdd, er enghraifft, wrth ddatblygu ac arfarnu rhaglenni. Mae rhai aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, sy'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r meddwl y tu ôl i ddatblygiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'i gweithrediadau. Yn ychwanegol, ymgynghorir â'r staff ynghylch y cynllun corfforaethol ac ynghylch diwygio'r cynllun strategol. Mae uwch reolwyr y Gronfa Cyfleoedd Newydd, trwy gyfarfodydd grŵp rhaeadrol a'u hygyrchedd, yn sicrhau yr ymdrinnir â phryderon y staff mewn da bryd.

## Datganiad o bolisi ac arferion talu

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw talu ei holl gredydwyr o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni negodwyd telerau ac amodau eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Canllaw Arferion Talu Gwell. Yn y flwyddyn dan sylw, talwyd 88 y cant (2003/2004 94 y cant) o'r holl gredydwyr o fewn trideg diwrnod o dderbyn anfoneb.

## Ewro

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi asesu effaith yr Ewro ar ei gweithrediadau. Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno'r Ewro yn cael effaith berthnasol ar weithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd na'i pherthynas â chwsmeriaid a chyflenwyr.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, mae'n ofynnol bod cyfrifon blynyddol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Felly, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal yr archwiliad allanol ar y Gronfa Cyfleoedd Newydd.



**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo y Gronfa Cyfleoedd Newydd

3 Hydref 2005



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr

O dan Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998), mae'n ofynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd baratoi datganiad o gyfrifon am y cyfnod ariannol yn y ffurf ac yn ôl yr amodau a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Caiff y cyfrifon blynyddol eu paratoi ar ffurf groniadol, a rhaid iddynt fod yn adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a'i gwariant a'i llif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifo addas mewn ffordd gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon blynyddol
- paratoi'r cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus a chadw cofnodion cywir, wedi eu hamlinellu ym memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a luniwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yng Nghyfrifo'r Llywodraeth, ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan adran 26(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Fel a nodwyd yn y Rhagair i'r Cyfrifon, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi ceisio, lle bo'n bosibl, defnyddio'r pwerau dirprwyo a deisyf a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, efallai y bydd partïon eraill yn gyfrifol am elfennau penodol o'r cynllun.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gweithredu'r cytundebau fframwaith canlynol.

- Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Iechyd o ran y rhaglenni offer canser a'r rhaglenni offer diagnostig CHD yn Lloegr, sy'n nodi'r meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Iechyd yn gyfrifol amdanynt, sef:
  - y broses asesu angen
  - y broses deisyf ceisiadau
  - yr argymhellion a wneir i Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd am offer (a gwaith adeiladu cysylltiedig o dan y rhaglen offer Canser)

# Adran deg

- sefydlu, rheoli a monitro contractau canolog i alluogi prynu offer yn effeithlon (neu gontractau unigol i alluogi cynnal gwaith adeiladu cysylltiedig) o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

▶ Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Iechyd o ran y rhaglen beilot ffrwythau mewn ysgolion, sy'n nodi'r meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Iechyd yn gyfrifol amdanynt, sef:

- y broses asesu angen
- y broses deisyf ceisiadau
- yr argymhellion a wneir i Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd am ddyfarniadau grant
- sefydlu, rheoli a monitro contractau canolog i alluogi prynu ffrwythau'n effeithlon o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

▶ Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Addysg a Sgiliau o ran rhaglen adeiladu meithrinfeydd yn Lloegr, sy'n nodi'r meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Addysg a Sgiliau yn gyfrifol amdanynt, sef:

- ardystiad Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer y ceisiadau am gyllid, gan gynnwys hyfywdra cyrff cymeradwy, a ddarparwyd i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd
- y farn ynghylch cynaladwyedd ceisiadau a asesir yn ganolog gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi ymuno â chyd-gynlluniau, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu cyllid ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cyd-Gynllun perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gyfrifol am: sicrhau bod arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael ei gymhwyso'n unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa Cyfleoedd Newydd; defnyddio'r arian Loteri a ddyrennir i'r rhaglen gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ei fodloni ei hun bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas at y diben, a chytuno ar y peirianwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng Cyrff y Loteri sy'n cymryd rhan.

Mae'r Gronfa'n cyfrannu at y cyd-gynlluniau canlynol.

- Arian i Bawb, Lloegr, rhan o fenter y cynllun grantiau bach. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Sport England
- Lleoedd ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau, rhan o'r fenter chwaraeon AG mewn ysgolion. Cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran 'Sport England', Cyngor Celfyddydau Lloegr, yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd
- Cofio'r Ffrynt Cartref, rhan o raglen cyn filwyr. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd
- 'Active England', rhan o'r fenter chwaraeon AG mewn ysgolion. Cynllun a weinyddir gan 'Sport England' ar ran 'Sport England' a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd

- Creu Cof Byw, rhan o fenter y Grantiau Trawsnewid. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi defnyddio'r pwerau a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant canlynol i Bartneriaid Dyfarnu. Mae'r grant a gynigir rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Partneriaid Dyfarnu'n nodi cyfrifoldeb Prif Weithredwr y Partner Dyfarnu dros sicrhau bod y systemau a weithredir i weinyddu cymwysiadau a phrosesau'r Loteri, ac i fonitro grantiau'r Loteri, yn dderbyniol ac yn addas at y diben, ac y dosberthir arian y Loteri gyda'r rheoleidd-dra a'r priodoldeb dyledus.

Fel rhan o'r fenter meysydd glas a chymunedau cynaladwy:

- Barnardo's – Better Play
- BTCV - People's Places
- Asiantaeth Cefn Gwlad – Doorstep Greens
- English Nature - Wildspace!
- Royal Society for Nature Conservation - SEED
- Scottish Natural Heritage and Forward Scotland – Fresh Futures
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cynllun Enfys
- Northern Ireland Housing Executive – Creating Common Ground Consortium.

Fel rhan o'r fenter trawsnewid cymunedau:

- Royal Society for Nature Conservation – Ailgylchu Cymunedol a Datblygiad Economaidd
- Scottish Natural Heritage – Fresh Futures (Transforming Your Space)
- Forward Scotland – Transforming Waste in Scotland
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cronfa Ailgylchu 'Cleanstream' – Trawsnewid Gwastraff yng Nghymru
- Business in the Community (Northern Ireland) – Community Resource Consortium.

Fel rhan o'r rhaglen cyfleoedd newydd ar gyfer iechyd:

- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhwydweithiau Cymorth Methiant y Galon
- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhaglen diffibrilwyr genedlaethol
- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhaglen adfer gardiaidd.

Fel rhan o'r rhaglen cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon mewn ysgolion:

- Y Sefydliad Pêl-droed – Datblygiad ar Lefel Sylfaenol i Ysgolion
- The Sports Council for Northern Ireland – Community Sport.

Fel rhan o raglenni'r cyn filwyr:

- Y Gronfa Gymunedol – Aduno Cyn-Filwyr.

Fel rhan o Gronfa'r Pobl Ifanc:

- Y Gronfa Gymunedol – Grantiau i Sefydliadau
- Y Gronfa Gymunedol – Grantiau Cenedlaethol.

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr
3 Hydref 2005

# Adran deg

## Datganiad ar reolaeth fewnol

### Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwy'n gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n gefnogol i gyflawni nodau ac amcanion y Gronfa Cyfleoedd Newydd, wrth:

- ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi drwy Gyfrifo'r Llywodraeth; a
- sicrhau cydymffurfiad â gofynion Datganiad Rheoli, Cyfarwyddiadau Polisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Datganiad o Ofynion Ariannol y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

### Diben y system rheoli fewnol

Dyluniwyd y system rheoli fewnol i reoli'r risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion yn gyfan gwbl; yn hynny o beth, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y mae'n gallu ei gynnig, yn hytrach na sicrwydd llwyr. Seilir y system rheoli fewnol ar broses barhaus a ddyluniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Cyfleoedd Newydd, i werthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'u heffaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Gweithredwyd y system rheoli fewnol trwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 March 2005, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, mae wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Cyflwynir prif elfennau fframwaith rheoli'r Gronfa Cyfleoedd Newydd isod.

### Yr amgylchedd rheoli

- Mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi fy mhenodi i, sef Prif Weithredwr y Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn Swyddog Cyfrifo. At y diben hwn, mae gennyf lythyr cyweddiad ar wahân sy'n datgan yn glir fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd dros gynnal system rheoli fewnol cadarn yn y Gronfa. Fi hefyd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol.
- Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i integreiddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr, sefydlwyd Cydbwyllgor gweinyddol o'r Ddau Fwrdd i oruchwylio agweddau ar y broses integreiddio cyn sefydlu'r Bwrdd cydffiniol ar 1 Mehefin 2004. Ffurfiwyd y pwyllgor hwn o aelodau'r ddau fwrdd etifeddiaeth, a gefnogwyd gan ddau aelod annibynnol. Er mai gyda Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yr arhosodd y gwir gyfrifoldeb am faterion y Gronfa Cyfleoedd Newydd, dirprwywyd nifer o benderfyniadau i aelodau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a oedd ar y Cydbwyllgor. Rhoddir manylion pellach am y trefniadau trosiannol isod.
- Uwch Dîm Rheoli, â chylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig, sy'n cyfarfod o leiaf unwaith bob mis i ystyried cynlluniau a gweithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ogystal â chydymffurfiaeth â'r Datganiad Rheoli.

- Bwrdd sy'n cyfarfod o leiaf bob dau fis i ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac, o 1 Mehefin 2004 ymlaen, 16 aelod anweithredol, ac mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ei fynychu. Cyn 1 Mehefin 2004, roedd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a 12 aelod anweithredol.
- Y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio, a ddisodlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Mehefin 2004 ymlaen, y mae ei gylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol, ardystio'r gofrestr risg ac archwilio canlyniadau'r adroddiadau trwy gynnal archwiliadau mewnol ac allanol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ynghylch y materion a drafodir gan y Pwyllgor.
- Y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio, a ddisodlwyd gan y Pwyllgor Adnoddau o 1 Mehefin 2004 ymlaen, y mae ei gylch gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd er mwyn herio a goruchwylio gwariant.
- Cynllun corfforaethol cyhoeddedig sy'n nodi amcanion a meincnodau perfformiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Nodwyd 2004/05 fel blwyddyn drosiannol pan fyddai'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol yn gweithio fel un corff gweinyddol ac yn gosod sylfeini'r Gronfa Loteri Fawr.
- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r Uwch Dîm Rheoli sy'n adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni'r amcanion corfforaethol hyn, yn ogystal â chyrraedd y targedau perfformiad a gwasanaeth. Yn gyffredinol, cyrhaeddwyd y targedau hyn, fel a fanylwyd yn yr Adroddiad Blynyddol. Lle na chyrhaeddwyd targedau, mae camau'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Adroddiadau ariannol cryno misol i'r Uwch Dîm Rheoli ac adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Adnoddau, sy'n adrodd ar y cynnydd yn erbyn y targedau ariannol, gan gynnwys y cyllidebau ymrwymiad grant, targedau mantoli CDdLG a chyllidebau costau gweithredu.
- Polisi twyll, lle'r ymdrinnir â thwyll a amheuir trwy gydweithio â'r Heddlu ac asiantaethau eraill lle bo'n briodol. Mae nifer o achosion yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd. Trwy gydol yr ymchwiliad, p'un a brofir y cafwyd twyll ai peidio, rydym yn adolygu'n gweithdrefnau a'n prosesau er mwyn dysgu gwersi, ac yn gwella'r systemau rheoli mewnol, atal twyll a datgelu lle bo angen.
- Ystod eang o bolisïau sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â materion rheoli ar gyfer rheolaeth gorfforaethol, rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad, technoleg gwybodaeth a rheoli risg. Eleni, adolygwyd ac ailgyflwynwyd llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn i adlewyrchu prosesau integreiddiedig.
- Ystod eang o reolaethau i sicrhau y rheolir gweithgareddau asesu a monitro grantiau'n ddigonol, ac y gellir lleihau'r achosion o golli grantiau'r Loteri. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer asesu grantiau a thasgau rheoli grantiau, tasgau goruchwylio rheolaeth diffiniedig, dirprwyaethau clir dros wneud penderfyniadau, a rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll.
- Fframwaith reoli prosiect, â chyfrifoldebau diffiniedig sy'n cynnwys noddwr prosiect, ar gyfer datblygu rhaglenni newydd.

# Adran deg

- Proses cysylltiadau mewnol sy'n sicrhau y rhoddir gwybod i'r holl staff am benderfyniadau allweddol mewn da o bryd drwy'r cyfryngau priodol, gan gynnwys defnyddio llythyrau oddi wrth y Prif Weithredwr, briffiau rhaeadrol gan reolwyr llinell a chyflwyniadau gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.
- Strategaeth gyfathrebu allanol sy'n sicrhau bod rhanddeiliad, Seneddwyr, y wasg ac aelodau o'r cyhoedd yn cael gwybodaeth briodol a dibynadwy. Roedd yr ymagwedd hon yn ffactor cyfrannol wrth sicrhau bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn barod i weithredu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 1 Ionawr 2005.
- Uned Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn ôl safonau a ddiffinnir yn llawlyfr Archwilio mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith yr archwilwyr mewnol ei lywio gan y gofrestr risg gorfforaethol a chan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn agored iddynt. Seilir cynlluniau'r archwiliadau mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn, a chânt eu cymeradwyo gennyf i a'u hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio cyn 1 Mehefin 2004). Mae Pennaeth yr adran Archwiliadau Mewnol yn cyfarfod â mi'n rheolaidd, ac yn cyfarfod â'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol heb unrhyw Swyddogion yn bresennol. Mae Pennaeth yr adran Archwiliadau Mewnol yn rhoi adroddiadau cynnydd cyfnodol i mi sy'n arwain at adroddiad blynyddol ynglŷn â gweithgareddau archwilio mewnol y Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan gynnwys canfyddiadau ôl-adolygiadau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys ei barn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau a adolygwyd ganddynt. Adolygwyd hyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Integreiddio â'r Gronfa Gymunedol

- Daeth yr uniad gweinyddol rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol i rym ar 1 Ebrill 2004. Fe'm penodwyd i'n Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifo dros y ddau sefydliad o 1 Rhagfyr 2003 ymlaen, ac erbyn Ebrill 2004 roeddwn wedi penodi fy Uwch Dîm Rheoli, heblaw am y Cyfarwyddwr ar gyfer yr Alban. Roedd y tîm cyfan yn eu swyddi o fis Awst 2004, ac arweiniodd hyn at gymathu'r swyddogaethau corfforaethol a gweithredol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, integreiddiwyd y staff a'r prosesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r holl swyddogaethau corfforaethol (gan gynnwys Polisi, Cyfathrebu, Trefn Lywodraethol, Cyllid, Adnoddau Dynol a Systemau Gwybodaeth) yn llawn, neu mae cynllun gweithredu clir ynglŷn â sut i gwblhau'r broses integreiddio.
- Sefydlwyd bwrdd prosiect, a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac sy'n cynnwys aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a chanddynt gyfrifoldebau Corfforaethol, i oruchwylio'r adolygiad strwythurol (adolygiad manwl o'r strwythurau rheoli mewnol a lleoliad ffisegol rolau dyfarnu grant a chynrychiolaeth ranbarthol y sefydliad yn Lloegr). Cymeradwywyd y prif benderfyniadau polisi, a bydd y bwrdd hwn yn awr yn goruchwylio gweithredu'r cynlluniau a gytunwyd, yn enwedig o ran cymathu'r rheolaeth dyfarnu grantiau a rhanddeiliaid rhanbarthol.

## Rheoli risg
## Gallu i ymdrin â risg

Prif elfen fframwaith rheoli risg y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ystod 2004/05 oedd adolygiadau chwarterol o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, a wnaed gan yr Uwch Dîm Reoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Bu'r adolygiadau hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod y gofrestr risg a'n hymatebion yn berthnasol ac yn gyfoes. Mae adolygu'r gofrestr yn chwarterol gan bob un o'r Cyfarwyddwyr yn unigol, ar y cyd drwy'r Uwch Dîm Rheoli a thrwy drafodaethau â'r Pwyllgor Archwilio a Risg gyda ffocws pendant ar y 10 risg pennaf, yn dilysu cynnwys y gofrestr risg corfforaethol ac yn cadarnhau archwaeth risg y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Caiff egwyddorion rheoli risg, gan gynnwys ystyried risg ac argymhellion ar gyfer lliniaru priodol, eu cynnwys yn ffurfiol yn y broses o gynllunio corfforaethol, asesu grantiau, rheoli grantiau, datblygu rhaglenni newydd a gweithgareddau rheoli. Yn y gorffennol, rhoddwyd arweiniad ynghylch rheoli risg i'r staff perthnasol, gan nodi bod risg a'i reolaeth yn rhan sylfaenol o'u swyddogaeth, sy'n cwmpasu arferion rheoli da a synnwyr cyffredin.

Ar hyn o bryd, mae polisi rheoli risg y Gronfa Loteri Fawr wrthi'n cael ei ddatblygu, ar sail polisïau a phrofiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref, ac i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Wedi hynny, caiff ei lansio ar draws y sefydliad i sicrhau yr atgoffir yr holl staff o arferion rheoli risg effeithiol. I gefnogi hyn, mae Llawlyfr Rheoli Risg yn cael ei ddatblygu ar gyfer staff.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

Yn dilyn ymlaen o waith blaenorol gan aelodau'r Bwrdd, rheolwyr a staff, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi nodi'r risgiau penodol o ran cyrraedd ei hamcanion. Ym mis Ebrill 2004, cynhaliwyd ymarfer i gyfuno cofrestri risg y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol i ffurfio un gofrestr risg gorfforaethol ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr.

Aseswyd effaith bosibl pob risg a'r tebygolrwydd y gwireddir y risg hwnnw, a phennwyd rheolaethau priodol i liniaru'r risgiau hyn. Cofnodwyd hyn yn y gofrestr risg gorfforaethol. Pob chwarter adolygwyd y gofrestr risg gan bob Cyfarwyddwr, gan fwydo'u sylwadau a'u newidiadau i mewn iddi. Trafododd yr Uwch Dîm Rheoli y gofrestr risg ar y cyd cyn cyflwyno adroddiadau, gan ganolbwyntio ar y 10 prif risg ac unrhyw newidiadau, i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Yn ychwanegol, fel y nodwyd uchod, mae rheoli risg yn rhan annatod o'n proses cynllunio busnes.

- Mae'r cyfarwyddiadau comisiynu a'r templedi ar gyfer y broses cynllunio busnes yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl reolwyr ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion a nodir ganddynt.
- Mae'r holl brosiectau, gan gynnwys datblygu rhaglenni newydd, yn cydymffurfio â fframwaith rheoli prosiect y sefydliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol datblygu cofrestri risg ar gyfer prosiectau unigol a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Mae asesiadau grant a llawlyfrau rheoli grant yn nodi'r gofyniad y dylid dyrannu statws risg i bob grant, a bennir drwy ystyried meini prawf penodol. Mae'r statws risg hwn yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau a lefel yr ymyrraeth mewn rheoli'r grant.

# Adran deg

Eleni, roedd y blaenoriaethau risg yn cynnwys:

- Y risg ariannol, gan gynnwys ystyried twyll allanol a mewnol; datblygwyd ymagwedd gydlynol at ddatgelu ac ymchwilio twyll.
- Y risg gwleidyddol, yn enwedig datblygiad rhaglenni Lloegr a'r Gwledydd, y mae gan bob un ohonynt eu gofynion a'u hamserlenni eu hunain.
- Y risg o ddyfarnu grantiau, gan gynnwys ystyried y canlyniadau, cyflawni targedau a monitro darparwyr gwasanaethau trydydd parti.
- Y risg cyfreithiol a rheoleiddiol, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes
- Y risg sefydliadol, gan gynnwys integreiddio adferiad yn sgil trychineb ac ymateb i broblemau'n gyflym
- Y risg i bobl, yn enwedig colli staff allweddol yn sgil ansicrwydd ynghylch integreiddio; negodwyd set o delerau ac amodau cyffredin gyda'r Undebau Llafur ac adolygwyd y polisïau o ran newid, adleoli a chadw staff.
- Y risg i enw da, gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â chanfyddiad Gweinidogion a'r cyhoedd o fantolau uchel yr CDdLG, tra'n sicrhau bod y rhesymau am fantolau mawr sydd heb eu dosbarthu gan y CDdLG yn cael eu deall, lluniwyd targedau a'u monitro i sicrhau y parheir i roi blaenoriaeth i hwyluso taliadau. Roedd y pwnc hwn yn destun gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Seneddol yn ystod y flwyddyn.
- Y risgiau technolegol, yn enwedig rheoli'r broses o drosi rhan o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan gyflenwr allanol yn ôl yn fewnol.
- Y broses integreiddio; sefydlwyd fframweithiau rheoli i sicrhau y rheolir y broses o integreiddio swyddogaethau'n gywir.

## Adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Gronfa Cyfleoedd Newydd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Derbyniais gyngor ynglŷn ag oblygiadau canlyniadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol gan Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Gweithredwyd cynllun i ymdrin â gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaus y system. Nodir materion arwyddocaol ynghylch rheolaeth fewnol isod.

## Rhaglen Arian i Bawb Lloegr

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cynnig arian y loteri i'r rhaglen Arian i Bawb, a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol. Yn ystod 2004/05, cyfraniad y Gronfa at raglen cronfa ar y cyd Lloegr oedd £10.9 miliwn, 29.6% o gyfanswm yr arian. Ym mis Hydref 2004, nododd y Gronfa Gymunedol y gallai'r rhaglen Arian i Bawb fod dioddef twyll gan ymgeiswyr a oedd wedi gwneud ceisiadau lluosog am grantiau bach.

Mae ymchwiliadau cynnar yn awgrymu mai uchafswm y golled yr amcangyfrifir i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ei cholli am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 fydd £170,000. Ar sail cyfran yr arian rydym wedi'i gyfrannu at y rhaglen Arian i Bawb, uchafswm y golled yr amcangyfrifir i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ei cholli ers 1 Ebrill 2001, pan ymunodd y Gronfa â'r rhaglen, fyddai £584,000.

Mae ymchwiliad llawn i'r twyll tybiedig ar y gweill, ac ar ôl cwblhau'r ymchwiliad hwn bydd partneriaid Arian i Bawb yn ystyried a yw adenillion yn bosibl ac yn briodol. Yna, caiff unrhyw golledion sy'n weddill eu dileu'n ffurfiol a'u hadrodd i Drysorlys Ei Mawrhydi.

## Rheoli risg

Nododd archwiliad mewnol fod angen cymryd nifer o gamau arwyddocaol i sicrhau y gweithredir rheolaeth risg yn llawn a'i mewnosod trwy gydol y sefydliad integredig. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r Archwilwyr Mewnol i sicrhau y datblygir ymagwedd fwy systemataidd a ffurfiol at reoli risg a'i chyflwyno i'r holl staff perthnasol erbyn 31 Mawrth 2006.

## Cydymffurfio

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cyflwyno gweithdrefnau ym mhob rhan o'r sefydliad i sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol yn cael eu dilyn. Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn gwirio samplau i sicrhau bod pob swyddfa ac adran yn dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu dogfennu a'u lledaenu'n briodol.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cadw Cofrestr o Fuddiannau, sydd ar agor i'r cyhoedd, ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau a phob aelod o staff y Gronfa. Mae proses wedi ei chyflwyno i ddelio ag unrhyw groestyniad buddiannau yng nghyfarfodydd pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae gweithdrefnau'n bodoli i atal unrhyw aelod o staff rhag asesu cais am grant gan fudiad y mae ganddo gysylltiad ag ef.

Ymdriniwyd â cholledion o ran grantiau'r Loteri'n briodol a, lle bo angen, rhoddwyd gwybod i'r Adran amdanynt.

Yn fy marn i, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion ein Datganiad Rheoli, ein Polisi a'r Cyfarwyddiadau Ariannol.

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo y Gronfa Cyfleoedd Newydd

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd

3 Hydref 2005

# Adran deg

## Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau dŷ'r Senedd a Senedd Yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 80 i 102 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i addaswyd gan ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifo a amlinellir ar dudalen 83 i 85.

### Priod Gyfrifoldebau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 69, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd odani gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi, ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair a gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel yr archwiliwr annibynnol, drwy statud ac rwyf yn cydymffurfio â'r safonau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r canllawiau moesegol sy'n berthnasol i waith archwilwyr.

Rwy'n mynegi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n gywir un unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd odani, ac a ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm mewn ffordd berthnasol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwy'n darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg gyda'r datganiadau ariannol.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 72 i 77 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Rwy'n adrodd os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r wybodaeth yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o ganlyniad i archwilio'r datganiadau ariannol. Nid wyf wedi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Archwilio ar Reolaeth Fewnol yn edrych ar bob risg a rheolaeth, ac nid yw'n ofynnol i mi eu hystyried. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith fynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gronfa Cyfleoedd Newydd na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

## Sylfaen barn yr archwiliad

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i niferoedd, datgeliadau a chysondeb trafodion ariannol sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol a wnaethpwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesu a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad i sicrhau'r holl wybodaeth a'r esboniadau yr ystyriais eu bod yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad, neu dwyll neu anghysondeb arall, ac y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm ym mhob ffordd berthnasol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

**1.** mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 31 Mawrth 2005 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno a'u bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) a'r cyfarwyddiadau a wnaed odani gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; ac

**2.** ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
Comptroller and
Auditor General
Dyddiad

Y Swyddfa Archwilio
Genedlaethol
157-197 Buckingham
Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 12 | 452,234 | 433,023 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 12 | 24,590 | 29,029 |
| Gostyngiad / (Cynnydd) ar golled o ailbrisio'r buddsoddiad | | 6,550 | (4,612) |
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | | 678 | 690 |
| Adfer grant | | 6,806 | 4,621 |
| Incwm arall | | 1,262 | 236 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 492,120 | 462,987 |
| **Gwariant** | | | |
| **I gefnogi mentrau** | | | |
| Yr ymrwymiadau grant a wnaed | 15 | 550,323 | 633,984 |
| Llai ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig | 15 | (42,748) | (39,929) |
| | | 507,575 | 594,055 |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi mentrau | 2 | 2,938 | 1,596 |
| | | 510,513 | 595,651 |
| **Costau gweinyddu** | | | |
| Costau cyflog y gweithwyr | 3 | 12,608 | 12,030 |
| Costau cyflog aelodau'r bwrdd | 4 | 118 | 96 |
| Costau gweithredu eraill | 5 | 18,341 | 18,487 |
| Costau uno | 7 | 2,442 | – |
| Dibrisiant | 10 | 1,105 | 1,217 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddu** | 6 | 34,614 | 31,830 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 545,127 | 627,481 |
| **Diffyg cyn trethiant** | | (53,007) | (164,494) |
| Trethiant | 9 | (181) | (211) |
| **Diffyg ar gyfer y cyfnod** | | (53,188) | (164,705) |
| **Diffyg a gadwyd** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 | | (353,477) | (188,772) |
| Diffyg ar gyfer y cyfnod | | (53,188) | (164,705) |
| **Diffyg a gadwyd ar 31 Mawrth 2005** | | (406,665) | (353,477) |

Nid oes gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir uchod, ac o ganlyniad i hynny ni chyflwynwyd datganiad ar wahân o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Nid oes unrhyw weithgareddau y rhoddwyd terfyn arnynt.

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 83 i 102 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 10 | 2,305 | 3,181 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 11 | 14,670 | 27,212 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 20,473 | 1,775 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 12 | 690,650 | 737,276 |
| | | 725,793 | 766,263 |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 13 | (4,065) | (9,189) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 15 | (448,754) | (485,121) |
| | | (452,819) | 494,310 |
| **Asedau cyfredol net** | | 272,974 | 271,953 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 275,279 | 275,134 |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 13 | (134) | (502) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 15 | (680,983) | (628,109) |
| | | (681,117) | (628,611) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau** | 14 | (827) | – |
| **Cyfanswm net (rhwymedigaethau)** | | (406,665) | (353,477) |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | |
| **Diffyg a gadwyd** | | (406,665) | (353,477) |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd a gymeradwyodd y cyfrifon blynyddol ar 3 Hydref 2005

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 83 i 102 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian hyd at 31 Mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 12 | 530,000 | 598,000 |
| Adfer grantiau ac arian parod o ffynonellau eraill | | 6,806 | 4,416 |
| Incwm arall | | 1,100 | 142 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (28,188) | (16,513) |
| Taliadau i ac ar ran y gweithwyr | | (12,147) | (11,240) |
| Taliadau i dderbynwyr grantiau | | (494,031) | (614,823) |
| Arian parod a delir i drydydd partïon ac a gedwir ganddynt | | 15,067 | 41,122 |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | 19 | 18,607 | 1,104 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog banc a dderbyniwyd | | 689 | 702 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol | | (387) | (519) |
| Gwerthu asedau sefydlog diriaethol | | – | 7 |
| | | 18,909 | 1,294 |
| **Trethiant** | | | |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (211) | (205) |
| **Cynnydd mewn arian parod** | | 18,698 | 1,089 |
| **Newid mewn cyllid o ganlyniad i'r llif arian** | | | |
| Arian parod fel ar 31 Mawrth 2005 | | 20,473 | 1,775 |
| Llai arian parod ar 1 Ebrill 2004 | | (1,775) | (686) |
| **Symudiad** | | 18,698 | 1,089 |

Mae'r nodiadau ar Dudalennau 83 i 102 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 Datganiad o'r polisïau cyfrifo

### 1.1 Arferion cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan yr arferion cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisiad asedau sefydlog, yn ôl eu gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu cost gyfredol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 43D(2) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).* Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y maent yn briodol.

Er bod Cyfarwyddiadau Cyfrifon y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys Asedau Sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar gyfer 2004/05 nid yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn credu bod y gwerthoedd hyn yn sylfaenol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir ar y Fantolen. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y maent yn briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon ariannol ar sail busnes gweithredol. Lluniwyd yr ymrwymiadau grant ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod ar ôl ystyried anghenion ariannol derbynwyr grantiau (gall y rhain ymestyn dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth gymryd y safbwynt hwn ynglŷn ag incwm y dyfodol, mae'r Bwrdd yn tybio, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri'n parhau i weithredu.

* Mae copi o'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 28 Mai 2002 gael drwy wneud cais ysgrifenedig amdanynt i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, I Plough Place, Llundain EC4A 1DE

Maent hefyd yn tybio y bydd canran y Gronfa Cyfleoedd Newydd o arian Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cael ei chynnal, fel a nodir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r gweddillion a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) yn aros o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y gweddillion hyn sydd i'w phriodoli i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyd-fynd â'r hynny a ddangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Fantolen, fe'i ardystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd mewn perthynas â'i hymrwymiadau presennol a'i hymrwymiadau yn y dyfodol.

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw lleihau ei gweddillion CDdLG i £240m cyn gynted â phosibl, cyhyd ag y bydd y Gronfa Gymunedol yn parhau i dderbyn sicrwydd digonol na fydd hyn yn amharu ar yr ymrwymiadau presennol nac yn cyfyngu'n afresymol ar ei gallu i wneud ymrwymiadau yn y dyfodol, yn unol â chyfarwyddiadau polisi.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cytuno ar y targedau canlynol:

- anelu at gael mantolau o £580 miliwn yn CDdLG erbyn 31 Mawrth 2005
- anelu at gael mantolau o £551 miliwn yn CDdLG erbyn 31 Mawrth 2006
- anelu at gael mantolau o £416 miliwn yn CDdLG erbyn 31 Mawrth 2007.

Seilir y targedau hyn ar ragolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran, ac maent yn caniatáu ar gyfer effaith y Loteri Olympaidd arfaethedig ac yn adlewyrchu'r gwariant ar y Cyfarwyddiadau Polisi presennol a Chyfarwyddiadau Polisi disgwyliedig.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1.4 Asedau sefydlog

Caiff asedau sefydlog eu troi'n gyfalaf yn y Fantolen yn unol â gwerth eu cost, heblaw am eitemau sy'n costio llai na £2,000, sy'n cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y cânt eu prynu.

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu pris yr asedau ar sail linol syth dros gyfnod amcangyfrifedig eu hoesau buddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliad | Yn ystod bywyd y brydles (6 i 20 mlynedd) |
| Systemau grant | 3 blynedd |
| Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa | 3 blynedd |
| Offer TG | 3 blynedd |

## 1.5 Cronfa bensiwn

Caiff gweithwyr eu sicrhau gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS), sef cynllun budd-dâl diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu. Er bod y Cynllun yn gynllun budd-dâl diffiniedig, cyfrifoldeb y PGPGS yw talu'r budd-daliadau yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn talu tâl am bob gweithiwr, a gyfrifir ar sail gronnol. Darperir y budd-daliadau pensiwn drwy gyfrwng y PGPGS. O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall y staff sy'n aelodau o'r cynllun fod yn perthyn i un o dri chynllun budd-dâl diffiniedig statudol yn seiliedig ar 'gyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol plws). Ar ôl 1 Hydref 2002, gall aelodau newydd ddewis rhwng ymaelodi â'r cynllun premiwm neu gallant ymuno â threfniant 'prynu arian' rhaddeiliaid safonol yn seiliedig ar fod yn rhanddeiliad, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gellir dod o hyd i'r gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yng ngwefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

## 1.6 Prydlesi gweithredu

Caiff costau prydlesi gweithredu sydd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd eu talu o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir manteision y cyfnodau di-rent ar yr holl lesddaliadau ar sail linol dros y cyfnod tan yr adolygiad rent cyntaf.

## 1.7 Gwariant ar fentrau

Mae Deddf y Loteri etc 1993 yn galluogi'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddyfarnu grantiau i ariannu neu helpu cyllido prosiectau, ac i wneud neu ymuno â threfniadau a ddylunnir i weithredu mentrau iechyd, addysg neu'r amgylchedd, fel a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Cynigion ac ymrwymiadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan bod angen gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiad caled fel swm y grant sy'n daladwy yn ystod oes cynllun y mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd gytundeb ysgrifenedig â'r ymgeisydd yn ei gylch. Telir yr ymrwymiadau caled o'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn y llofnodir y contractau. Dangosir yr ymrwymiad caled ar y Fantolen fel credydwr, gyda'r balans yn cael ei leihau wrth i daliadau i dderbynwyr grantiau gael eu rhyddhau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd i ariannu cynllun, a chynnig grant a wnaed i'r ymgeisydd ac y mae'r ymgeisydd heb ei dderbyn yn ffurfiol hyd yn hyn. Caiff y rhain eu dangos fel nodyn yn y cyfrifon, ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

## Grantiau a ad-delir ac a adenillir

Mae amodau grantiau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn caniatáu adennill neu ad-dalu'r grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan nad yw deiliad y grant yn cydymffurfio â'r amodau a'r telerau, neu pan fydd y gwariant gwirioneddol gan dderbyniwr grant yn gostwng yn is na'r grant a dalwyd ar sail amcangyfrif o'r costau.

## Gwariant uniongyrchol ar fentrau

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cofnodi costau a gafwyd wrth wneud mentrau'n fwy effeithiol fel gwariant uniongyrchol ar fentrau, yn unol â'i Chyfarwyddiadau Polisi Adran 43, er enghraifft, darparu strwythurau cymorth a sicrwydd ansawdd er budd uniongyrchol i dderbynwyr grantiau.

## 1.8 Rheoli grantiau – partneriaid dirprwyedig

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud cytundebau â nifer o gyrff dirprwyedig i gynnal prosesau rheoli grantiau penodedig. Caiff arian a roddir fel blaenswm i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu ymrwymiadau caled ei gofnodi fel dyledwr nes y bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cadarnhad y bodlonwyd yr ymrwymiadau grant.

O dan amodau cynllun athrawon a llyfrgellwyr ysgol yr ICT, gweinyddir derbyniad ffurfiol y cynigion grant a thalu'r ymrwymiadau grant, ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r ymrwymiadau caled a gofnodir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, a'r ymrwymiadau grant a fodlonwyd, yn deillio o'r adenillion archwiliedig hynny a gafwyd gan gyrff gweinyddu adeg paratoi'r cyfrifon hyn. Gwneir unrhyw ddiwygiadau a geir o adenillion a gyflwynir ar ôl paratoi'r cyfrifon hyn yng nghyfrifon blynyddol y flwyddyn ddilynol.

## 1.9 Rheoli grantiau – cyd-gynlluniau

Pan fydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi ymuno â chynllun ar y cyd, fel y'u diffinnir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir am yr ymrwymiadau caled a wneir drwy'r cyd-gynllun ar sail cyfran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn y cynllun. Caiff arian a roddir fel blaenswm i'r cyd-gynllun er mwyn talu ymrwymiadau caled ei gofnodi fel dyledwr tan fydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cadarnhad y bodlonwyd yr ymrwymiadau grant. Caiff y costau gweinyddu eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn ôl y cyfanswm a wariwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

## 1.10 Dyrannu incwm a chostau

Dyrennir yr incwm a'r costau a dynnir gan y Gronfa Loteri Fawr rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Dyrennir incwm a chostau sydd i'w priodoli i Gronfa benodol yn uniongyrchol. Dosrennir costau ar y cyd i bob Cronfa ar sail methodoleg ddyrannu briodol, er enghraifft, ar sail cyfran incwm neu nifer y staff.

Dyrennir Incwm y Gronfa Cyfleoedd Newydd i bob rhaglen i gyd-fynd â chostau blwyddyn y rhaglen honno. Caiff incwm nad yw'n cael ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn bresennol ei gyd-weddu â chostau yn y dyfodol. Mae Cyfarwyddiau Polisi'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn nodi cyfanswm yr incwm sydd i'w ddyrannu i bob menter.

Lle bo'n bosibl, telir y costau'n uniongyrchol gan y rhaglen berthnasol. Mae costau staff uniongyrchol yn cyfeirio at gostau'r staff sy'n asesu ac yn monitro ceisiadau grant. Dosrennir costau sydd heb eu dyrannu i bob rhaglen mewn cyfrannedd â gwerth y rhaglen honno.

## 1.11 Cost dybiannol y cyfalaf

O 1 Ebrill 2002 ymlaen, dileodd Trysorlys Ei Mawrhydi'r angen i gyfrifo cost dybiannol y cyfalaf ar yr asedau a ariennir gan y Loteri.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 2 Gwariant uniongyrchol i gefnogi mentrau

Datgelir costau sy'n gysylltiedig â gwariant er budd uniongyrchol i dderbynwyr trydydd parti ar wahân.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Rheoli ansawdd hyfforddiant allanol | 46 | 49 |
| Cymorth ymgynghori a ddarparwyd yn uniongyrchol i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau | 2,144 | 1,547 |
| Cyfraniad at gostau'r gofrestr Mannau Gweithredol sy'n cael ei chasglu gan Sport England | 748 | – |
| | 2,938 | 1,596 |

Y gwariant uniongyrchol i gefnogi mentrau a ddadansoddwyd yn ôl pob rhaglen gwariant yw:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Canolfannau byw'n iach | 1,411 | – |
| Hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol | 46 | 49 |
| Cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon | 1,481 | 1,507 |
| Dysgu y tu allan i oriau ysgol | – | 40 |
| | 2,938 | 1,596 |

## 3 Nifer a chostau'r staff

Roedd costau gweithwyr cyflogedig, ac eithrio aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 9,794 | 9,521 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 819 | 725 |
| Costau pensiwn | 1,294 | 1,255 |
| Staff asiantaeth | 701 | 529 |
| | 12,608 | 12,030 |

Yng nghyfrifon blynyddol 2003/04, datgelwyd staff asiantaeth fel rhan o gostau gweithredu eraill. Diwygiwyd y ffigyrau cymharol i adlewyrchu'r ffaith y cafodd y costau hyn eu cynnwys fel costau staff.

Caiff adenillion o £35,436 sy'n cynrychioli staff a secondiwyd allan i sefydliadau eraill eu cynnwys yn yr incwm arall.

Ar 31 Mawrth 2005, cyflogwyd 342 aelod o staff (2003/04 332). Roedd cyfartaledd nifer y gweithwyr (ac eithrio'r staff dros dro) a oedd yn gweithio i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 Cyfartaledd nifer y gweithwyr £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 Cyfartaledd nifer y gweithwyr £'000 |
|---|---|---|
| Cynllunio a Pherfformiad | 21 | 13 |
| Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol | 39 | 29 |
| Polisi a Chysylltiadau Allanol | 67 | 60 |
| Gweithrediadau | 175 | 156 |
| Swyddfeydd y gwledydd | 75 | 67 |
| | 377 | 325 |

Roedd hawl uwch-reolwyr Y Gronfa Cyfleoedd Newydd i gyflogau a phensiwn fel a ganlyn:

| *Dangosir ffigurau cymharol 2004 mewn cromfachau* | Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad ar 31 Mawrth 2005 | Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 | Cyfanswm y pensiwn cronnol yn 60 ar 31 Mawrth 2005 | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) | Gwir gynnydd yn GTCAP ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau yn ffactorau buddsoddi y farchnad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stephen Dunmore (Prif Weithredwr) | 65 – 70[1]<br>(90– 95) | 5 –7.5<br>plus 20-22.5 cyfandaliad hefyd | 45 – 50 plus 145-150 cyfandaliad hefyd | 852<br>(711) | 116 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) o 14 Mehefin 2004 | 65 – 70 | 0 – 2.5 | 0- 5 | 11 | 9 |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) o 1 Rhagfyr 2003 | 75 – 80<br>(15 – 20) | 2.5-5<br>plus 0 cyfandaliad | 10-15<br>plus 0 cyfandaliad | 89<br>(58) | 25 |
| Peter Grant (Cyfarwyddwr Gweithrediadau tan 31 Mai 2004, ar secondiad tan 31 Mai 2005) tan 31 Mai 2005 | 70 – 75<br>(70 – 75) | 0 –2.5 | 15 - 20 | 209<br>(184) | 12 |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr, yr Alban) o 27 Awst 2004 | Cynwysiedig yng nghyfrifon y Gronfa Gymunedol | | | | |
| Adrienne Kelbie (Cyfarwyddwr, yr Alban tan 9 Mai 2004, Cyfarwyddwr Gweithrediadau) | Cynwysiedig yng nghyfrifon y Gronfa Gymunedol | | | | |
| Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad) o 1 Ionawr 2004 | Cynwysiedig yng nghyfrifon y Gronfa Gymunedol | | | | |
| Vanessa Potter (Cyfarwyddwr, Polisi a Chysylltiadau Allanol) | 90 – 95<br>(80 – 85) | 0 – 2.5<br>plus 5 – 7.5 cyfandaliad hefyd | 10 - 15<br>plus 30-35 cyfandaliad hefyd | 104<br>(79) | 19 |
| Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) o 1 Rhagfyr 2003 | 75 – 80<br>(15 – 20) | 0-2.5<br>plus 5 – 7.5 cyfandaliad hefyd | 5-10<br>plus 15 – 20 cyfandaliad hefyd | 112<br>(60) | 42 |

[1]As from 1 December 2003 the Chief Executive's salary is apportioned equally between the Community Fund and the New Opportunities Fund. Pension benefits are retained through his New Opportunities Fund contract.

# Nodiadau i'r cyfrifon

Penodwyd y Prif Weithredwr presennol ar 1 Rhagfyr 2003 i fod yn Brif Weithredwr y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Gyfleoedd Newydd ar y cyd. Datgelir ei gyflog ar gyfer y rhan o'i gontract gwasanaeth sy'n ymwneud â'r Gronfa Gymunedol yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw. Seilir datgeliadau i hawliau pensiwn ar gyfanswm ei becyn cyflog. Daw cytundeb y Prif Weithredwr i ben y diwrnod ar ôl penodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Prif Weithredwr yn dod o dan delerau ac amodau cyflogaeth safonol y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Penodir Cyfarwyddwyr i Uwch Dîm Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, cyd-dîm rheoli'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Cyfarwyddwyr a gyflogir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gontractau gwaith parhaol, sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gymunedol ac sy'n dod o dan delerau ac amodau gwaith safonol y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Cyflogir Cyfarwyddwyr yr Alban, Gweithrediadau a Chynllunio a Pherfformiad gan y Gronfa Gymunedol ar gontractau sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Datgelir eu cyflog yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw.

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy gyfrwng Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Datgelir mwy am bensiynau yn Nodyn 22. Dengys Colofn pedwar y tabl uchod werth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) yr aelodau, a gronnwyd ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae Colofn pump yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTCAP a gyllidwyd yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, y cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

GTCAP yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol wedi'u hasesu'n actiwaraidd. Y buddion a brisir yw buddion cronnol yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sy'n daladwy o'r cynllun i briod. Mae'r GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fydd aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn yr hen gynllun. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch lle mae datgelu'n gymwys iddo yn unig. Mae ffigurau'r GTCAP, a'r manylion pensiwn eraill o 2003/04, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i'r trefniadau PGS ac y mae'r Bleidlais CS wedi derbyn taliad trosglwyddo amdano sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gymerir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â chanllawiau a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.

## 4 Tâl aelodau'r Bwrdd

Mae Cadeirydd Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn benodiad rhan amser, deuddydd yr wythnos. Rhoddodd y Farwnes Jill Pitkeathley y gorau i'w swydd fel Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 31 Mai 2004. O 1 Mehefin 2004, daeth Syr Clive Booth yn Gadeirydd ar y Gronfa Loteri Fawr.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £ |
|---|---|---|
| Y Farwnes Jill Pitkeathley tan 31 Mai 2004 | 21,619 | 25,290 |
| Syr Clive Booth o 1 Mehefin 2004 | 20,319 | – |

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dair blynedd, gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y lle cyntaf. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol i holl aelodau'r Bwrdd aros yn eu swyddi tan y penodwyd Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr. Mewn rhai achosion, aeth hyn â hwy y tu hwnt i'w cyfnod presennol yn eu swyddi.

Mae gan holl aelodau'r Bwrdd yr hawl i dderbyn taliad am y cyfnod a dreulir ar weithgareddau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau hyn, y mae aelodau'r Bwrdd yn gallu hawlio ffi cyfradd ddyddiol o £198 amdanynt (2003/04 £194), yn cynnwys cyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ni dderbyniodd unrhyw aelodau'r Bwrdd gyfraniadau at eu pensiynau. Cyfanswm yr enillion a dalwyd i aelodau'r Bwrdd tan 31 Mawrth 2005 oedd £76,076 (2003/04 £71,054), a ddadansoddir fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Jill Barrow tan 31 Mai 2004 | 2.6 | 9.3 |
| Yr Athro Eric Bolton tan 31 Mai 2004 | 2.1 | 6.9 |
| Dr Samuel Burnside o 1 Mehefin 2004 | 5.5 | – |
| David Campbell | 7.2 | 14.3 |
| David Carrington tan 31 Mai 2004 | 1.0 | 2.6 |
| Paul Cavanagh o 1 Mehefin 2004 | 3.0 | – |
| Tom Davies | 4.5 | 5.4 |
| Roland Doven o 1 Mehefin 2004 | 2.2 | – |
| Yr Athro Briedge Gadd | 6.5 | 9.8 |
| John Gartside o 1 Mehefin 2004 | 2.5 | – |
| Douglas Graham o 1 Mehefin 2004 | 3.4 | - |
| Yr Athro Siân Griffiths tan 31 Mai 2004 | 0.2 | 1.8 |
| Polly Hudson tan 31 Mai 2004 | 0.6 | 2.8 |
| Taha Idris o 1 Mehefin 2004 | 3.5 | – |
| Dugald Mackie | 3.5 | 6.9 |
| John Naylor o 1 Mehefin 2004 | 4.9 | – |
| Esther O'Callaghan o 1 Mehefin 2004 | 1.9 | – |
| Yr Athro Allan Patmore tan 31 Mai 2004 | 1.5 | 4.0 |
| Anna Southall o 1 Mehefin 2004 | 2.4 | – |
| Barbara Stephens tan 31 Mai 2004 | 0.6 | 2.7 |
| Valerie Strachan (Dirprwy Gadeirydd) o 1 Mehefin 2004 | 7.8 | – |
| Geoff Thompson tan 31 Mai 2004 | 1.9 | 4.7 |
| Huw Vaughan Thomas o 1 Mehefin 2004 | 2.5 | – |
| Diana Whitworth o 1 Mehefin 2004 | 4.1 | – |

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd ac yn talu'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 5 Costau gweithredu eraill

Ymhlith y costau gweithredu eraill ceir:

| | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Teithio a threuliau** | | | | |
| Staff | 559 | | 525 | |
| Aelodau'r Bwrdd | 73 | 632 | 47 | 572 |
| Tâl yr archwilwyr | | 34 | | 33 |
| Costau dosbarthu grantiau | | 4,027 | | 3,312 |
| Taliadau'r brydles weithredu – eiddo | | 4,394 | | 3,520 |
| Asedau sefydlog a gofnodwyd | | 98 | | 129 |
| Costau eraill | | 9,156 | | 10,921 |
| | | 18,341 | | 18,487 |

## 6 Cyfanswm y costau gweithredu

Dadansoddiad o'r gwariant gweithredu gan bob rhaglen:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Canolfannau byw'n iach | 3,149 | 3,007 |
| Dysgu y tu allan i oriau ysgol | 2,323 | 2,479 |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol | 5,784 | 4,274 |
| Hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol | 613 | 1,677 |
| Hyfforddiant yr ICT i staff llyfrgelloedd cyhoeddus | 50 | 226 |
| Digido deunydd dysgu | 504 | 700 |
| Canser | 420 | 1,014 |
| Cymunedau'n manteisio ar ddysgu gydol oes | 2,147 | 2,215 |
| Meysydd glas a chymunedau cynaliadwy | 1,345 | 1,324 |
| Cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon | 7,796 | 8,226 |
| Gweithgareddau i bobl ifanc | 663 | 625 |
| Lleihau baich Clefyd Coronaidd y Galon, canser a strôc | 2,401 | 1,767 |
| Gofal lliniarol | 852 | 934 |
| Trawsnewid cymunedau | 1,711 | 1,314 |
| Gofal plant | 1,605 | 1,605 |
| Cynlluniau grant ar raddfa fach | 1,131 | – |
| Cyfran Deg | 62 | 443 |
| Y Gronfa Pobl Ifanc | 2,058 | – |
| | 34,614 | 31,830 |

## 7 Costau uno

Ymhlith y costau uno eraill ceir:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 |
|---|---|
| Ymgynghori | 469 |
| Newidiadau TG | 938 |
| Taliadau terfynu | 617 |
| Ffioedd proffesiynol | 41 |
| Costau eiddo | 344 |
| Arall | 33 |
| | 2,442 |

## 8 Dangosydd perfformiad ariannol

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw cadw'r costau gweithredu rhwng pump – saith y cant o'r incwm a dderbynnir yn ystod oes y Gronfa. Parheir i gyrraedd y targed hwn; mae'r costau gweithredu yn 5.5 y cant o'r incwm (2003/04 5.2 y cant). Y rheswm am y cynnydd yn y dangosydd hwn yw'r costau cynyddol sy'n deillio o ddarparu'r rhaglenni grant presennol, yn enwedig cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon mewn ysgolion a chostau uno.

## 9 Treth gorfforaeth

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn talu treth gorfforaeth ar log banc a dderbyniwyd. Y dreth sy'n daladwy yw £180,859 (2003/04 £210,818). Nid yw'r arian a gedwir ac a fuddsoddir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn drethadwy.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 10 Asedau sefydlog diriaethol

| | Gwelliant lesddaliad £'000 | TG £'000 | Offer swyddfa, dodrefn a ffitiadau £'000 | Systemau grant £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 2,437 | 181 | 73 | 2,242 | 4,933 |
| Ychwanegiadau | 244 | 76 | 7 | – | 327 |
| Gwerthiant | (152) | | – | – | (152) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 2,529 | 257 | 80 | 2,242 | 5,108 |
| **Dibrisiant cyfredol** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 369 | 165 | 72 | 1,146 | 1,752 |
| Cost am y flwyddyn | 179 | 26 | 2 | 898 | 1,105 |
| Gwerthiant | (54) | – | – | – | (54) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 494 | 191 | 74 | 2,044 | 2,803 |
| **Cost net gyfredol** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 2,035 | 66 | 6 | 198 | 2,305 |
| Ar 31 Mawrth 2004 | 2,068 | 16 | 1 | 1,096 | 3,181 |

## 11 Dyledwyr a rhagdaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Cedwir gan bartneriaid dirprwyedig i dalu ymrwymiadau grant | 8,043 | 25,166 |
| Arall | 1,211 | 728 |
| Balans â'r Gronfa Gymunedol | 3,601 | - |
| Rhagdaliadau | 1,815 | 1,318 |
| | 14,670 | 27,212 |

Mae'r balansau canlynol sy'n daladwy gan gyrff Llywodraethol eraill wedi eu cynnwys yn y cyfrifon uchod:

| | | |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff Llywodraethol erail | 6,735 | 6,313 |
| Symiau sy'n ddyledus gan Awdurdodau Lleol | 4,781 | 15,993 |

Yn unol â pholisi cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, ni fydd talu ymrwymiadau grant a weinyddir gan bartneriaid dirprwyedig ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael eu cofnodi tan fod y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi derbyn cadarnhad o werth y grantiau a dalwyd gan y cyrff hyn.

Mae mantolau a gedwir gan bartneriaid dirprwyedig yn cynnwys £4,053,255 (2003/04 £15,993,000) a gedwir gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban, a Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon, ar gyfer talu grantiau a ddyfarnwyd o dan raglen hyfforddi'r ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol. Erbyn hyn, mae adenillion archwiliedig yn ddyledus oddi wrth y partneriaid hyn.

## 12. Balans a gadwyd gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Y gost ar 1 Ebrill 2004** | | 746,429 |
| Dosbarthiad gan y Loteri Genedlaethol | 452,234 | |
| Incwm buddsoddi a enillwyd | 24,590 | |
| Arian a dynnwyd i lawr | (530,000) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (53,176) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2005** | | 693,253 |
| Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad | | (2,603) |
| **Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2005** | | 690,650 |

Ar 31 Mawrth 2005, gwerth mantol y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a gedwir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG), ar y farchnad oedd £690,649,601 (2003/04 £737,275,837).

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cyfran o'r arian a delir gan Grŵp Camelot Ccc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu'r costau sy'n daladwy i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth ymarfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheoleiddiwr (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) a chostau'r rheolwr buddsoddi (Comisiynwyr y Ddyled Genedlaethol).

## 13 Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 1,186 | 2,784 |
| Credydwyr eraill | 369 | 2,494 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,329 | 3,700 |
| Treth gorfforaeth | 181 | 211 |
| | 4,065 | 9,189 |

Mae'r balansau canlynol sy'n daladwy gan gyrff Llywodraethol eraill wedi eu cynnwys yn y cyfrifon uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff Llywodraethol eraill | 662 | 3,106 |
| Symiau sy'n ddyledus gan Awdurdodau Lleol | 534 | 0 |

## Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 134 | 502 |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

| | Taliadau prydles na ellir eu hosgoi £'000 | Cyfraniadau ymddeoliad cynnar £'000 | Darpariaethau colli swydd £'000 | Cyfanswm y ddarpariaeth £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 | – | – | – | – |
| Codwyd o'r gwariant yn ystod y flwyddyn | 223 | 149 | 455 | 827 |
| Taliadau a wnaed | – | – | – | – |
| Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2005 | 223 | 149 | 455 | 827 |

Gadawodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd Linenhall Street, Belfast; ni fu modd diddymu neu ailosod y brydles hon. Mae FRS12 yn caniatáu darpariaethau i gydnabod yr amcangyfrif gorau ar daliadau prydles na ellir eu hosgoi. Mae'r Gronfa wedi rhoi rhybudd i roi terfyn ar y brydles yn Heron House, Llundain, a chadwyd darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth gontractiol i fodloni dadfeiliadau ar wahân.

Fel rhan o'r ailstrwythuro yn sgil yr uno gweinyddol â'r Gronfa Gymunedol:

- Mae rhai aelodau staff cymwys wedi cytuno i ymddeol yn gynnar. O ganlyniad i'r cytundebau hyn, mae gan y Gronfa Gymunedol gontract i dalu rhai cyfraniadau pensiwn penodol hyd at ddyddiad ymddeol statudol yr unigolion hyn. Darparwyd amcangyfrif o gyfraniadau'r dyfodol i'r staff hynny a oedd wedi trefnu cytundebau ymddeoliad cynnar terfynol cyn 31 Mawrth 2005.
- Nodwyd swyddi penodol nad oes eu hangen mwyach. Darparwyd ar gyfer costau diswyddiad amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymgynghori â nhw cyn 31 Mawrth 2005, ond na thalwyd taliad llawn ar eu cyfer erbyn y dyddiad hwnnw. Gwneir taliadau diswyddiad yn unol â'r trefniadau a'r telerau contractiol a nodir yn nhrefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGS).

## 15 Ymrwymiadau caled

Gweinyddir derbyniad ffurfiol y cynigion grant ar gyfer rhaglen hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r cyrff gweinyddu'n rhoi cofnodion i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd sy'n dangos cyfanswm yr ymrwymiadau newydd a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y cofnodion archwiliedig terfynol ar gyfer y rhaglen hon i fod i gyrraedd y Gronfa erbyn 31 Rhagfyr 2004. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cynnwys ymrwymiadau newydd a gofnodwyd ar gofnodion archwiliedig a ddarparwyd gan gyrff gweinyddu adeg paratoi'r cyfrifon hyn. Gweler polisi cyfrifo Nodyn 1.8. Adroddir addasiadau i ymrwymiadau blynyddoedd blaenorol sy'n codi o gofnodion archwiliedig fel rhan o ffigurau'r flwyddyn bresennol, o fewn y ffigur "ymrwymiadau grant a wnaed" yn y tabl isod.

Caiff taliadau ar gyfer ymrwymiadau grant, a weinyddir gan y partneriaid dirprwyedig am raglen hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol, eu cydnabod wrth dderbyn cofnodion archwiliedig.

| | Ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 £'000 | Ymrwymiadau grant a wnaed £'000 | Ymrwymiadau grant a ddirymwyd ac a ddiddymwyd £'000 | Ymrwymiadau grant a fodlonwyd £'000 | Ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2005 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfannau byw'n iach | 183,802 | 1,409 | (–) | (56,483) | 128,728 |
| Dysgu y tu allan i oriau ysgol | 77,948 | 7,680 | (1,773) | (40,192) | 43,663 |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol | 134,369 | 25,145 | (8,310) | (69,250) | 81,954 |
| Hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol | 26,343 | 6,342 | (15,413) | (10,008) | 7,264 |
| Hyfforddiant yr ICT i staff llyfrgelloedd cyhoeddus | 1,665 | 100 | (580) | (989) | 196 |
| Digido deunydd dysgu | 8,255 | 10 | (239) | (7,716) | 310 |
| Canser | 22,634 | 31 | (527) | (15,801) | 6,337 |
| Cymunedau'n manteisio ar addysg gydol oes | 46,010 | 1,496 | (2,758) | (33,013) | 11,735 |
| Meysydd glas a chymunedau cynaliadwy | 48,547 | 2,374 | (879) | (31,574) | 18,468 |
| Cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon | 251,824 | 397,502 | (9,803) | (77,906) | 561,617 |
| Gweithgareddau i bobl ifanc | 23,436 | 26,432 | (872) | (26,330) | 22,666 |
| Lleihau baich Clefyd Coronaidd y Galon, canser a strôc | 129,018 | 8,230 | (1,073) | (50,243) | 85,932 |
| Gofal lliniarol | 65,292 | 712 | (–) | (16,901) | 49,103 |
| Trawsnewid cymunedau | 93,820 | 21,633 | (474) | (23,187) | 91,792 |
| Cynlluniau grant ar raddfa fach | 267 | 14,477 | (38) | (14,299) | 407 |
| Cyn filwyr | – | 22,916 | (9) | (15,833) | 7,074 |
| Y Gronfa Pobl Ifanc | – | 13,834 | (–) | (1,343) | 12,491 |
| | 1,113,230 | 550,323 | (42,748) | (491,068) | 1,129,737 |

# Nodiadau i'r cyfrifon

Mae balans yr ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i dderbynwyr yn y cyfnodau canlynol:

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu o fewn blwyddyn | 448,754 | 485,121 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu mewn mwy na blwyddyn | 680,983 | 628,109 |
| | 1,129,737 | 1,113,230 |

Mae balans yr ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i'r sectorau canlynol.

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 107,494 | 57,11 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 613,279 | 452,357 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i sefydliadau'r gwasanaeth iechyd gwladol | 145,383 | 216,132 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i Gorfforaethau Cyhoeddus | 1,673 | 3,706 |

## 16. Ymrwymiadau meddal

Mae ymrwymiadau meddal yn cynrychioli cynigion grant y mae'r ymgeisydd heb eu derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig eto. Fel y cyfryw, ni chaiff y rhain eu cydnabod fel ymrwymiadau ariannol yn y cyfrifon hyn.

| | Cynigion a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 £'000 | Cynigion a wnaed £'000 | Cynigion a ddirymwyd neu a ddiddymwyd £'000 | Cynigion a wnaed a drosglwyddwyd i ymrwymiad grant £'000 | Cynigion a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2005 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfannau byw'n iach | 600 | 960 | (–) | (1,409) | 151 |
| Dysgu y tu allan i oriau ysgol | – | 8,819 | (–) | (7,680) | 1,139 |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol | 4,700 | 21,805 | (–) | (25,145) | 1,360 |
| Hyfforddiant yr ICT i athrawon a llyfrgellwyr ysgol | 6,342 | – | (–) | (6,342) | – |
| Hyfforddiant yr ICT i staff llyfrgelloedd cyhoeddus | – | 100 | (–) | (100) | – |
| Digido deunydd dysgu | – | 86 | (–) | (10) | 76 |
| Canser | – | 31 | (–) | (31) | – |
| Cymunedau'n manteisio ar addysg gydol oes | 36 | 2,103 | (–) | (1,496) | 643 |
| Meysydd glas a chymunedau cynaliadwy | 103 | 4,201 | (119) | (2,374) | 1,811 |
| Cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon | 9,372 | 433,428 | (–) | (397,502) | 45,298 |
| Gweithgareddau i bobl ifanc | – | 37,932 | (–) | (26,432) | 11,500 |
| Lleihau baich Clefyd Coronaidd y Galon, canser a strôc | – | 8,352 | (–) | (8,230) | 122 |
| Gofal lliniarol | – | 1,105 | (–) | (712) | 393 |
| Trawsnewid cymunedau | 31,698 | 1,379 | (10,944) | (21,633) | 500 |
| Cynlluniau grant ar raddfa fach | – | 14,477 | (–) | (14,477) | – |
| Cyn filwyr | – | 23,596 | (–) | (22,916) | 680 |
| Y Gronfa Pobl Ifanc | – | 14,306 | (–) | (13,834) | 472 |
| | 52,851 | 572,680 | (11,063) | (550,323) | 64,145 |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 17 Cyd-gynlluniau

Yn gynwysedig yn ymrwymiadau caled y fenter cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon, ceir £- (2003/04 £200,000) o ymrwymiadau grant newydd a £12.8 miliwn (2003/04 £12.0 miliwn) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd at grantiau a wnaed fel rhan o gyd-gynllun y Llecynnau ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau. Bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyfrannu £25 miliwn at gyfanswm y cyllid o £130 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan 'Sport England' ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

Yn gynwysedig yn ymrwymiadau caled y fenter cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon, ceir £57.4 miliwn (2003/04 £-) o ymrwymiadau grant newydd a £51.4 miliwn (2003/04 £-) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd at grantiau a wnaed fel rhan o gyd-gynllun Active England. Bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyfrannu £77.5 miliwn at gyfanswm y cyllid o £107 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan 'Sport England' ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

Yn gynwysedig yn ymrwymiadau caled ar gyfer y cynllun grantiau bach, ceir £10.6 miliwn (2003/04 £11.4 miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £180,000 (2003/04 £57,000) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd at gyd-gynllun Arian i Bawb, Lloegr. Yn ystod 2004/05 cyfrannodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd £10.9 miliwn at gyfanswm y cyllid o £36.8 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

Yn gynwysedig yn ymrwymiadau caled ar gyfer y cynllun cyn filwyr, ceir £3.9 miliwn (2003/04 £- miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £1.1 miliwn (2003/04 £-) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd at gyd-gynllun Cofio'r Ffrynt Cartref. Bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyfrannu £4.7 miliwn at gyfanswm y cyllid o £6.8 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

## 18 Cyfran Deg

Yn ystod 2002/03, ymunodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd â chontract grant â'r Rhwydwaith Sefydliad Cymunedol (RhSC) i weinyddu gwaddol y gellir ei wario er mwyn darparu cyllid i fodloni amcanion y Cyfarwyddiadau Polisi Cyfran Deg. Ym mis Awst 2003, talodd y Gronfa £50 miliwn i'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg a sefydlwyd gan RhSC.

Ar 31 Mawrth 2005, adroddodd RhSC fod mantolenni'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg yn dangos £49.7 miliwn (2003/04 £49 million), a bod enillion cyfalaf o £678,000 (2003/04 £930,000) heb eu cyflawni. Mae'r gwariant yn adlewyrchu costau rheoli RhSC, y rheolwr buddsoddi a'r asiantau lleol sy'n rheoli'r rhaglen yn yr ardaloedd Cyfran Deg; dyfarnwyd y grantiau cyntaf yn 2004/05, a thynnwyd £1.4 miliwn o'r Ymddiriedolaeth i dalu am y dyfarniadau hyn. Mae cyfrifon archwiliedig yr Ymddiriedolaeth ar gael o RhSC, Arena House, 66 - 68 Pentonville Road, Llundain N1 9HS.

Darperir gwybodaeth bellach am gynnydd y cynllun yn yr adroddiad blynyddol.

## 19 Cysoni'r incwm a'r gwariant â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg cyn treth | (53,007) | (164,494) |
| Dibrisiant asedau sefydlog | 1,105 | 837 |
| Colled ar werthu asedau sefydlog | 98 | 129 |
| Lleihad yng ngwerth asedau sefydlog | – | 379 |
| Incwm llog | (678) | (702) |
| Cost net o weithgareddau gweithredu | (52,482) | (163,851) |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 12,531 | 38,788 |
| Gostyngiad ym malans CDdLG | 46,626 | 140,560 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | (5,402) | 4,804 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 827 | – Cynnydd / |
| (gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant | 16,507 | (19,197) |
| Mewnlif/arian net o weithgareddau gweithredu | 18,607 | 1,104 |

## 20 Risgiau ariannol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddatgelu effaith offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

## Risgiau hylifedd

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005, daeth £452.2 miliwn (92 y cant) o incwm y Gronfa Cyfleoedd Newydd o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o adenillion buddsoddi o'r balans a gadwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £31.1 miliwn (chwech y cant), ac o log banc ac incwm arall £8.8 miliwn (dau y cant).

Ar 31 Mawrth 2005 roedd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd rwymedigaethau net o £406.7 miliwn, ac ymrwymiadau meddal o £64.1 miliwn. Er bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud ymrwymiadau sy'n fwy na'i hasedau, nid yw'r Bwrdd yn teimlo bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wynebu risgiau hylifedd arwyddocaol gan na fydd llawer o'r ymrwymiadau hyn yn cael eu talu tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Y rheswm am hyn yw mai dim ond ar ôl i ddeiliaid grant brofi eu hangen i dderbyn cyfran nesaf yr arian grant a glustnodwyd ar eu cyfer y bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn caniatáu iddynt dynnu unrhyw arian i lawr. Oherwydd y gwahaniaethau amseru rhwng y dyddiad y mae deiliad y grant yn derbyn y cynnig grant gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a'r dyddiad y mae deiliad y grant yn dechrau tynnu'r arian hwn i lawr, anoga'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd orymrwymo'r arian sydd ar gael.

# Nodiadau i'r cyfrifon

| Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2005 | £'000 |
|---|---|
| Gwerth buddsoddiadau CDdLG ar y farchnad | 690,650 |
| Arian parod | 20,473 |
| | 711,123 |

| Rhagolygon llif arian 2005/2006 | |
|---|---|
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 447,000 |
| Incwm arall | 6,000 |
| Taliadau costau gweinyddol | (36,000) |
| Taliadau grant | (557,000) |
| Rhagolygon asedau hylifol ar 31 Mawrth 2007 | 571,123 |

Seilir y rhagolygon incwm ar arweiniad a ddarperir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Seilir rhagolygon y taliadau grant ar broffiliau amcangyfrifedig ar gyfer tynnu grantiau i lawr a gyflwynwyd gan dderbynwyr y grantiau adeg y dyfarniad.

## Risgiau cyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cyfyng o asedau risg isel, fel bondiau y llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad yr arian yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddyddiad y Fantolen, £690.7 miliwn oedd gwerth marchnad y buddsoddiad yn CDdLG. Yn ystod y flwyddyn, cyfartaledd yr adenillion ar y buddsoddiadau hyn oedd 4.5 y cant.

Cedwir yr arian parod sy'n cael ei dynnu i lawr o'r CDdLG i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon cynilo dim rhybudd sydd â chyfraddau llog amrywiol, a oedd ar gyfartaledd yn gweithredu cyfradd llog o 3.5 y cant y cant yn ystod y flwyddyn. Yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £20.4 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog ar ei mantolau.

## Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn cael ei datguddio i unrhyw risgiau arian tramor.

## 21 Ymrwymiadau ariannol

## Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2005, roedd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd yr ymrwymiadau blynyddol canlynol o dan brydlesi gweithredu.

| | Offer swyddfa £'000 | Tir ac adeiladau buildings £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2005 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn | 51 | 189 | 240 | 65 |
| Yn dod i ben mewn 1-5 mlynedd | – | 84 | 84 | 43 |
| Yn dod i ben mewn mwy na 5 mlynedd | – | 3,731 | 3,731 | 3,946 |
| | 51 | 4,004 | 4,055 | 4,054 |

## Ymrwymiadau cyfalaf

| | Fel ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd mewn perthynas â gwariant cyfalaf ar gyfer pwrpasau gweithredu ond na gytundebwyd | – | – |

## 22 Cynllun pensiwn

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGS). Ers 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod yn perthyn i un o dri chynllun "cyflog terfynol" statudol penodol diffiniedig (clasurol, premiwm neu glasurol plws). Nid yw'r Cynlluniau'n cael eu hariannu, gyda chostau'r buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir bob blwyddyn gan y Senedd. Mae'r pensiynau a delir dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau newydd ers 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth bremiwm neu ymuno â threfniant rhanddeiliad safonol drwy "brynu arian" gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer y cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Mae buddion y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond fe all yr aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Yn ei hanfod, amrywiad ar y cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol, ond gyda'r buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002, yn fras, yn cael eu cyfrif yn unol â'r cynllun clasurol.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 - 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at bensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n penderfynu gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch).

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am drefniadau PGS ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2004/2005, roedd cyfraniadau o £1,294,000 yn daladwy fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r PGPGS (2003/04 £1,255,346) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 12 - 18.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel a ddangosir isod). Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddion fel maent wedi cronni, nid pan fo'r costau'n codi mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2005/06 wedi cynyddu ar sail argymhellion Actiwari'r Llywodraeth.

| Bandiau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 |
|---|---|
| £17,500 a llai | 12% |
| £17,501-£36,000 | 13.5% |
| £36,001-£62,000 | 16.5% |
| £62,501 a mwy | 18.5% |

| Bands | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 |
|---|---|
| £17,000 a llai | 12% |
| £17,001-£35,000 | 13.5% |
| £35,001-£60,500 | 16.5% |
| £60,500 a mwy | 18.5% |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 23 Colledion arian parod a thaliadau arbennig

Yn ystod y flwyddyn, diddymwyd £439,403 (2003/04 £2,630) o daliadau grant i 17 derbynnydd grant fel bod yn anadferadwy.

| | Y flwyddyn a ddaeth I ben ar 31 Mawrth 2005 £000 |
|---|---|
| Clybiau Chwarae Adelphi | 145 |
| Symiau yn llai na £100,000 | 294 |
| | 439 |

## 24 Trafodion partïon cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ystyrir bod yr Adran yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cael gwahanol drafodion perthnasol â'r Adran a chyrff eraill yr ystyrir mai'r Adran yw'r Adran noddi ar eu cyfer: y Llyfrgell Brydeinig, y Gronfa Gymunedol, English Heritage, yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Glannau Merswy, Sport England, Oriel y Tate, Resource.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd nifer o drafodion perthnasol ag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried Adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddi:

- Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain a noddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau
- Y Countryside Agency ac English Nature a noddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Awdurdod Datblygu Iechyd a noddir gan yr Adran Iechyd
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yr Archifdy Cyhoeddus
- Highlands and Islands Enterprise a noddir gan Swyddfa'r Alban.

## Aelodau'r bwrdd

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn dilyn cod ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae Aelodau'r Bwrdd yn cadw cofrestr o fuddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac o'u cysylltiadau masnachol â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid eu hystyried yn rhesymol fel penderfyniadau sy'n creu gwrthdrawiad rhwng buddiannau, yn bennaf ynghylch grantiau i gyrff gwirfoddol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod sicrhau ar y dechrau bod unrhyw fuddiannau'n cael eu datgelu a bod aelod perthnasol y pwyllgor yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod tra bo'r eitem berthnasol yn cael ei thrafod. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn cymryd rhan mewn prosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd wedi datgan buddiannau â chyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd fuddiannau busnes nad ydynt yn rhai perthnasol â nhw.

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:
**Ar y we**
www.tso.co.uk/bookshop

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebu trwy Linell Frys y Senedd: Lo-Call 0845 7 023474
E-bost bookorders@theso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siopau Llyfrau Y Llyfrfa**
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Siôp Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

**Asiantaethau Achrededig**
(Gweler Yellow Pages)

*a thrwy lyfrwerthwyr da*